



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



CEINION BUDDUGOL

EISTEDDFOD BIRKENHEAD


1878.




28915

2

54.







Y CEINION BUDDUGOL

YN

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 1878,

A GYNHALIWYD YN

BIRKENHEAD,

YNGHYD A'R

NODIADAU BEIRNIADOL, &c.

DAN OLYGIAD GWILYM ALLTWEN.

LIVERPOOL:

FOULKES AC EVANS, ARGRAFFWYR A LLYFRWERTHWYR,
16, TITHEBARN STREET.

29 11 1911
LIBRARY

TO
JOHN HUGHES, Esq., J.P., LIVERPOOL,
CHAIRMAN OF THE COMMITTEE,
AND ONE OF THE
PRESIDENTS OF THE BIRKENHEAD ROYAL NATIONAL
EISTEDDFOD, 1878,

The following pages are inscribed

With sentiment of respect and esteem, for his invaluable services to the Ancient Institution of the CYMRŷ, and his special attachment and support to every movement that tends to elevate the condition of his fellow country and town's men,

By

THE PUBLISHERS.

CYNWYSIAD.

	Tudal.
Y Cyflwyniad - - - - -	iii.
Rhagdraith - - - - -	v.
Y Fantol-Len - - - - -	vii.
Llywyddion a Chantorion - - - - -	viii.
Rhagluniaeth (Awdl) - - - - -	3
Joshua (Arwrgerdd) - - - - -	49
Marwnad yr Enwogion canlynol— - - - -	117
IOAN PEDR - - - - -	118
IEUAN GWYLLT - - - - -	129
MYNYDDOG - - - - -	135
TREBOR MAI - - - - -	141
Gwroldeb (Cywydd) - - - - -	148
Buarth yr Amaethdy (Cân ddesgrifiadol) - - - - -	156
Y Mêl (Englyn) - - - - -	159
Beddargraff TEGIDON (Hir a Thoddaid) - - - - -	159
Boddiad y Cerddor HOPKIN (Balad) - - - - -	160
CYFIEITHIADAU :—	
Gôf y Pentref (<i>The Village Blacksmith</i>) - - - - -	161
Y Gigfran (<i>The Raven</i>) - - - - -	163
The Lunatic Asylum (<i>Y Gwallgofdy</i>) - - - - -	166
Ned Pugh's Grandchild (<i>Wyres Ned Pun</i>) - - - - -	168-169
Beirniadaethau - - - - -	170

RHAGDRAITH.

ANWYL GYD-WLADWYR,

Mae'n hyfrydwch genym gyflwyno y gyfrol hon o gynrych buddugol yr wyl genedlaethol i'ch sylw, ac yr ydym yn dra hyderus y rhoddir iddi groesaw helaeth a chalonog gan yr holl frawdoliaeth eisteddfodol, a chan filoedd o edmygwyr ceinion yr awen Gymreig.

Teimlem ei bod yn ddyledswydd arnom, wedi ein llafur yn ymwneyd a dwyn oddiamgylch weithrediadau yr Eisteddfod Fawreddog hon, i roddi help llaw yn mhellach i ddwyn allan rhyw gymaint, o leiaf, o'r cynrychion buddugol; a chredwn ein bod drwy hyn yma yn gwneyd gwasanaeth a gyfrifir yn dderbyniol gan holl garedigion diledryw yr Eisteddfod. Yr ydym yn hyderu y caiff y cyfansoddiadau rhyddieithol a cherddorol hefyd weled goleuni dydd ar fyrder, ac y byddant hwythau, yn gystal a'r Ceinion hyn, yn gofgolofnau amlwg a pharhâol o ddaioni yr Eisteddfod, ac o athrylith ei mheibion. O herwydd meithder y ddau brif gyfansoddiad, y mae y cyhoeddwyr o dan orfodaeth i adael allan o'r gyfrol hon y Rian-Gerdd fuddugol "OLWEN," yr hon hefyd sydd yn faith anghyffredin, ac o ganlyniad a chwyddasai y llyfryn hwn i faintioli ag y buasai yn ofynol iddynt godi ei bris.

Mae'n deg i ni wneyd yn hysbys ddarfod i ni, gyda'r dymuniad o droi allan y Ceinion hyn mor ddilychwin ag sydd bosibl, ymgynghori â'u gwahanol awduron, a chael eu cymeradwyaeth a'u nodiadau ar y prawfleni.

Buasai yn dda genym pe caniatâi y gofod i ni roddi yma fyr-hanes o'r Eisteddfod lewyrchus a gwir fawreddog hon, yn nghyda rhai gwersi pwysig y gellid yn briodol iawn eu tynu oddiwrthi, er budd

i bwyllgorau yn y dyfodol, eithr rhaid ymfoddloni heb hyny ; modd bynag, nynt a hyderwn y gwasanaetha y Fantol-len (*Balance-sheet*) swyddogol a ganfyddir ar y ddalen nesaf, fel rhybudd i ereill rhag syrthio o honynt hwythau i'r unrhyw gamgymeriad dybryd o achosi y fath dreuliadau aruthrol, yn enwedig pan nas gall y pwyllgor a'i swyddogion godi ond rhyw £370 o danysgrifiadau. Er y cyfan, y mae yn foddhad nid bychan gan lawer o aelodau gweithgar a chenedl-garol oeddynt a'u hysgwyddau yn dŷn dan yr anturiaeth fawr ddiweddar, weled ei bod wedi gallu trosglwyddo Can' Punt i drysorfa y Brif Ysgol, a chyffelyb swm at achosion elusenol.

Yr ydym yn awr yn gollwng y "Ceinion" o'n gafael, gan ddy-muno iddynt rwydd hynt a gyrfa lwyddianus i'w safle priodol yn mynwes cenedl y Cymry.

Y GOLYGYDD.

BIRKENHEAD,

Mehefn 25, 1879.

THE ROYAL NATIONAL EISTEDDFOD OF WALES, HELD AT BIRKENHEAD IN 1878,
IN ACCOUNT WITH THE TREASURER.

EXPENDITURE.		INCOME.	
To Erection and Decoration of Pavilion, Rent of Ground, &c.	£1196	By Receipts at Eisteddfod—viz.,	
Amount distributed in Prizes and Medals ...	641	First Meeting, Sept. 17th... ..	£111 15 0
Artistes, Conductors, and Adjudicators ...	637	Second " " 18th.....	649 8 0
Music, Instruments, Band, Chorus, &c. ...	124	Third " " 19th.....	327 9 6
Secretaries, Clerk of Works, &c. ...	200	Fourth " " 20th. ...	132 3 0
Rent of Offices, Lecture Hall, & other rooms ...	11	First Concert, " 17th.....	231 6 0
Printing and Stationery ...	92	Second " " 18th.....	544 6 3
Advertising and Bill-posting... ..	138	Third " " 19th.....	328 2 0
Legal Charges	12	Fourth " " 20th.....	196 1 0
Sundry payments	70	Tickets sold at Music-shops, &c.	213 14 6
Handed over to following Institutions, viz.,			2734 5 3
University College of Wales, ... £100	0 0	Proceeds of extra Concert	2 0 11
National Life-boat Institution ...	50	Receipts at Gorsedd, held August, 1877	15 13 0
Birkenhead Borough Hospital ...	40	Subscriptions as per published list ...	370 12 0
Do. Children's do. ...	6	Donations of Prizes, do.	77 17 6
Do. Lying-in do. ...	2	Sale of Copyrights, Books of Words, &c.	100 19 9
Wirral Dispensary	1	Rent of Refreshment Booths, &c. ...	17 2 0
	200	Sale of Office Furniture, &c.	9 16 3
	<u>£3328 6 8</u>		<u>£3328 6 8</u>

EDWARD JONES,
Treasurer.

Examined and found correct, W. W. ST. GEORGE, Auditor.
Approved on behalf of the Vord Gron, HUGH OWEN.

ROYAL NATIONAL EISTEDDFOD,
1878.

PRESIDENTS AND PATRONS.

The Right Hon. LORD ABERDARE.

Sir WATKYN W. WYNNE, Bart., M.P. DAVID MACIVER, Esq., M.P.

G. OSBORNE MORGAN, Esq., Q.C., M.P. JOHN ROBERTS, Esq., M.P.

JOHN LAIRD, Esq. (Mayor of Birkenhead).

ARTHUR B. FORWOOD, Esq. (Mayor of Liverpool).

JOHN HUGHES, Esq., J.P., Liverpool.

CONDUCTORS.

LLEW LLWYFO and the REV. DR. MORGAN (LLEURWG).

ARTISTES.

VOCALISTS: Madame Edith Wynne, Miss Mary Davies, Mrs. Maggie Jones Williams; Madame Patey, Miss Martha Harries; Eos Morlais, Mr. W. Apmadoc (U.S.A.); Signor Foli, Mr. T. J. Hughes, Llew Llwyfo, and Eos Mai (Pennillion Singer).

INSTRUMENTALISTS: Mr. Brinley Richards, Mr. John Thomas (Pencerdd Gwalia), Mr. W. Pearce (Telynor y Bryniau); Miss Maggie Evans, Mr. J. Skeaf; and Mr. F. Duncanson (Leader of the Band).

CHORUS: Birkenhead Cambrian Choral Society, Mr. W. Parry, Conductor.

YR AWDL FUDDUGOL

AR

RAGLUNIAETH.


GAN

HWFA MON,

(Y PARCH. R. WILLIAMS, LLUNDAIN.)

LIVERPOOL:

CYHOEDDEDIG GAN FOULKES AC EVANS, 16 TITHEBARN STREET.



RHAGLUNIAETH.

RHAGLUNIAETH ! erglyw enaid ;—O ystyr,
Mae'n destyn bendigaid,—
Agor, cryfha dy lygaid ;—'rho dremiant
I mewn i'w ogoniant,—O mae'n ganaid !

Nefol, lawn, fyw oleuni,
Têg, sydd yn ei hamnaid hi,—
Edrych, trwy Nef belydron,
Y mae Duw yn nhremiad hon !

I dreiddgraff Feirdd seraphawl,—y rhoddodd
Gyfarwyddid nefawl,—
Dyry o hyd belydr o wawl,—a drych
Y Nef i edrych gwaith Duw anfeidrawl.

Doda oleuni didor,
Ar wên orseddfainge yr Iôr,—
Yr hên orseddfa lle'r oedd
Yn bod cyn creu y bydoedd.

Yno arfaethai, ei hunan,—ei lawn
Ragluniaeth gyssegrlan,—
Ei dull osodai allan,
Yn glir ar ei Femrwn glân.

O ddim i weinyddu hon,
E' alwai ei angylion,—
A'r chwim Seraphim a rydd
Daenai ei glaer adenydd,—
Heibio y cu Gerub cain
A rodiai ar ei adain,—
Brysient, a thremient i'w thrôn,
Filiwnau nefol wynion !

Y torfoedd apwyntiai arfaeth,—ein Naf,
 I nefawl wasanaeth,—
 Trwy y Nef, eu troi a wnaeth
 I weini trefn Rhagluniaeth.

Ac yno, ar seddau canaid,—i'w Hiôn,
 Cydganai Seraphiaid,—
 A'u pur delynau, heb baid,—eu heglur
 Donau croewbur daniai Cerubiaid.

Ac yn ei fawr ogonedd,
 O'i ddwyfol, gyssegrol sedd,
 Yn ei waith, esboniai Iôr,
 I'w engyl, drefn ei gyngor.

Ac o'i wenfainge, llifai gwynfyd,—a hwn
 Dywynai o'i ysbryd ;
 Buan y treiddia bywyd,
 A gwaith trwy natur i gyd.

Jehofa wnai ffurfafen,
 I bur ymlasu uwch ben,
 Lledai, cywreiniau bob rhan,
 O honi iddo'i Hunan.

Efe ar eiliad lefarai hauliau,
 A hwy a wrident i'w harian rodau,
 Gosododd gysawdiau,—a dysglaerdeu
 Mawredd ei wyneb drwy y myrddiynau !

Iddo'i hun edrychodd Ef
 Am ganaid emu gwiwnef,
 Godidawg i gyd ydyw,
 A *Theml* i Ragluniaeth yw !

Mor oleu, O mor helaeth—yw yr wybr,
 Mor hardd ei gwneuthuriaeth ;
 Mor ddwyfol yw amrywiaeth—ei ser hi,
 Pur eu goleuni,—lampau Rhagluniaeth !

Yno Duw gynneuai dân,
 Lluniodd ganwyllau anian,
 Ni wenai hauliau'r wiwnef,
 Na dim heb ei amnaid Ef.

Y ser hudol siaradant,—am Dduw Iôr,
 I'w dwyfol Gynor y dyfal ganant,
 Ac o newydd, cynneuant—eu cathlau,
 Croew aur donau i'w Crewr a daenant.

Ond twyllwyr sibrydant allan,—nad oes
 Yr un Duw yn unman,
 Y Duw anfeidrol sydd dân,
 Hwnw enwant yn anian !

Arafed y twyllwyr hyfion,—rai ffôl,
 Ar eu ffyrdd gorwylltion ;
 Gwylid y beiddiawg alon,
 Iaith hyf yr athrawiaeth hon.

Ceir Annwn drwyddi'n crynu—a'r halog
 Gythreuliaid yn credu,
 A yw dyn ffôl damniol dû,
 Gwedyn yn beiddio gwadu ?

Ystyr athraw atheistiaeth :—clyw eiriau
 Byw yr hauliau, hyd yr wybrau helaeth ;
 Gwel yno Dduw Rhagluniaeth,—yn rhoi cylch
 Ei gariad ogylech y greadigaeth !

Myned yr haerllug ymhonydd—y llwch,
 Hwn yw lle y diffydd,
 Gwelwed y coeg sylwedydd,—a chryned,
 Ie, gwrieded o flaen ei Greawdydd.

Goleuni dafra Rhagluniaeth—ein Duw,
 Ar dwyll ei anffyddiaeth ;
 Ysa ei holl broffesiaeth :—gyr farnau,
 A tharanau drwy fainge ei athroniaeth !

Nid all y Cerubiaid hên,
 Er eu dysg, amgyffred Iôn.
 A mawr glod, y mae Iôr glân,
 Yn Dduw Iah ynddo ei Hun !

Drwy y mûd ddiddymdra mawr,
 Cyn y goleuni ceinwawr,
 Hanfod y Duwdod ydoedd,
 Y Duw mawr yn y dim oedd !

YDWYF, yw ei enw odiaeth,
Y Gwiw Nêr, Efe a'n gwnaeth,
Yn yr Iôr hanu yr ym,
A rhodio ynddo 'r ydym.

Ond Rhagluniaeth, drwy'i goleuni,—nefawl,
A ddifa y lleni ;
Yn ei hiaith, esbonia hi
Galon y dwyfol Geli.

Daw ei throion,
Dyrus, dyfnion,
A dirgelion
 Duw i'r golau ;
Rhydd belydrol
Olau nefol,
Ar ei fythol
 Hên arfaethau.

Ei byw olwynion, gantau ysblenydd,
Trwy wyll, a golau, sy'n troelli 'u gilydd,
A throiau eu rhodau rhydd—wrth fythol
Reolau dwyfol, arwylia Dofydd.

Mae llygaid gordanbaid Iôn,
Ar luniau yr olwynion,
A'u hyfawl gantau hefyd,
A geir yn llygaid i gyd !

Gweision, i wneud ei negesau,—heb oed,
Yw bydoedd yr wybrau ;
Ar eu hynt, ânt i'w mawrhau,
Yn wynias hyd y nenau.

Ser cochion yn gwreichioni,
Yn dân, ar ei hamnaid hi ;
Ant drwy gylchoedd nefoedd Naf,
I'w hantur am y cyntaf !

Ar wibiadau, o ddeutu i'r bydoedd,
Yn loew eu nifer, hed engyl nefoedd ;
Ar fuain yrfaoedd,—y cyd fflamiant,
Hydr fyw weithiant, i wneud ei harfaethoedd.

Un a drydd, yn fellten draw,
 I ryw haul, i'w arwyliaw ;
 Arall ar hynt, gynt na gwawl,
 I ryw seren, glaer siriawl ;
 Nofiant yr wybrau nefawl,
 A'u gwedd yn lledaenu gwawl.

Mewn dydd claerwyn,
 Oedant wedyn,
 Ar eu hedyn,
 Mewn efrydiaeth ;
 Dwfn ryfeddant,
 Ymaith hedant,
 A gŵyl wenant,
 I Ragluniaeth.

I'w hamnaid, heb baid, yn bur,
 Etyb elfenau natur ;
 Y mwyn wynt, y corwynt cyrch,
 Ar hyntoedd, drwy yr entyrch—
 Y melltiog, drydanog dân,
 Llif dŵr, a llef y daran ;
 Yr anghenfil, gwyllt filain,
 A mellt yn ei lygaid main ;
 Y blaidd, daneddog, a blin,
 Ac hithau yr arth gethin ;
 Y brych felyn deigrin dig,
 A gwaedwyllt lew y goedwig ;
 O'u celloedd, ar brange allan
 Y dônt, a'u llygaid yn dân !
 Cyd-ruant, rhedant yn rhydd
 I'w galwad gyda'u gilydd !

Hoff yw golau
 I wel'd llwybrau,
 A throadau
 Ei gweithrediad.
 Mae'n ddyddorus,
 A mawreddus,
 Ogoneddus,
 Ei gweinyddiad.

Duw ei hun, a weithia Rhagluniaeth—bur,
 Drwy ei ben arglwyddiaeth;
 Yn Nuw tywynu wnaeth—o dywyllwch,
 Ei gwir degwch drwy y greadigaeth.

Pan anadla,
 Heb oed deillia
 Bywyd allan,
 Byd ddadebrir,
 Ac ailenir,
 Gwelw anian !

Ei chusan serch a esyd—ar wefus
 Wryfol yr hollfyd ;
 Trwy ei gwaith, natur i gyd,
 A ymwena mewn munyd.

Trwy y bryndir,
 A'r dyffryndir,
 Yma gwelir
 Ei hymgeledd ;
 Ar y llwydion
 Faesydd llymion
 Dyry goron
 O drugaredd.

Hi a dywallt i'n daiar—wywedig,
 Ei chawodydd maethgar ;
 Bywiolion gwylltion, a gwâr,
 Ganant am gawod gynar.

Hi blyga, baentia â'i bys
 Rhinfawr, fwa yr enfys ;
 Gemog, odidog ydyw,
 A bwa deddf bywyd yw !

Gwenadwe ei llaw gu odiaeth—yw hon,
 Baner dwyfol arfaeth ;
 Rhyw dêg ail greadigaeth—i'r wybr fawr,
 Lleuerog lonwawr,—lliwiau Rhagluniaeth.

Tery 'i bys distaw ar ben
 Gwywedig athrist goeden,
 A hon, heb oed, dan ei bys
 O angau ail ymddengys !

Deua hyd faes y diwyd,—a'i gwyneb
 Yn gwenu mewn bywyd ;
 O'i hafrif ffafrau hyfryd,—dan wlithyn,
 Ei byw rosyn ar ei lwybr a esyd.

Ei seigiau ni rydd i segur,—na'i dâ,
 I'r un dwl gysgadur ;
 Ond mae gw lith ei bendith bur,
 Yn llifo i fab llafur.

Ei llaw ddê, yn ddi ball ddyd,
 I dawel dywys diwyd ;
 A'r ddwyllaw hardda welwn
 Yw ei llaw hi a llaw hwn.

Hefo'r wawr, hyd y fro wên,
 Y llunia y feillionen ;
 Lle y sang, brieill y sydd,
 Diniwaid flodau newydd.

Mor bur ei blagur, a'i blith,
 Hardda, darpara bob peth,
 Chwardda, dysgleiria mewn gw lith,
 Hyd newydd faesydd di feth.

Ag Oen bach gwenu y bydd,
 Yn delaid yn y dolydd ;
 A'i siriol wynfys eirian,
 Drwy wlith modrwy a ei wlân.

Yn ei llaw, dros ben y llwyn,
 Prangcia, chwareua yr oen ;
 Dan ei thryblith fendith fwyn,
 Llawenha yn llawn o hoen.

Yn hyfryd, ar hyd yr âr,
 Ar wyneb tew y braenar ;
 Hi garia, a'i llaw gywrain,
 Fawr bryd i gymanfa'r brain.

A deua y brain duon,—hyd y maes,
 Neidia myrdd yn wylltion ;
 Hyd y lle, cânt damaid llon :—gwledd felus,
 Beraidd ac iachus, o'i byrddau cochion.

Dyry ei bwyd i'r dryw bach,
 A'i dylwyth yn y deiliach ;
 Tyr i aderyn y tô,
 Ei bendith dan y bondo ;
 Ar lêt, yn arlwyedig,
 Dyna y bwyd dan ei big !

Ac heibio, gwâdd y gwibaid,—o'i hogylech,
 Yn llygaid haul tanbaid ;
 Trefna, darpara, heb baid,
 Gynnaliaeth i'r gwenoliaid.

Mor lawen am eu harlwyath,—ydyw
 Eu twidiawg sibrydiaeth ;
 Annuw, ar fainge dy athroniaeth,—ffugiol,
 Erglyw wenol yn moli Rhagluniaeth !

Huda y gôg, hyd y gainge,
 Y lasgog, hyd y lwysgainge ;
 Arlwy frâs, ar ael y fro,
 Goginiawdd i'r gôg yno.

Hyd y perthau,
 Ac wrth fonau
 Cyff y llwynau
 Caiff ei lluniaeth,
 Am ei phorthi,
 Eilia ddyri,
 Ar gu lwyni
 I Ragluniaeth.

A rhodda bronfraith, oddiar wyrdd brenfrig,
 Fyw alaw hudol, a nefoledig ;
 Dawnsia, ail byngcia â'i big—gerdd lawen,
 Fwyn hyd y goeden, yn fendigedig.

Wedi blino 'n pyngcio pill,
 Eilio banau mêl benill ;

Daw i lawr, o'i geuad lwyn,
 Hyd oerlif, o'i dew firlwyn ;
 Oera 'i big, greadur bach,
 Yn y llyn a daw 'n llonach ;
 A heb oed, ail gwyd ei ben,
 Ysgydwa 'i ddilesg aden ;
 Ac yna y tlŵs ganwr,
 Rydd glôd am ddiod o ddŵr ;
 A difyr heda hefyd,—yn ei ôl
 I'w bren siriol, a bron na sieryd !

Ac eryr gaiff drugaredd,
 O'i gorau saig, ar ei sedd ;
 Dyga i'w gilfin dugoch,
 Bryd o gîg, ar ei bord gôch.

Yna dyrch, a'i lygaid yn dân,—gwibia,
 E wybrëa i wyneb yr huan,
 A hyfryd ymhofran—ar aden gref,
 Hyd fro y wiwnef difyra'i hunan !
 Esgyn yn uwch mewn rhwysgiaeth,—gan feddwi,
 Ar y goleuni'n mroydd Rhagluniaeth !

Gwel Greawdydd,
 Gwir Gynnalydd,
 A Rheolydd
 Y claer hauliau,
 O'i ysblenydd
 Orsedd, beunydd
 Yn rhoi bwydydd
 I'r abwydau.

Ag un law, y gweina lon
 Reng oleu yr angylion,
 A'r llall, yn y tyrau llwch,
 Gweina deulu gwan dulwch.

Mawredd Duw ydyw cymeryd—gofal
 Am y gwyfyn nychlyd ;
 A buan faethu bywyd
 Eiddilion abwydion byd.

Yma fawrion y byd myfyriwch—bawb,
 A chan bwyll ystyriwch
 Fod i angel fyth elwch,
 O adwaen llaw Duw'n y llwch !

Agor lwybr i'r morgrugyn,
 Hulio'i fwrdd, a'i wyllo fyn,
 Trwy y llawr, a'r tyrau llwch,
 Hwn rodia mewn hyfrydwch,
 A rheda yn hyfrydach,
 Hyd y bongc yn ddistaw bach.

Gwel hwn lwybrau Rhagluniaeth,—a deall
 Duedd ei naturiaeth ;
 Mwyn yw ei fyd, myna faeth,
 Abwydyn llawn darbodaeth.

Os gorwedd y swrth seguryn—wâs ffôl,
 Ar draws ffyrdd y pryfyn ;
 Y gorweddiog, ddiog ddyn,
 A grogir gan forgrugyn !

Rhagluniaeth rât, wastad estyn—wledd dda,
 Tra chu ofala am fwrdd trychfilyn ;
 I edlych, o'r fath ddistadlaf—pêr bryd,
 Heb ball a esyd yn y pwll isaf !

Wydda doethion athronwyr,
 Y craffus ewydus wyr,
 A ydyw yr abwydion
 Yn y llwch yn brudd a llon ?
 A lawena milionyn
 Am luniaeth o faeth a fyn ?
 A oes iaith, ddilediaith lâd,
 I bryfyn ddweud ei brofiad ?
 All y doethion esbonio
 Iaith a greddf tylwyth y gro ?

Darbodiad Iôr y bydoedd,—a welir
 Yn hulio bob cylchoedd ;
 O nen y ffurfafenoedd—ymddrychawg,
 Hyd i ymwriawg waelod y moroedd !

Diwalla, pesga y pysg,
 Yn eu gemau yn gymysg;
 Cyfrana, arlwya lân
 Foethau i'r lefiathan;
 A myn i frenin y mor,
 Ei wynfyd mewn eigionfor.

Yr heigiau, o bob rhywogaeth,—neidiant,
 Y hwy ymlonant o hyd am luniaeth;
 Dyrch y sîl, a'r morfilod—heb beidiaw,
 O foroedd didaw fawredd y Duwdod!

Ac i'r moeliog deigr melyn,
 Du ei far, gloddest a fyn—
 A dyrydd bryd, fraidd brâs,
 Ddigonedd, i'r blaidd gwŷnias;
 I hyena, lym ddanedd,
 Er ei lid, y dyry wledd,
 Egyr ei llaw, gyr ei llain
 O gigfwyd i'r arth gegfain;
 Yn ei gwaith, cyfrana gîg,
 I gadw Teyrn y goedwig!

Ac wedyn, bwystfilod godant—yn llon,
 Trwy'u haeliau trymion, naturiol tremiant;
 Eilchwyl, am fwyd diolchant—dyrch beunydd,
 Ar hyd y moelydd, ruadau'u moliant!

Hyd y maes, rhydd flodau mêl,
 Llwyni porfa, llawn purfel;
 Am y mêl yma i'w mant,
 Y gwenyn süoganant—
 Aroedant ar eu hedyn,—diolchant,
 A gwych y molant am gŵch melyn.

O dan ei gwllith bendithiol—a gwenau
 Ei gwyneb serchiadol;
 Seirian yw'r ddaiar siriol,
 Gemau Duw ar gwm a dôl!

Cnodion enydau,
 Dirion dyrau,
 O lon lwynau,
 Lawn luniaeth—

Dirfawr gynyrch,
Mewn haul lewyrch,
Ceurog lenyrch
Cu Rhagluniaeth !

Am westfa'r borfa, heb baid,
Difyr diolcha'r defaid ;
A'u brefawl, drydanawl dôn,
Bletha y gwartheg blithion.

Afrifed yw'r addfedion—ymsiglant,
Ac a ymwriant hyd géuau mawrion,
Eilir i Ragluniaeth hylon—foliant,
A gwiw ogoniant o geuau gwynion !

Sua'r geirchen,
Dawnsia'r heidden,
Dan yr haulwen
Dyner olau—
Ar eu corsen,
Iraidd felen,
Têr a llawen
Try eu lliwiau.

Gemau'r haul, digymar ynt,
Ei liwdeg ddelwau ydynt—
Dwyfol delidau hefyd,
Gwyrthiau heb ail, gwerth y byd !

Dlysed yr ymaddfedant;—i enw
Rhagluniaeth cyd-ganant;
Edrych, dan ei phelydriant—a'i bendith,
Y mae'r gwenith, fel môr o ogoniant !

Ac yma, dan wlith gemog,
Rhwing llwyni llawn grawn yn grôg;
Y ffurfia ffon bara'r byd,
Tyfa yn ddistaw hefyd—
Ar hon y pwysa'r henwr,
Ac hon gynnalio bob gŵr.
Ffon gref, y fferfaf hefyd,
A ffon yn ben ffyn ein byd !

Ffon geinciog, gymlethog lân,
 Ar hon gorphwysa'r brenin;
 Ir yw ei thŵf, at werth hon,
 Ail i bin yw Lebanon!
 Crinwellt yw gwydd, binwydd bân,
 Ysig yw derw Basan,
 Mwy o werth ei chymorthyd,
 I bawb na chedwydd y byd!

O! mor loew yw amryliwiaeth,
 Purllawn hulion perlleni helaeth,
 Per addfedion, meddfon maeth:—crwmlwythau
 Cu droiawg lwynau coed Rhagluniaeth!

Hi drych ar ffrwyth hydrin,—a hudol
 Addfeda yn iesin;
 Gwrida, gogryna 'r grawnwin,
 Ar hyd goed rheda ei gwin.

Y peraidd rawnwin purol,—ddyhidla,
 A hwn wasga o ddyffryn Esgol;
 O'r deilwydd, ei ffrydiau helaeth—gronant,
 Ac hwy lanwant gafnau Rhagluniaeth!

Rhagluniaeth, ddaw a phob maethon,—yn bur,
 O bob lle, yn gyson;
 Ei llaw agora, yn llon,
 I huliaw bwrdd dynolion.

O'r ffridd, pentyra y ffrwyth,
 Ac o'r berllan gyr burllwyth,
 O'r gerddi, a'r llwyni llon,
 Gyra ei llwythog aeron,
 O'r ddôl werdd, y rhodda lân
 Doraeth ar y ford eirian,
 O'r mynydd, y rhydd ei rhan
 Oludog, i'r ford lydan,
 O'r ffynnon ddŵr, gloew-ddŵr glân,
 Yra i'r llestri arian,
 Ac o'r afon, gyr hefyd,
 A'i gèn braith, èog yn bryd.

Yr adar, o'r awyr odiaeth,—ogylch,
 Ddyga yn goginiaeth ;
 Ar eiliad, y môr helaeth,—trwy 'i donau,
 Hyd i'r glanau, rwyda Rhagluniaeth !

Ethola, piga, y pysg,
 Diboen y dalia dewbysg ;
 A rhodia i'w rhoi wedyn,
 Yn dêg ar ford wên y dyn.

Bord dromlwyth o bob ffrwythau—ydyw hi,
 Bord hoff ei phersawrau,
 Bord rhoi'r blaenion, rhoddion rhydd,
 Y gwledydd i'w dysglaediau.

O'r bordiau gorau i gyd,
 Dirfawr fordiau daiarfyd,
 Y ford hardda, mwya 'i maeth,
 Yw huliawg ford dynoliaeth !

Rhagluniaeth, yn ffyddlon faetha—y llesg,
 Hwn â'i llaw gynnalïa ;
 Melusion fendithion da,
 I'r eiddil o hyd rodïa.

Sych ddeigryn y bebyn bach,
 Byw dlŵs, na bu ei dllysach,
 A'i dwylaw gu deil y gwan,
 A gesyd iddo gusan ;
 Mwyn ymwel a'r isel rai,
 El atynt, i'w tylottai,
 Wedi hyn, daw'r bwthyn bach,
 A'i riniog yn dirionach,—
 O dan ei llaw, daw yn llen
 Balas, heb ddim helbulon !

Estyn ei llaw, yn wastad,—i'r weddw,
 Or-bruddaidd ei theimlad ;
 Dyry gedion, mwynion mâd,
 I ddoï loes amddifad.

Hi rodïa win, peraidï iach,
 Ar wefus y rhai afiach,

Ac eilwaith, daw'r digalon,
 Yn ei llaw i wenu'n llon,
 Deua hwn, wedi anach,
 Yn y bŵth yn frenin bach.

Yr anwyl hawddgar henwr,—a felus
 Fola am ei swcwr ;
 Ac anwyla 'i Gynnaliwr,
 A'i ruddiau 'n ddafnau o ddŵ'r.

Yn yr hwyr, gyda ei wyrion,—allan
 Y gollwng ei galon,
 Tery yr henwr tirion,
 Yn y tŷ y ganiad hon :

“Cefais gan fy Nuw cufad,
 Fagwraeth Rhagluniaeth lân,
 Cefais gan fy Nuw cyfiawn,
 Nawddogaeth Rhagluniaeth lawn.

Drwy bob duloes,
 O dreigl einioes,
 Duw Rhagluniaeth,
 Gês yn mhobman,
 Yn wych darian
 Iechidwriaeth.

Mwyn Ragluniaeth,
 A'i llaw odiaeth,
 A'm dilladodd ;
 A'i hymeuthyn,
 Mwya dillyn,
 Hi 'm diwallodd !

Rhoddodd beth gwell na rhyddaur,
 Na Pheriw, neu Offir aur,
 Rhoddodd wydrau, gorau gêd,
 I wael olwg ail weled ;
 Gwydrau glân, i druan ar drangc—bywyd,
 Y rhai'n wna hefyd yr hên yn ifangc !

Pan oedd fy natur ar guriaw :—fy nŵyf,
 A'i nerth yn diffygiaw,
 Rhoddodd ffon, yn llon i'm llaw,
 Y dwthwn methais deithiaw.

Hi biau holl bethau byd,
 Dirfawr gyfoeth daiarfyd ;
 Goludoedd y main gloewdeg,
 Y Rhyddfaen, a'r Tynfaen têt ;
 Onix, Sardonix, a dur,
 Lliwiau hygain, pob llugur ;
 Aur Offir, Saphir, a'i swyn,
 A'r hudol werthfawr Adwyn ;
 Hi garia ffyrf agoriad,
 Cloiau mwngloddiau pob gwlad ;
 Sèliau, allweddau pob llys,
 A grogwyd wrth ei gwregys !

Ond er ei mawr gyflawnderau :—ei gwên,
 A gwaith ei holl ffafrau ;
 Er nerth ei mawrion wyrthiau,—grym ni ddyd
 Im i ddiengyd rhag 'stormydd angau.

Am pwys ar ei ffon, gron grêf,
 I ben y daith, buan dôf,
 Wedi cryfder tyner tŵf,
 I bridd oer, yn ebrwydd âf.

Pan rhoi'r fy nghorph i orphwys,
 O adfyd y byd a'i bwys ;
 Ar waelod bedd, mewn heddwch,
 Yn ei llaw cadwed fy llwch."

Ei eiriau wrandawa 'i wyrion,—astud,
 Mewn distaw fyfyrion ;
 O gywir fryd, ger ei fron,
 Hwy synant yn eu swynion.

Am Ragluniaeth,
 Gu wawr odiaeth,
 Ei Gwardwr,

Clywn, trwy ddagrau,
Yma eiriau
Gwraig y morwr :

“O! Dduw fy Ner, Dduw fy nhad,
Gu Iôr, wyt lawn o gariad,—
Yn y don mor hynod wyt,
Ofnadwy'n y dwfn ydwyt;
Y mae'r môr yn murmuraw
Ei lif ar gledr dy law!
Cofiaf y munyd cyfing,
A mawr wae y môr a'i ing;
Pan gwgai, godai y gwynt,
Ymwriai timestl mawrwynt,
A'm gŵr, yn y certh ddw'r cau,
Yn ingoedd dryghin angau.

Ond mewn pryd, i'r trymlyd draeth,—a chreigiau
Ei rüog lanau, deuai Rhagluniaeth!

Iôr da, rheolwr y don,
Fy Ngheli, Duw fy nghalon;
I'w gell wahoddodd y gwynt
A gair, distawodd gorwynt;
A'm gŵr, uwch dyfndwr y don
A ddygodd o fedd eigion!

Rhoddi teyrnged,
Yw fy nyled,
Am ei wared
O safn moryn;
I'r Goruchaf
Mawl ddadganaf,
Wirfwyn eiliaf
Ar fy nhelyn.

A daliaf fy mawl dilyth
I chwyddaw, heb beidiau byth;
Canys hedd heb ddiwedd ddaeth—i'm preswyl
Drwy gu law anwyl Duw a'i Ragluniaeth.”

Ond weithian gofyn doethawr,
 Athronydd, ymenydd mawr,
 Pa'm trefna, rhodda yr Iôn
 Wahaniaeth rhwng plant dynion ?

Dyweda yr hynod adyn—nad teg
 Fod du niwl a dychryn
 Ar fŵth duwiol, ddwyfol ddyn,
 Ac haul ar lys y gelyn !

Rhoi gwisg emog
 I'r gorddiog,
 Wyneb heulog,
 Yn y palas ;
 Rhoi cynysgaeth,
 Pob amrywiaeth,
 Aur a'i doraeth,
 I rai diras !

A'r bobl lafuriawg, od lwydawg dlodion,
 Mewn dygn galedi, yn ddifri ddwyfron ;
 Yn troi dan aethau, a'u traed yn noethion,
 A gerwin ofid, a'u deigr yn afon ;
 Yn ysig druenusion,—dan benyd
 Troiau celyd, yn tori eu calon.

Gadael y brwnt, halogedig—adyn,
 Yn ei nwydau ffyrnig ;
 Yr annuwiol, damniol, dig,
 I rodio'i ffyrdd llygredig.

Tori blodyn
 Mewn munydyn,
 O wyrdd ddyffryn,
 Hardd ei effros ;
 Gadael draenen
 Ac ysgallen,
 A mieren
 Lem i aros !

Gorysu gwridawg rosyn,
 Tlysineb y gwyneb gwyn ;

Gwywo tlysaf, lonaf langc,
 Y tyfol, ddoeth sant ifange ;
 Cau y llygaid gaid o gu
 Enaid yn byw dywynu !
 A dwyn herlodes dyner,
 Wyl ei serch, o eiliw sér ;
 Rhoi anwyl emau rhinwedd,—
 Golud byd mewn gwaelod bedd !

Sut gadewir i Satan—a'i halog
 Angylion droi allan,
 Euog lu, i wawdio glân
 Enw Jehofa'i hunan ?

Taw gnawd ! o flaen dy Greawdwr,—ystyr,
 Ac ymostwng gablwr ;
 Gwylia di, derfysglyd wr,
 A ferni waith dy Farnwr !

Ein Duw wyr sut i wneyd orau—a dyn,
 Doeth iawn yw ei farnau ;
 Ei helaeth Ragluniaethau
 Oll y sydd er ein lleshau.

I'r saint crynedig daw gwardigaeth,
 A mawr elw o safn marwolaeth ;
 Ond tân dig barnedigaeth—yn drochion
 Ar y gelynion wlawia Rhagluniaeth.

Duw sy'n rhoddi,
 O'i fawrhydi
 Amryw deithi
 Mor odiaethol ;
 Gwahaniaethau
 Ro'es rhwng graddau,
 Ac anianau
 Yn gynwynol.

Un dröa, rodia yr âr,
 A'i duedd i drin daiar ;
 Ac un lwybra, ddawnsia ddŵ'r
 Y wendon, yn farsiandwr ;

Arfaethwyd, doniwyd y dyn
 I ymyraeth a moryn.
 Ar anterth ei fawr hyntoedd—i'r crwnfyd,
 Y glew ei fawryd ddadglöa foroedd.

Ambell wŕ, yn farnwr fyn,
 A mawr rwysg ymaresgyn ;
 Arall dröa, rodia'n rhydd,
 Yn ngalwad efenglydd ;
 Pawb yn chwyrn, pawb yn ei chwaeth,
 Yn taro deddf naturiaeth.

Rhagluniaeth ddirgel weina—yn ei lle,
 A llwybr pawb hyfforddia ;
 Ei dôr o'u blaen agora,
 Hyd y nef ei lledu wna.

Y Seronydd craffus arweinia,—hwn
 Ar ei hynt warchoda ;
 Ar ei dŵr, i'r doethwr da,
 Eang asur ddangosa.

Tycho ddyrchai trwy y tawchoedd—dywyll
 Amdoent y nefoedd ;
 Ac eilchwyl gwawriai cylchoedd—diwyrni,
 A heb rifedi drwy'r wybr fydoedd.

O'r Eidal galwai i rodio—y nef,
 Ein hoff Galileo ;
 Y serenawg, frithawg fro,
 Daniodd ei ysbryd yno.

Tywysai yr ëon Newton, yntau,
 I gymydoedd y dirfawr gomedau ;
 Breiniol iaith yr wybrenau—ddarllenodd,
 Llaw Duw welodd yn y tanllyd heuliau !

Sereiph nefol
 Yn wastadol
 Mewn astudiaeth ;
 Teimlent gartref
 Yn wybr gloewnef,
 Feib Rhagluniaeth.

Gyra ei chûdd agoriad
 I'r mwyn ddaiaregwr mâd ;
 Y gŵr hwn agora od
 Ddrysau y ddaiar isod.

Egyr gloiau dyfnaf greigleoedd,—rhydd
 Wawr haul drwy eu celloedd ;
 A'r gŵr ddadguddia ar goedd
 Neuaddau y mynyddoedd.

Huw Miller, drwy'r dyfnder du,
 Orhoffodd ddistaw graffu ;
 Profodd, astudiodd yn deg
 Ei Dduw Ior, trwy ddaiareg.

Dwfn gloddiai, curai bob cwar,—i edrych
 Am oedran y ddaiar ;
 Yn y dwfn gwrandawai ar
 Gryg lefau y graig lafar !

Holltodd, dirdynodd bob darn
 O geudod y graig gadarn,
 Er cael ymafael yn mân
 Linytau calon anian !

O'r nôs egluro wnaeth—ar greig haenau
 Fyw lythyrenau nefawl athroniaeth ;
 Hyd eigion creadigaeth—gwnai lwybro,
 A gwelai yno law Duw Rhagluniaeth !

Onid yw yr eang amrywiaeth—hwn,
 Yn ei holl gyssylltiaeth,
 Yn ddarlun o Ragluniaeth—fawreddus
 Iôn a'i ryglyddus ben-arglwyddiaeth ?

Hi gwyd berlau, gemau gwych
 I'r llys o ddyfnder y llwch ;
 O draw tywynna eu drych
 Yn fflam o ogoniant fflwch !

Joseph, o'r bru, a ddewisodd,—a hwn
 Yn hardd iawn a wisgodd ;
 I'w hoff waith, ei Hioseph ŵyl,
 Yn anwyl a eneiiodd.

Efe a wybu, o'i febyd,—am ei gwaith,
 Ac am ei gwên hyfryd ;
 A chafodd, o'i serch hefyd,
 Law grâs i siglo ei gryd.

I'w gryd bychan,
 Yn ddi-yngan,
 Rhoddai angel,
 A'i law dirion,
 Ei wobrwyon
 I fab Rahel.

Hyd ei lwybrau
 Planodd lwynau
 O iawn flodau
 Nefoledig ;
 Peraroglent,
 Iddo plygent,
 Ac hwy wrident
 Yn garedig.

A'i noeth law, Rhagluniaeth lon,
 I Joseph weinaï'n gyson ;
 Hi a'i gwyliai'n fugeilydd,
 Ar y ddol, fore ei ddydd ;
 Hi harddodd, rŵyd-wëodd wych
 Frethyn ei siaced frithwych.

Pan regai, gwylltiai y gwyr,
 Ei fradog, waedlyd frodyr ;
 Pan hogent, y gloewent gledd
 I wanu eu brawd mwynwedd ;
 Pan dyngent, geisient ei gau
 Hyd ingoedd pydew angau :—

I'w wared, Rhagluniaeth eirian—nesodd,
 A Joseph, yn fuan,
 A lwyr ddyrchafodd i'r lan
 O eithaf pydew Dothan.

Yma denodd y Midianiaid
 Oll o'i ogylch, â threm ei llygaid ;
 Dyrchai ael yr Ismaeliaid—wrth wel'd fflwch
 Fyw iawn degwch Joseph fendigaid.

Gwridog yn ei ddeigr ydoedd,
 Gwawr nef yn ei ddeigron oedd !

Gyda'r camel, gwel ei gam,
 Sŵn ei droed y sy' yn drwm ;
 Gwylia'i dro, a gwel ei drem,
 Ai i'w daith heb yngan dim.

Ar ei hynt yn ddistaw'r aeth,
 Rhodiai, ymddygai yn ddoeth ;
 I lys cain, distain y daeth,
 O'i wyn fwrdd, derbynai foeth.

Ond pan ddyrchai,
 Ac y gwenai
 Mewn gogoniant,
 Yn y palas
 Loew wawl addas,
 Haul ei lwyddiant ;

Deuai'r Iarles,
 Yn ei rhodres
 A'i mawrhydri,
 I'w gael ymaith
 Drwy ei gweniaeth
 I'w drygioni !

Joseph welai ei themtasiwn,—a llun
 Ei llaw mewn defosiwn,
 Yn y ty, y munyd hwn,
 Yn llunio picell Annwn.

Gwyliodd frwd siffrwd ei safn,
 Yn y ddu demtasiwn ddefn,
 Gwyliodd ddagrol liwiol lafn,
 Hudol lith ei thafod lefn.

Y Iarles, a'i gwên haerllyd,
 A phres yn gloewi ei phryd,
 Drwy ei swyn dröai ei saeth
 I'w drywanu, drwy weniaeth !
 A Joseph, seraph grasol,
 Trwy nerth a'i tröai yn ol ;
 A throi hon â thrueni
 Yn sarph yn ei mynwes hi.

Joseph, er ei holl ddyfeisiaeth,—yn llon
 Er llid ei bradwriaeth,
 Wr glân, yn llaw Rhagluniaeth,
 Yn ei rym i fyny'r aeth.

I'w gadw'n fendigedig
 Rhag cledd y gynddaredd ddig,
 Yn y llys rhyw asgell oedd,
 Aden Rhagluniaeth ydoedd !

Ac er ei chwerwol garcharu,—a'i roi
 Yn rhwym mewn afagddu,
 Yn y fan Rhagluniaeth fu—mewn purdeb
 Ar ei wyneb yn dwyfol serenu.

Breuddwydion a esboniai,—a'u hystyr
 Yn wastad ddeonglai ;
 Eu cyfriniaeth a draethai,
 Yn ei bwyll, heb yr un bai.

A dd'weda coegaidd awdwyr,
 Y maentimiol, wyrol wyr,
 Mai rhithion a ffugion ffol
 Ydyw pob peth breuddwydiol ?

Onid gwirfyw
 Ddysg ddigyfryw,
 Ebrwydd ydyw
 Dysg breuddwydiaeth ?
 Pwy all brofi
 Nad yw'n rhoddi
 Argoel i ni
 O Ragluniaeth ?

I hoff euraidd lys Pharo,
Dda deyrn, y gwahoddwyd o.

Addurn fu i gynteddoedd—ei balas,
Dan belydr y nefoedd ;
Llywiawdwr y lle ydoedd,
Ac ar bawb rhyw gerub oedd !

Yn bur anwyl y tynai y brenin
Yno i Joseph ei fodrwy iesin ;
Ar delaid aur dilin—Joseph blygodd,
A'i Iôr' addolodd oddiar ei ddeulin.

Ganwyd y dwyfol fachgenyn—i'w roi
Yn llys yr Aipht, erbyn
Achraeth a dwfn ddychryn,—amser tanbaid,
Blin ddu niwaid blynyddau y newyn.

I'w frodyr, er eu holl fradau—y rhoes
O'i råd drugareddau ;
Eu cwyn ni allodd nacau,
Joseph ddiwallai'u heisiau.

Hoff ytyw cofio ffetan,
Wycha glwm y sachau glân :
A hoffus gofio Epha
Euraid, dwys, y mesur dâ.

I'w anwyl hen dad penwyn—ef huliai
Ei felus ymhaethyn ;
Wrth fwrdd ei lys, geinlys gwyn,—Israel ddaeth
Wedi ei alaeth, i ganu'i delyn.

Rhagluniaeth beraroglai'i anedd—lân,
Hon lenwai â thlysedd ;
Ei loew faingc, hyd ael ei fedd,—noddai,
Fywiol eirianai, o ddwyfol rinwedd.

Cadd Israel, hyd ei gladdu,
Y Nef wèn yn Gosen gu !

Fwyn Rhagluniaeth!—
 Ei rhagoriaeth
 Yw trugaredd;
 Môr diddarfod
 A diwaelod
 Yw ei haeledd!

Hi roes y glwys ddeuros glân
 I fochau Moses fychan.

O Nilus y baban alwodd,—a hwn
 I'w mynwes a wasgodd;
 Cusanau i'w ruddiau rôdd,
 Yn ei wyneb mwynwenodd.

A'i llaw wèn, lliwiau y wisg
 Den, roed am ei dyner wasg;
 A suai, gwyliau ei gwsg
 Yn llon, yn y cawell hesg.

Yn eu lle, yn eigion llaid,
 Daliodd y crocodiliaid;
 Y rhai'n ni chaent, er crainio,
 Roi eu dant yn ei gryd o.

I areiliau'r Israeliaid,—a'u dwyn
 O dir y Pharoaid,
 Y gwr yn ddysgawdwr gaid
 O dalaeth crocodiliaid.

Hwn roed i lawn waredu,
 A'i law gain, holl Israel gu,
 O niwaid ffwrnau haiarn,
 A chloddiau corbyllau barn!

Galw hwn a wnai Rhagluniaeth,—o'r hesg,
 I'r Aipht, a'i llywodraeth;
 Yn dŵr o iechidwriaeth,
 Dan law Duw o Nil y daeth.

I'w ddwyllaw y tyfodd wialen—fyw,
 O fôn ei brenhinbren;
 A hon, dan farc Duw nef wèn,
 Wnai osod yn llaw Moesen.

Ei thŵf, o Ragluniaeth oedd,
 Newidiawl ei llun ydoedd ;
 Gwyrthiol, cyfriniol ei rhin,
 Ei dyall ni wnai dewin ;
 Un eiliad, yn ffon elai,
 Ond ar hyn yn neidr ai !
 Hyd y ffordd troi lygaid ffwrn,
 Llusgai, chwareuai'i llosgwrn.
 Neidiai, gwdenai yn dân,
 A suai trwy dir Söan ;
 Ar ei sedd Pharo a syn
 Welwai, wrth wel'd ei cholyn ;
 Nodau y drom farn ydoedd,
 Gwae Duw yn ei chysgod oedd !

Rhagluniaeth, a'i barnedigaethau,—roes
 Yr Aipht o dan waeau ;
 Tarawodd hon, torodd ei hiau;—ysodd,
 A llwyr suddodd ei herchyll orseddau.

Hi wnai y dêg golofn dân
 I nefawl ymgyhwfan ;
 Y donlliw golofn danllyd,
 Oedd a'i gwawr yn Dduw i gyd !
 Ar doriad dydd, gyfddydd gwyn,
 Lledai yn gwmwl llwydwyn ;
 Trwy y nôs, troai yn haul,
 Eurai yr wybren araul !
 Ar un tu, lliw soriant oedd,
 Angeu yr Aipht a'i llengoedd.
 Tu arall gwenau tirion
 O loew ddydd i luoedd Iôn ;
 Ofnadwy golofn ydoedd,
 Càn wawr y Secina oedd !

Ac o dan ei chysgod hi,—y nesai
 Moesen at y weilgi ;
 A'r wialen môr heli
 A holltodd, lleoedd y lli.

Crynai'r don, crynhoai'r dŵ'r,
 I'w bwyntiau yn ddau bentwr ;
 Crych neidiai, tynai pob ton
 I'r gwenyg furiau gwynion.

Wedyn y golofn symudai—yn deg,
 A'r dorf a'i dilynai ;
 Ag urddas, nefawl gerddai,
 Ar hyd y dyfnder yr âi.

Rhwng y gwenyg y rhengau ganent,
 Hyd fôr eigion eu Duw fawrygent ;
 Mewn syndod ymrodient,—rhwng tyrau tal
 Y muriau grisial, a'r môr groesent.

Pharo, dan wingo yn wyllt,
 A'i gawraidd lengau gorwyllt,
 Ddyrysiwyd, hyrddiwyd ar hynt,
 Fel careg i fol cerynt ;
 A'r moryn, wedi'r mawredd,
 Ruai y farn ar ei fedd !

Rhagluniaeth drwy y diffaethwch,—wedyn
 Rodiai mewn prydferthwch ;
 Ei llaw yn eigion y llwch,
 A welid mewn anialwch.

Er ei chlod, rhoes ddiod dda
 O amheraidd ddwfr Mara ;
 O fywiol fwrdd nefawl fyd
 Mynai'i mana mewn munyd.

Trodd y graig, gallestraidd, gre',
 Yn ddŵ'r, pan y mynodd hi ;
 Adfywiodd, llonodd pob lle
 Pan darddodd, llyniodd ei lli.

Ac o'r afon cai'r yfwr
 Wenau Duw yn y dafn dŵ'r !

Afon rydd, un ddofn, a rhad,
 Da, a llawn, ei hyd a'i lled ;
 Afon heb ail—ni fu'n bod
 Afon o'i bath o fewn byd.

Onid oedd tonau ei dŵ'r,
Wrth darddu, tyrfu drwy'r tir,
Yn eilio byw alaw bêr,
Heb baid i Ragluniaeth bur?

Rhagluniaeth o hyd faethai—y genedl,
A'i gogoniant ddyrchai ;
Ei haden a'i gwarchodai
Yn ei rhwysg o'i blaen yr âi.

Dyrchafai ar Sinai'i sedd
Firain, o ddwyfol fawredd ;
Y donlliw seddfa danllyd
A'i gwedd yn ddychryn i gyd.

Ar daenol, fyw, awyr donau,—yn mhell
Yn mysg y cymylau,
Gwelid, drwy ddrych golau,—mewn dwyfoldeb,
Hyd ben Horeb, gysgod ei banerau !

Hyd wybyr, myned heibio—yr ydoedd.
Ar adeg y cyffro ;
A'i golwg oedd yn gwylio—y mynydd,
Lliwiau'i hadenydd oedd y mell t yno !

Ac o seddau Nef y Nefoedd—yn un,
I wneud ei harfaethoedd ;
Uwch ben, drwy yr wybrenoedd,—ar eu hynt
Cerubiau hedynt hyd feingciau'r bydoedd !

Didor luoedd y Duwdod,
Dyrfau ar dyrfau yn d'od.

Y llengau eirian, yn dân dywynent
Heibio i'r ser, fel mell t ymbrysurent ;
Yr heuliau crwydrol, byw ysol, basient,
I wybrou daiar obry y deuent ;
Ac i enw Duw canent—yn gan mintai,
Hyd goryn Sinai eu hudgyrn seinient !

Tymestl yn wybr Teman,—a welid,
Cymylai ael anian ;
Y Perydd oedd o Paran
Yn d'od mewn cerbyd o dân.

Joseph Drasler

Lliwiau o dân fflamlyd oedd
Yn haenau hyd y nenoedd ;
Drwy wir lid âi'r awyr las,
Am Horeb, yn fflam eirias.

Taranau barn ! terwyn byllt,
Cymylau'n grog, ddarniog ddellt ;
Gorddu nen wybren yn wyllt,
Gan dywydd mynydd y mellt !

Dirgrynai Sinai i'w sail,
Ysgydwai fel llosg adail ;
Cnôai, gruddfanai'i fynwes,
A'i graidd doddai yn y gwres ;
Ofnadwy y fan ydoedd :
Yma Duw yn symud oedd !

Dyrchai mwg yn dorchau mawr,
Tywyllai, synai y ser !
Yr haul, lesg wyrai i lawr,
Duo wnaï'n ngwyddfod ei Ner !

Ofnadwy iawn funyd oedd,
Adeg Rhagluniaeth ydoedd,
Ar faingc bûr, i eglurhau
Bwriad y Cyngor Borau.

Moesen yma a wysid,
Yn ei llaw, hyd lwybr y llid,
I wyneb gorsedd wenwawr
Dofydd, ar y mynydd mawr.

Aeth hwn i'w ryfedd daith yn arafol,
I wydd Jehofa, yn ei llaw ddwyfol ;
Ac yn fuan, ei chwmwl cnufaïol
Gauodd o'i ogylech, mewn wybr gaddugol,
A chur enaid dychrydol,—ymblygai,
Eto nesai tua y TAN YSOL !

Ac ar fain, Duw ysgrifenodd—ei ddeddf,
Hon yn ddoeth gyhoeddodd ;
Rhaith ei fawr gyfraith o'i fodd,—dan seliau,
A tharanau yno lythyrenodd !

Ond eilwaith, deuai haulwen—i Horeb,
 Ac oerai pob mellten ;
 Ebrwydd dysgleiriai wybren,
 Daeth Sina yn Wynfa wèn !

Yn eu grym, ar Sina grôg,—yn dra llon,
 Wedi'r llid tymhestlog ;
 O newydd, i ddyn euog—dan ofnau,
 Torai y geiriau :—“ Y Duw Trugarog.”

Lle y torai mellt eirias
 Yn eu grym, tywynai grâs ;
 O'r tir y rhuai taran,
 Yno y ceid testyn cân.

Rhagluniaeth wasanaethodd—y genedl,
 A'i gwyneb siriolodd ;
 Drwy ei hachos edrychodd—yn ddyfal,
 A hyd yr anial ei thraed arweiniodd.

Yn y dydd erchyll, pan daeth
 O affwys, y tir diffaeth,
 Seirph cochion, llymion o'r llwch,
 Yn olog trwy anialwch,—

Hi wnai y brid, loew Sarff Bres,
 Rhag gwenwyn eu colyn câs,
 Yn wyrthiol, mewn dyddfol dês,
 Yn ei gwrid tywynai Grâs !

Y Iorddonen, werdd waneg,
 Yn y dwfn, pan lifai'n dæg,
 Betrusai, ymsafai'n syn,
 Arswydai, cyffroes wedyn ;
 Ciliai yn ol, ceulo wnaeth—gwyllt ferw
 Ei rhuog lanw, yn ngwydd Rhagluniaeth.

Llyfai òd dafod y don
 Ryfedd, wely yr afon ;
 Sychai waelod tywod hon
 I'r enwog bererinion.

Wedi pob cyfnewidiant :—wedi cri,
 Wedi croes a soriant,
 Yn llaw Rhagluniaeth daethant—yn dorf lân
 Hyd y gu Ganaan, gwlad y gogoniant.

Os gwada ffug ddysgawdur
 Waith heb ail Rhagluniaeth bur,
 Ar goedd, i'r amheuwyr gau,
 Ogyrch llefara'r creigiau ;
 Crigella y creig allan,—cyd-dystiant
 A dolysteiniant hyd luest anian !

Ararat rydd arwyrain,
 Tora, adseinia ei sain ;
 Ac arwyrain gain o'i gôl,
 Am ei hactau rydd Mictol.

Tania Pihairoth, y tonau purion,
 Trwy y ceuneint tora eu hacenion ;
 Y gwauedig ergydion,—soniarus,
 A byw lais hoffus, daena Balsephon.

Y Môr Côch furmur eu câu,
 A'r awyr a'i horöian ;
 A'r nerthol, berseiniol sain,
 A dora gwynt y dwyrain !

Dodi caniadau didor,—yn swynol,
 Wna Sinai a Peor ;
 Accenau teg caniad Hor,
 Ateba caniad Tabor.

Abarim adsain beraidd
 Donau ei greigiau o'r gwraidd,—
 Mawl pob bryn, a glyn, yn glir,
 Hyd i Nebo adnabir,—
 Hosana o Bisga'n bêr,
 Daena yr awel dyner,—
 Dyrcha, lledaena y dôn,
 O Garmel i graig Hermon,—

A mynydd Olewydd lân
 Dery y molawd eirias ;
 Moria, Calfaria, fyn
 Rymus chwyddo yr emyn ;
 Uchel Ragluniaeth Celi,
 A fawrhaed ar Galfari !

Profi ei nherth wna y pryfyn,—a hwn
 Ddychryna bob gelyn ;
 Cyd gryna, a delwa pob dyn,—anfad,
 Ar ysgydwad, a rhwysg ei edyn !

Yr öofn Hethiad ofna
 Ei rym, ac ymaith yr â ;
 Philistiad, Amoriad mawr,
 Darfa, mewn dychryn dirfawr !
 A'r hyfaf, anwar Hefiad,
 A lwyr ddinystria o'r wlad !

Cewri Anac, ar unwaith,—o'i olwg,
 Chwala yn un anrhaith ;
 Ysa, gwasgara eu gwaith,
 Yn fwlwg i'r nef eilwaith !

O'u cestyll, ei Locustiaid,—a huda,
 Codant ar ei hamnaid ;
 Ant yn dduon, hyfion haid,—cyd-chwyrnant,
 A hwy grainiant wersyll y gwroniaid !

Siglant, enhuddant y nen—
 Gwelwant y fflamiog haulwen !
 Holltant, naddant fynyddoedd,—a'u lliwiau
 Yw delw angau ! ofnadwy lengoedd !

Arafu, i wel'd gwyrth y pryfyn,—bâch,
 Bydd y Seraph claerwyn ;
 Uwch gweithred ei gwibedyn,
 Y saif y Cerub yn syn !

Ar lwybrau ei gwyrthiau gwych,
 I gyraedd ei Nôd gorwych,—
 Er eu mawr lid, newid wnaeth
 Y llewod fel wyn llywaeth !

Daniel broffwyd a wenodd,—yn eu ffâu,
 Ac o'u ffyrdd ni chiliodd ;
 Eu safnau erch nis ofnodd,
 Ei drem fel angel a drodd !

Hyfrydol, araf, rodiai,
 A rhwng y llewod yr âi ;
 O'u heistedd hwythau'n ddistaw,
 Gusanent, lyfent ei law !
 Hyd y ffâu, y llewod ffel
 A adwaenent Dduw Daniel !

Hi reola nŵyd greulon—y morfil,
 Yn mherfedd yr eigion ;
 Ac hwn, mewn tonau gwynion,
 Yn ei llaw chwareua'n llon.

Neidia, ymdafla i'r dwfn,
 A mileinia'n mol anwfn,—
 Pesycha, tisia y tân,
 Yn ei lid, o'i ffroen lydan !

Chwyda y cadr reiadrau,—trochionawg,
 A'u gwreichion berwawg, yn grychion beiriau !
 I'r sêr, bwrw'r dyfnderau,—mewn cythrudd-deb,
 A thry o'i wyneb fellt a tharanau !

Ciliwn ! y mae cleddyfau celyd,—barn,
 Yn ei ben dychrynlyd ;
 Mae cartref angau hefyd
 O fewn ei gôch safn i gyd !

Er hyn, Rhagluniaeth arweinia,—y Dreng,
 Hwn drydd fel y myna ;
 Yn chwydd yr eigion ni châ
 Ei ddannedd gyffwrdd Iona !

Rhagluniaeth Ner, wâdd aderyn,—anwar,
 I weini i'w blentyn ;
 Hwn i'w swydd, eheda'n syn,
 A chwimwth i'w gorchymyn.

Yn ogof Cerith greigiog,—gloew anedd
 Rhagluniaeth drugarog ;
 Yno Elias enwog,—gafodd faeth,
 O groesaw helaeth, wrth ddwfr grisialog !

Câdd radlawn, feluslawn wledd,
 Gywrain o law trugaredd,—
 A dwyfol brydiau hefyd,
 O werth gâdd, yn wyrth i gyd.

Ac o bell, tros y creigiau bàn,—yno
 Hedfanodd dwy gigfran,—
 Hyd nwyfre, dan hofran,—doent i'w loni,
 Ac i'w weini, rhwng creigiau anian.

Deuent ar eu hesgyll duon,—heb oed,
 A bwydydd melusion ;
 Yn y lle, taenent yn llon,
 I Elias arlwyon.

Brain Duw, a bara yn dôd,
 Bore a hwyr yn barod ;
 A diboen, ar eu dwybig,
 Dyludent, carient y cig.

Yn odfa ei flin adfyd,—o ganol
 Dwfn gyni ei ysbryd ;
 Yno am lawer enyd,
 Hefo'r brain câdd ddifyr bryd.

Yno heb rith, ofn, na braw,
 Hwy ddelynt ar ei ddwylaw ;
 Ac ar ei wynfys cywrain,
 Yn brid, chwareuai y brain.

Hedent, ar ei amneidion,—o'i ogylch,
 I bigaw y briwsion ;
 Hefo'u tamaid, llymaid llon
 Yfent o ddŵ'r yr afon !

Brain heirdd, a brain o urddas :—rhai doffion,
 A bron loewon, oedd brain Elias ;
 Rhai gorwych, a thrugarog :—y rhai'n oedd
 Yn frenhinoedd ar yr holl frain enwog.
 Brain parod eu darbodaeth :—llawn haeledd,
 Brain rhywiog lonwedd, oedd brain Rhagluniaeth!

Elias chwyddai alawon,—anwyl,
 Am Ragluniaeth ffyddlon ;
 Ar fin y ddŵ'r, ei fwyn dôn,
 A wrandawai'r brain duon.

Eistedd gerllaw y lasdon,—a garai,
 Fel rhyw Gerub tirion ;
 A mewn hedd, mwynhai ei Iôn,
 A'i Nefoedd ar lan afon!

Ond ar ôl mwynder o Hâ,
 Siomwyd Elias yma !
 Y sychdod, a'i dafod dân,
 A hollol leipiai allan
 Yr afon na chai'r yfwr,
 Wedi hyn, ddefnyn o ddŵ'r!

Ond rhag barn, Duw wenai arno :—manwl
 Orchymynawdd iddo,
 Gyda y wawr, godi o
 Y grinwyllt fangre hono.

Ei angel, a'i hebryngodd,
 Trist i Serepta y trodd.

Gwel yno ddeheulaw Rhagluniaeth—Duw,
 Yn dôd a chynnaliaeth;
 O rwydd gêd, i'r rhai oedd gaeth,—yn delwi,
 Mewn mawr weli, yn min marwolaeth!

Bendith ddâ'n Serepta rôdd,
 Y wan weddw a noddodd,—
 Dogn o faeth, digon o fwyd,
 Ar hulodd ar ei haelwyd ;
 Peilliad, nid oedd yn pallu,
 O'i dwrn, yn y celwrn cu,—
 O ddwrn Iôr, i'w gwag ddwrn hi,
 Y deilliodd, heb ei dolli ;
 Od ganaid beilliad gwiwnef,—
 A llaw Duw, y peilliwyd ef !
 I'w hystên, yn iachus daeth
 Olew yn ffrydiau helaeth,—
 O newydd olewydden
 Ffrwythlona y Wynfa wen.
 Olew ôd, gwyrthiol ydoedd,
 A Duw yn ei darddiad oedd.
 O newydd, bob dydd y daeth,
 O gû lwyni Rhagluniaeth.

1000-1000 A. A. A. A.

Diwaelod gariad helaeth,—yno oedd,
 Nawdd Iôr y bydoedd, yn ei ddarbodaeth ;
 Drwy ddiystwr gadwraeth,—llaw yr Iôn,
 Droï gu olwynion, distaw Rhagluniaeth !

Yn ei threfn, Rhagluniaeth rât,
 A estyn ffafrau'n wastad ;
 Difwlch ddarbodau hefyd
 O'i llaw fawr, ddiwalla fydd !

Pan y gwga,
 Byd ymddua,
 A dirgryna,
 Drwy grai anian,—
 Ond pan wena,
 Byd siriola,
 A chwareua—
 Iach oroian !

Dyrch ardderchog, dylwythog dalaethiau,
 Rhai iawn eu sylwedd, ar gedym seiliau ;

Mewn mawredd, pur orseddau,—ymgryfhant,
Hwy wych eirianant, dan ei choronau !

Yn ei llaw, o hyd yn llon,
Y caria berlau coron,—
Tywyna, lledaena dydd
Eu gloewder, drwy y gwledydd.

Ei llaw gain wnai Brydain brîd,
Oll yn glŵs, a llawn o glod ;—
Ei hanwyl wên, wnai y wlad
Yn ben ar wledydd y byd.

Ynys Wen, folianus yw,
Eden y ddaiar ydyw !

Nid hylwm gleddyf dulas,—y cedyrn,
A'i ceidw mewn urddas—
Cadernid mainge y deyrnas
Yw grym Rhagluniaeth a Grâs.

Rhwysg y Deyrnas, a gryma deyrnasoedd,
A'i gwersi hefyd blyga orsafoedd ;
Ei mawr ddaioni, lywia y myrddiynoedd,
Drwy ei mawrwych äangdir a'i moroedd ;
Ei haeddawl Deyrn borthladdoedd,—ymgynal,
Oll o dan ofal llaw Duw y nefoedd !

Aur yn dewfrith serena ei dwyfron,
A mawr ogoniant, o amryw geinion ;
O fyw serch, enfys ei Hiôn,—a'i santaidd
E'm wych euraidd sydd am ei choron.
I'w gwylio rhag ei galon,—tanllyd gylch,
O hyd o'i hogylch, yw *Duw a digon* !

Rhoddi wnaeth Rhagluniaeth glyd,
Wynfa i'r Gorllewinfyd ;—
Goreurodd ei gwawr araul
I waelod tir machlud haul ;
Ei gwyh faneroedd yn gwau
Yrodd trwy'r wlad i chwarau !

Rhodes foreuwlith,
 Cuaf fendith
 I'r cyfandir,—
 Trwy'r Talaethiau,
 Ol ei doniau
 Hael adwaenir.

Arweiniai y Tadau Pererinol,
 O'u holl ofid, i'w hafan bellhafol;
 A chû y gwasgodd i'w chôl,—a'i llaw fâd,
 O dirion gariad, y dewrion gwrol.

Câdd y meibion,
 Pur eu calon,
 Ar y wendon
 Ei thirionder,—
 Hwy fendithiodd,
 Lwyr gysgododd,
 A hoff lywiodd
 Eu *May Flower!*

A ddaliodd y gwyllt ddylif,
 Y fath long ar ei faith lif?
 A welodd llygad haulwen,
 Yn yr wybr fath faner wên?
 Gafodd gwynt, gorwynt yn gwau,
 I'w awelon fath hwyliâu?
 Gafodd traethell, machell môr,
 O long, fath afael angor?
 A droswyd y fath drysawr,
 Yn myd y Gorllewin mawr?

I'r gwyr äang eu rhagoriaeth,—o gûr,
 Bu garw fordwyath,—
 Ond morient, dringent i draeth,
 Glanient yn llaw Rhagluniaeth!

Cyd-ganai y fintai fâd,
 Oddi fewn i'r newydd fyd,—
 A newydd dôn i Dduw Dâd,
 Oedd y gân drwyddi i gyd!

Dyrnaid wan, fechan a fu,
 Ac eigion arni'n gwgu,—
 Dyrnaid ar fôr, brochfor brâs,
 Ond dyrnaid i wneud Teyrnas !

Ar wych dir eu hiechidwriaeth,—unol
 Blanent eu llywodraeth,
 Ymddyrchu, cynnyddu wnaeth,—dan ffafrau,
 Ac hael wenau Duw a'i Ragluniaeth !

Ac heddyw, mae'r egwyddawr,
 Yn fyd o lywodraeth fawr !

Emynu tonau mwynion,—i'r Tadau,
 Wna y Talaethiau llawn eu tylwythion;
 Mewn swyn, trwy y clogwyni,—mawl ddyrchir,
 A'u hodlau genir hyd Aleghani;
 Ymsen am eu daioni—yn wastad,
 Tan ymsiarad, bydd tonau Missouri,—
 A chryfder, llawnder ei lli—rhoi melus
 Faws, a si hapus, wna'r Fississippi;—
 Eu hanes ymlodaena,—yn ei chwydd,
 Rhuo'u henwogrwydd bydd berw Niagara !
 Cenir tanllyd accenion,—i'w mawrilles,
 Tra tyrau'r Andes, tra twrw'r wendon !

Am Ragluniaeth y traethir,
 Yn gyson, ar don, ar dir;
 Pob cenedl ymchwedleua,
 Yn dêg, am ei throion dâ.

Rhagluniaeth oruwchlywodraetha—bawb,
 Try'r byd fel y myna;
 O'i hogylch, pob peth blyga,—yn hollol,
 I wneud dwyfol ordeiniad Jehofa.

Myn o deyrn, ormesdeyrn mawr,
 Ogoniant i'w sedd geinwawr,—
 Myn o ddyar cynddaredd
 Y sarph, ddyrchafiad i'w sedd,—
 Myn o aflan safn annuw,
 Y dû ddiafl, folawd i Dduw !

Ei dwrn ar ormesdeyrniaid—a ysgwyd,
 Gwasga y täogiaid ;
 Y tonog ben capteiniaid,
 O'r llys darawa i'r llaid.

Llosga'i mellten eu teyrnwialenau
 Ac ar unwaith fflamia eu coronau,—
 I ddifangcoll teifl eu gorseddfeingciau
 O'u cadernid, pan ceua ei dyrnau,—
 Ysa dreisiaid, giwaid gau,—ar amnaid,
 A thrwy eu henaid, rhua'i tharanau !

Cyrn yr holl unicorniaid,
 Ddadwreidda, luchia i laid ;
 Cyd-rwyma, tafla i'r tân
 Ysol, wrdd deirw Basan ;
 Er tyngu, gablu, o Gog,
 Ac ymwgu o Magog,—
 Pob Magog a Gog o'i gwydd,
 A dery i ddistawrwydd !

Rhyfel drwy y byd arafa,—a'i gŵn
 Gwaed a dorfynygla,—
 Ei gerbyd haiarn ddarnia,—a than farn,
 Hwnw yn wasarn wreichion a ysa !

Y cuchfawr gleddyf cochfin,
 A lliwiau'r fall ar ei fin !
 Hwn dora, dafla i dân,
 Hwtia o ddwylaw Satan !
 Y ffroen uchel fagnel fu .
 Trwy einioes yn taranu ;
 Hon hollta, ddarnia, ryw ddydd,
 Uffern ei cheudod ddiffydd !

Y march rhyfel dawela,—wedi bâr,
 Ei nŵyd boeth ymoera ;
 Hyd y ddôl werdd y cerddla,
 Hefo'r oen yn ddifyr â !

Rheoli y ddaiar helaeth,—yn llwyr,
 A fyn llaw Rhagluniaeth;
 A'r pyrth heyrn, cedyrn, caeth,
 Egyr i Gristionogaeth.

Tywyna fflam Protestaniaeth,—ar hyd
 Yr holl ddaiar helaeth;
 Ysa bob rhyw ormesiaeth:—gwna'n fflamiau,
 Hyd y pegynau, deiau Paganiaeth!

Tynir maingc Mahometaniaeth—y Twrc,
 I'r tân gan Ragluuiaeth;
 Andwyr seddau Hindwaeth,—ganddi,
 Mala, heb oedi, holl demlau Budiaeth!

Tân ddyluw trwy Eulundduwiaeth—a yrr,
 Tora ben Anghristiaeth;
 Ei haeddiant gaiff Pabyddiaeth:—hon siga,
 Ac hi a'i dyga i drangcedigaeth!

Daw a'r byd i gyd o'i gwr,
 O'i fawr ing at Gyfryngwr;
 Canu ei nabl barabl bêr,
 A fyn, o dan ei faner,—
 Ac ar unwaith, ceir anian,
 Yn chwyddaw, cyd-gordiaw'r gân.

Y gwyn oer Begwn eira — ddyrch y sain,
 Ac yn y Dwyrain, yr accen dora.
 Yn y dôn y Dê una,—ar gryf dant,
 Llawn o ogoniant, Gorllewin gana.
 Holl natur ymflagura:—daw'r anial,
 A daiar Belial, fel rhandir Biwla!

Ar binaclau
 Dwyfol demlau,
 Gloew wenau
 Rydd Rhagluniaeth;—

Ei banerau
 Rydd i chwarau
 Ar wych dyrau
 Iechidwriaeth !

A Satan, gyfrwys eto,--er ei fâr,
 A fyn i'w gadwyno ;
 Ei barn a dywallt arno,
 Wedi 'i rwysg, andwyr o.

Gwëa ei dèn gadwen gau,
 Hi luniodd ei dolenau,—
 Arllwysa, llifa ei llid,
 A'i melltith ar bob molldid,—
 A thery ef â'i tharan,
 Yn mhellach, dyfnach i dân !
 A'r barnol, adseiniol sŵn,
 A darenir drwy Annwn !
 Ar y diafl, Ysbryd aflan,
 Gwlawia Duw faglau o dân !

Hyd eigion damnedigaeth,—tynged hwn,
 Ar gloiau Annwn, selia Rhagluniaeth !

Hon yw y Drefn,—wnai UN yn DRI :—un ddoeth,
 Y mae yn Dduw trwyddi ;
 Rhy ddyfnion i'w cysoni
 Yn awr yw ei throion hi.

Ond tawelwn, cawn eto olau,—draw,
 Ar Drefn Duw a'i lwybrau ;
 Y Nef wèn ddifa y llenau,—llaesion,
 Oddiar ei feithion, ryfedd arfaethau !

A phan y llwyr orphener,
 Yn un, Ragluniaethau Nêr,—
 O! y fath foli a fydd
 Yn y lawn Wynfa lonydd !

Teulu Nêr! telynorion,—a lonwyd
 Gan Ragluniaeth ffyddlon,—
 Trwy'r Nefoedd, y llengoedd llon,
 Ganant ar seddau gwynion!

I'w hymyl, yr angylion,—a swynir,
 Synant mewn myfyrion,—
 Astudiant, gwrandawant dôn
 Yr anwyl bererinion!

Daethant, yn llu bendithiol,
 Heb yr un wyneb ar ôl,—
 Cawsant eu didrange gysur,
 O'u hadfyd, gwynfyd heb gur,—
 Tangnefeddol, bythol bau,
 Canaan, yn lle dryghinau!
 Gwiwnef, a'i holl ogoniant,
 Yn Nuw, dragwyddol fwynhant!

Ac yno'r Iesu, a gwên rasol,—saif,
 Yn ei swydd gyfryngol,—
 Yr Hwn ar ei sedd freiniol,—berffeithia,
 A araf weithia y Drefn arfaethol!

Hwn yw'r Oen! Hwn yw yr haul,
 Hwn erys byth yn araul,—
 Ac Hwn, ar ei fainge wenwawr,
 Yw'r Alpha 'r Omega mawr!

Iddo Ef, cydlefant,—o ddyfnderau
 Erddyganau moroedd o ogoniant!
 Byth swynol, fydd dwyfol dant,—alawau
 Ymwrdd ymylau moroedd y moliant!

Engyl, a saint, yn yngan,
 Eu newydd glod i Dduw glân,—
 O sedd i sedd, dyrcha sain
 Lafar, eu tanllyd lefain,—
 A'r ddihalog, bêr, ddolef,
 Byth chwaraeu, ar nenau'r Nef!

Gorphwysaw fy niwyd Awen,—ysig,
 A llaesa dy aden,—
 Daw eilfyd ! cei dy elfen,
 Awen fyth, yn y Nef wèn.

Yno cei ddwyfawl farddoniaeth,—a drych
 Ar drefn Duw, a'i arfaeth ;
 Cei ddëol cnawdoliaeth,—a chreu cathlau,
 Ar geulanaau moroedd RHAGLUNIAETH !

DIWYD.

JOSHUA.

CANIAD I.

CYNWYSIAD :—Cyfeiriad at fwriadau a rhagluniaeth Duw.
Lledgrybwylliad am Israel. Canaan. Gweithred ac arwr
y gerdd. Erfyniad am gymhorth.

TRWY dawch hinsoddau fil, gan hedeg dros
Gyfandir megys maes, a môr fel ffrwd ;
Ar draws canrifoedd megys oriau ; uwch
Carneddau llawer ymherodraeth fawr,
A beddrod llawer cenedl falch— yn ol,
Mor chwim a meddwl, dros anialwch dwfn
Hanesiaeth at fabandod amser, pan
Oedd gwrid gwryfol ar y ddaear, pryd
Yr adlewyrchai'r nef i ddyn y byd
Ysprydol yn eglurach ; ac y gwnai
Y ser lefaru mewn hyawdledd mud
Yn groewach am eu Crëwr—arwain fi,
Awenig. Syllu yno, gad i ni,
Mewn gwylder ar feddyliau dyfnaf Ior,
Fel ser yn tremio drwy gymylau tew,
Yn lled-ymiddangos mewn daearol ffurf ;
Amcanion dwyfol, drwy weithredoedd dyn,
Yn ymgawdoli ger ein bron ; a ffrwyth
Tragwyddol feddylgarwch—arfaeth Duw—
I lawr yn ddeiliad deddfau cyfyng lle
Ac amser yn ymostwng. Craffu gawn,
Mewn parch addolgar, ar Ragluniaeth Nef,
Yr hon, fel enfys gyda lliwiau, sy'n
Cyfuno holl brïodoliaethau Duw :
O dragwyddoldeb, megys enfys, byth
I dragwyddoldeb yn ymestyn sydd ;
Gan roddi amcan i ddamweinion dall,
I chwidr helyntion ystyr ddofn, a hardd
Unoliaeth i amrywiaeth amser oll.
Naturiaeth welwn, gan geryddu dyn,

Ger bron ei Hlawdwr yn ymgrymu'n wyl;
 A deddfau'r greadigaeth ar ei arch,
 Fel plant i dad, yn ufuddhau i gyd.
 Fel bu y ddaear unwaith, Eglwys Duw'n
 Feddylddrych dysglaer yn y dwyfol fryd
 A fu; a mwyaf o'i feddyliau oedd.
 Ac, fel y Mab Tragwyddol, hwn mewn cnawd
 Ymddangos wnaeth, mewn cenedl chwidr, lygredig,
 Drahaus, rwgnachlyd, ehud, a gwrthnysig.
 Y gwaith a'r cynllun, mor wahanol ynt!
 Y naill yn deg—mor deg a lleuad yw—
 Y llall, fel cwmwl llawn, yn brudd a hagr.
 Mawreddig yw'r portreïad fel y nef;
 Daearyl iawn a halog yw y deml.
 Dydd yw'r meddylddrych; tryblith nos y ffurf.
 O deulu, ac o ddyn, yn gystal oedd
 A marw'r genedl hon i amlra'r ser
 A gynyddasai. O'i hieuenctyd, Duw
 Ei hunan oedd ei hathraw. Amser maith,
 O amgylch-ogylch, ac yn ol a blaen,
 Drwy lwybrau cul, ac amgylchiadau uthr,
 Gan wisgo gwên a gwg yn ol y rhaid,
 Er peri iddi ddëall ei lleshad
 Ei hun, yn gystal a'i amcanion Ef,
 Arweiniai hi. Yn awr, llefarai drwy
 Daranau wrthi; drwy gysgodau syml
 Yn aml; drwy wyrthiau, weithiau, dros y byd
 Wasgarent ddychrynfeydd; er mwyn ei gwneud
 Yn gymhwys at ei huchel waith o ddal
 Ger bron dynolryw ei gymeriad Ef.
 Efe'n ddigyfrwng Frenin arni oedd;
 Hi ddygodd drwy beryglon fyrdd—drwy ddwfr
 A thân, caethiwed, newyn, galon blwng
 O ddynion ac o ddieifl—er gwaethaf pawb—
 Y byd ac uffern ddofn—i ben ei thaith.
 Oblegyd cenedl ei gyfamod oedd—
 Cnewullyn Eglwys ei ogoniant claer.
 Ar làn chwyddedig afon, cenedl Ior
 Un boreu safai'n flin a thlawd, heb wlad
 Na chartref dan yr haul—heb ddim ond Duw :

Ond digon ydyw Ef. Yn gysgod byw
 O genedl arall fwy—ysprydol bobl,
 Y rhai'n mhob oes a gwlad, wrth droi yn ol
 I edrych arni, gant i'w ffydd gryfhad
 Dros afon fwy i syllu, ac i wlad
 Ddyeithrach—aros yno wnai. Tu hwnt
 I'r llif, gorweddaï gardd y byd ; yn llawn
 O fywyd, gwenith, haidd, ac aeron per ;
 O fêl a llaeth, o win ac olew pur ;
 O fwnau prid ac anifeiliaid bras ;
 Coedwigoedd heirdd, ffynonau oerion iach ;
 Prydferthwch tyner, ac arddunedd byw,
 A gwlad yn gysgod o Baradwys Duw.
 Er hyny, gwlad yn llawn trigolion oedd,
 O arwyr grymus, creulawn megys eirth,
 O gawri beiddgar ac ysgeler, ail
 I ffrwyth anachaidd undeb unwaith fu
 Rhwng meibion Duw a merched dynion. Hwyl
 Yn fywyd sugnent gyda llaeth eu mam
 Gynddaredd ; lawned oedd eu bronau oll
 O ysprydoliaeth uffern ag yw'r nef
 O awyr ; Satan hefyd arnynt oedd
 Yn frenin byth. A gollant hwyl eu tir?—
 Eu gwaed, fel dwfr, yn gyntaf. Enill gwlad
 A bythol fri oddiar y glewion hyn,
 Yn awr, neu farw, raid i genedl Duw.

Y rhyfel hwn yw *gweithred* fawr fy ngherdd ;
 Dechreuad, canol, diwedd, fedd—dial
 Yn hanes daear, nac yn mwriad Nef.
 Ymladdfa farwol oedd rhwng dyn a dyn
 Am wlad ; am fod rhwng engyl clær a dieifl ;
 Am fywyd rhwng daioni oedd a drwg ;
 Rhwng Ior a Satan am lywodraeth oedd.

Mewn creadigaeth, Duw digyfrwng oedd
 Y Gweithiwr : wrth orchymyn haul a ser
 I fod, ni chlywai neb ei lais ; uwchben
 Diddymdra sefyll wnai ei Hun, yr hwn
 Yn fydoedd droai ar ei amnaid gref ;
 Ond drwy yr amnaid hono, gweddi dyn,
 Na cherub nid atebai. Mewn Rhagluniaeth,

Fel dynolryw drwy wefr, i ben ei arfaeth
 Drwy offerynau fyrdd, o angel Nef
 At bryfyn daear, ddwg. Yn fywyd traidd .
 Y gwynt ; aeddfedu cynyrch anian wna
 Y gwlaw a'r huan erddo byth ; a dyn,
 Fel cwmwl yrir gan y môr at fyd
 Sychedig, drosto at ddynoliaeth fydd
 Yn genad. I ddwyn ei brif arfaethau i ben,
 O bryd i bryd, cyfodir dynion mawr—
 Anaciaid sanctaidd, apostolion gwir ;
 Arbenig grädigaeth fydd pob un ;
 At wendid cenedl, angen oes neu wlad,
 Mor addas ynt a haf i'r ddaear oer.
 I ddwyn yn awr dros afon ddofn ei bobl
 I wlad a chartref, darparasai Duw
 Dywysog wrth ei fodd ei Hun, a bodd
 Ei bobl ; erioed yn etholedig ddyn ;
 O'r groth yn gymhwysedig at ei waith ;
 Mor lawn o nerth, gwroldeb, cariad, ffydd,
 Amynedd, penderfyniad, oedd a than
 O wres. O dan ddigyfrwng addysg Ior,
 I syllu ar ei ryfeddodau myg,
 A darllen ei ragluniaeth ddofn, efe,
 Gan dreiddio drwy lifogydd gwyllt o lid,
 Caledi, perygl dwys, dreuliasai fwy
 Na hanner einioes. Holl gynneddfau prid
 Ei natur weithian i aeddfedrwydd llawn
 Ymagorasant. Daethai'r mwn yn aur
 Coethedig. Arwr cyflawn oedd ; mor hawdd
 Ei anrhydeddu ag edmygu haul
 Yn codi. Huan heb ei frychau oedd ;
 Neu frychau, os yn bod o gwbl, rhy fân
 I lygaid meidrol allu'u gweled byth.
 Llwybr gwyn fel eira yw ei oes i ni ;
 Ei enw'r glanaf ysgrifenodd Duw ;
 A her i gythraul estyn ato fys.

I olrhain llafur a gorchestion claer, —————
 Cymeriad pur a ffydd yr Arwr hwn,
 Drwy oes o amgylchiadau uthr ; a throi
 Y bywyd yn ei enaid oedd yn gerdd—

Yn gerdd o foliant i dy enw myg ;—
 I adrodd hanes dy ddewisol bobl,
 Drwy auaf blwng o ymdrechfeydd a gwae,
 I haf o fuddugoliaeth ; gan egluro
 Dy ras rhyfeddol drostynt oedd yn gwyllo,
 O ! Arglwydd cymhorth fi. Y traethiad fo
 Ar dy lywodraeth byth yn gyfiawnhad,
 Ar dy ragluniaeth yn esponiad llawn,
 Ac i'th drugaredd yn erddygan mawl.
 Fy mryd yn oleu, ac yn bur fy chwaeth,
 A chref fy Awen, Sanctaidd Yspryd, gwna ;
 Fel gallwyf blethu gwirioneddau ter
 Yn nghyd a dychymygion coeth, er mwyn
 Boddhad ac addysg dynolryw. Fel cynt
 O flaen dy bobl, yn golofn danbaid cerdd
 Drwy faith anialwch weithian o fy mlaen.

CANIAD II.

CYNWYSIAD :—Rhosydd Moab. Moses a Joshua. Moses yn egluro cysylltiad blaenorol Joshua ag ef—ei erfyniad am olynnydd—pennodiad Duw o Joshua—ei waith—ei addysgiad—cynghorion olaf Moses iddo.

YN Rhosydd Moab weithian cenedl Ior
 Yn hir a orphwysasai. Mangre wyllt,
 Garegog, ddiffaeth, oeddynt hwy ; a lle
 Adawsai bywyd i farwolaeth. Ar
 Daironglog lanerch werdd a phrydferth, ail
 I ynys dawel mewn cynhyrfus fôr,
 Fel parth o Eden mewn diffaethwch llwm,
 Neu awr o heddwch mewn cythryblus fron,
 A wenai yn eu canol, Israel oedd
 Yn sefyll. Maith anialwch cras tu ol
 Orweddai, 'r hwn o edrych arno oedd
 Yn adgyfodiad i adgofion fyrdd :
 Fel afradloniaid achubedig hen
 Yn ol yn syllu ar ddeifiedig oes,
 Hwyt-hwy, â mynwes edifeiriol, lawn
 O ddiolchgarwch, arno drach eu cefn

Edrychent gyda llygaid llaith. Gerllaw,
 Mynyddoedd blwng Abarim—Nebo uthr,
 A Pisgah—preswylfeydd y duwiau gynt,
 Gan estyn eu copaon balch i ddal
 Cymundeb cyfrin gyda ser y nen,
 Fel pared byd, ymgodent. Anian gu
 Ar hyd eu llethrau gan aruthredd dwys
 Yn delwi oedd, ac ofnadwyaeth prudd
 Deyrnasai arnynt byth. Iorddonen ddofn,
 Gynhyrfus oedd yn mlaen ; yr hon, o bawb
 Fel Amser, yn ddiystyr, wyllt, ddibaid,
 Brysurai tua'r mor—ddyeithrol fôr,
 Yr hwn o dragwyddoldeb yn ei wae
 Yn gysgod gwanaidd ar y ddaear sydd.

I maes o'r gwersyll, dan Abarim, dau
 O wyr urddasol, mewn ymddiddan dwys,
 Un boreu rodient. Boreu gwanwyn oedd,
 Yr hwn—o honynt hwy'n arwyddlun byw—
 Gyfunai wg y gauaf gyda gwên
 Yr haf. Y naill â gwaith ac oes ar ben ;
 Goleuni teryll yr ysprydol fyd
 Belydrai eisoes drwy ei wyneb ; haul
 Yn machlud oedd. Efe oedd Moses fyg ;
 Arweinydd cenedl Duw drwy rwystrau rif
 Y ser ; y ffyddlawn, ac o ddynolryw,
 Y mwyaf. Er yn hen, efe yn dirf
 Ac ystwyth-gadarn megys derwen oedd ;
 Y gwrid oedd ar ei ruddiau yn barhaus,
 A'r tân oedd yn ei lygaid megys cynt ;
 Yn awr, yn wir, hawddgarwch boreu'i oes
 Gollasai yn arddunedd dwfn ei hwyr ;
 Goliah sanctaidd oedd. Joshua ap Nun
 Y llall, gweinidog Moses ; ac erioed
 Ufuddach gwas ni bu ; cywirach chwaith
 Ni ddaw. Ei oes i ddynolryw a fydd
 Yn safon mewn gwasanaeth byth. I Dduw
 A dyn, yn ngwyneb temtasiynau fyrdd
 Ac atalfeydd, ffyddloned oedd a'r wawr
 I'r ddaear. Weithian, gyda gwaith o'i flaen
 Osodai arno anedwinol fri,

Efe a gawn, fel haul ar hanner dydd,
 Yn anterth einioes, synwyr, gallu, ffydd ;
 A'i fron o sel mor lawn ag oedd o waed
 Dros enw Ior ac Israel. Ysbaid maith
 O yspryd Moses yr yfasai ef,
 Nes daethai'n Foses arall ; os yn is,
 Mwy difrycheulyd oedd ; ac os yn llai
 Mewn rhywbeth, llai na'r mwyaf oedd. Ail ddyn
 Y ddaear weithian ydoedd ; dranoeth daeth
 Yn Saul y grëadigaeth : neb ond Duw,
 Yn fwy, neu burach, nag efe ei hun
 Ni welai ; eto gostyngedig oedd.

Mewn goslef leddf, berorol, gyda dawn,
 Os nad yn hylithr, heddyw, megys tôn
 Clwyfedig alarch, oedd yn hyfryd iawn,
 Cyfarchai Moses Joshua fel hyn :—

“Fy mab, fy anwyl fab, a gwell na mab ;
 Ffyddlonach fuost ti na brawd i mi :
 Yn gywir, ufudd, ac yn addfwyn iawn,
 Am einioes bellach gwasanaethaist fi.
 Cyn gwrthodasai'th dafod, neu dy draed,
 Weithredu droswyf, anghofiasai gwaed
 Dy galon redeg. Iti, ymborth byth
 A bywyd oedd mawrhau 'nghymeriad i.
 Edmygit fi, er mor annheilwng wyf,
 Fel seren ddysglaer yn edmygu haul.
 Mewn cyfyngderau dwys, i mi yn nerth
 Ac anadl buost ti. Bywhau a wnaeth
 Dy ymddiddanion ganwaith, megys gwin,
 Fy yspryd llesg. Fel cwmwl llawn ar faes
 Sychedig wlawia ei hun i lawr, tydi
 Ddefnynit olew cariad pur i'm bron
 Friwedig ; yna, minau, fel y maes,
 Flodeuwn. Wrthyf, megys rhisgl wrth bren,
 Ymlynaist ; cerais innau di, fel car
 Y pren y rhisgl. Galaru, llawenhau,
 Addoli, buom ni yn hir yn nghyd :
 Yn awr, serchocaf fab, ymadael raid,—
 Myfi i farw—tithau i fyw. Tydi
 At ddyn, myfi at Dduw, a awn. Yr holl

Gynysgaeth allaf iti adael yw,
 Cynysgaeth o weddiau pur, y rhai
 Gynwysant fêr fy yspryd ; arnat hwy'n
 Gawodydd trymion o fendithion prid
 Ddisgynant hyd dy fedd.

“Yn dda y gwyddost ti,
 Mai taith flinderus fu fy mywyd i,
 O gyfrifoldeb ac o lafur dwys.
 Wrth arwain cenedl bechadurus fawr,
 Drwy alon fyrddiwn ac anialweh dwfn,
 Myfi a bechais lawer gwaith. Pa fodd
 Goddefwyd fi ! Anfeidrol ras fy Ior—
 Amynedd lletach, dyfnach nag yw'r mor—
 Allasai'n unig gydymddwyn â mi.
 Oblegyd fy nhroseddau wylais lif
 Ar lif o ddagrau ; ocheneidiau fyrdd
 Anedlais. A ! Meribah, gwaedu bu
 Fy nghalon ganwaith wrth dy gofio di.
 Er hyn, ni fliniais ar wasanaeth Duw ;
 Treuliaswn ganrif arall yn ei waith ;
 Ac aethwn drwy anialweh arall mwy,
 Pe dewisasai. Gweled Canaan fir
 A gaf ; a boddlon weithian wyf ar hyn.”

Ap Nun atebai, gyda theimlad dwys, —
 “Am arall oes caraswn inau fod
 I ti yn was ffyddlonach nag erioed.”

Gan ychwanegu, ebai Moses fyg—
 “Ar amnaid Duw fy mod i farw ar
 Y mynydd yma, er fod hyny'n wir
 Yn treiddio, megys awel oer, yn ias
 O gryndod drwy fy enaid, am y bobl
 Ac enw Ior meddyliais ; ger ei fron
 Gostyngais ; arno, fel sychedig dir
 Am wlaw, erfyniais. ‘Dyrol,’ meddwn, ‘wr
 Yn llygaid, tafod, braich, i Israel fydd,
 Yr hwn a'i harwain allan ac i mewn,
 Drwy atalfeydd i ben ei thaith yn iach,
 I maes i ryfel, ac yn ol yn fyw,
 A llawryf buddugoliaeth ar ei phen.
 Ei gadael fyddai, er cyfiawned hyn,

Heb fugail arni, megys diriaid braidd,
 I syrthio'n ol o fewn yr anial hwn
 Yn anwar lwyth, fel diffoddedig loer,
 Yn llwyr annglyson â'th ogoniant Di.
 Cyhoeddi diffyg gallu ar dy ran
 A wnelai'i duwiau gyda'i beddau byth.'

"Ti wyddost fel y bu. Dy enw drôs
 Wefusau Duw yn ateb i fy ngwaedd
 Ddisgynodd ar fy nglust. 'Neilldua i mi
 Joshua,' ebai Ef, 'fab Nun, y gwr
 O'm hyspryd, ac o synwyr sydd yn llawn ;
 Mae'n etholedig at y gwaith erioed.'
 Cof genyt, fel y bu drachefn, i mi,
 Ger bron Eleazar, ac i wydd y bobl,
 Dy ddwyn; ac yna yn gyhoeddus iawn,
 I enill arnat ymddiriedaeth pawb,
 I swydd oruchel, megys rhaglaw Ior
 I arwain Israel, yr ordeiniais di.
 Un modd, fel iti byth yr ufuddhaent,
 Trosglwyddais iti fy ngogoniant clauer :
 Ar hyny, trôais i yn auaf llwm,
 A thi yn brydferth haf ; fel seren ddydd
 Y safwn yno i addaw iddynt haul ;
 Diflanu bellach ar dy godiad di
 Yn ebrwydd wnafl."

Ac eilwaith mewn crynedig dôn,
 Osëa lefai, "O, na chawsw'n byth
 Yn seren aros, tithau byth yn haul !"
 Gan ateb, ebai Moses fyg drachefn,
 "Y gwaith ddechreuais i, yn awr yn mlaen
 I lawn orpheniad ddygir drwot ti.
 O'r Aipht—drwy'r môr—a thrwy'r anialwch mawr
 Y gynulleidfa hon arweiniais i :
 Tydi a'i dygi drwy yr afon hon—
 Drwy ryfel tost a maith — i feddiant llawn
 O'i haddawedig wlad—yr hon yn gyfion
 Cydrhyngddi reni ; yna bydd d'orchwylion
 Ar ben ; a thi yr hyn wyf fi yn awr.
 Dy orchwyl eto sydd yn mlaen ; a mawr,
 A digyffelyb yw yn hanes dyn

Erioed. O hono cysgod ydyw llif
 Yr afon yma. Arwain cenedl falch
 Drwy rwystrau uwch na'r mynydd hwn,
 Drwy alon rif y gwellt, y rhai bob un
 Yn angeu mewn creulondeb sydd, a raid
 I ti. Er hyny, pan orphenir ef,
 Ail greadigaeth mewn gogoniant fydd,
 I ddyn ac angel yn rhyfeddod mwy,
 I Dduw yn fawl, yn ddychryn uffern byth;
 A gall yn brophwydoliaeth fod am waith
 Mwy-gogoneddus fyth ar ddyn ryw bryd
 Gyflawnir; ti dy hun yn gysgod ter,
 Ysgatfydd, fyddi o Un arall mwy.

“Er maint y baich, na ddigalona di;
 Bu gofal rhyfedd drosot. Trafferth fawr
 Gymerodd Duw i'th ddysgu di i'w ddwyn.
 Arweiniodd di drwy amgylchiadau uthr;
 Ar wyrthiau pur am fwy na hanner oes
 Yr ydwyt bellach wedi byw. Yr hyn
 I'r ddaear yw y gauaf oer, neu'r hyn
 I mi fu Midian, fu'r anialwch hwn
 I ti—yn ddeugain mlwydd o addysg goeth.
 Y ddau—dy genedl a dy Dduw—yn awr
 Yn dda adwaeni. Drygioni dwfn y naill,
 A'i hyf rwnachrwydd, ganwaith welaist ti,
 O Gosen yma. Hir amynedd, cariad,
 Cymwynasgarwch, gofal, ac arweiniad
 Dibaid y Llall, a'i anchwiliadwy fawredd,
 A welaist ac a brofaist yn gyfunwedd
 Yn Soan bell, a thrwy y golofn danllyd;
 Ar lan y môr, a thrwy y mellt dychrynlyd;
 Drwy ymborth nefol, ebyrth llosg, a barnau
 Ofnadwy iawn, a myrdd o ryfeddodau.
 Islaw i mi, o fewn i gwmwl tew
 Y presennoldeb dwyfol, sefaist; ti
 A glywaist iaith a goslef Duw ei Hun!
 O hyny'n mlaen, ei Hunan, drwy barhaus
 Gymundeb, iti'n llawn ddatguddiodd Ef.
 I sefyll weithian rhwng yr Ior a'i bobl,
 Yn ail i gwmwl rhwng y môr a'r tir,

Cyfaddas ydwyf.

“Gan hyny, ymgryfha yn lew,
 Fy mab. Ar gyfer pechod, atalfeydd,
 A grym gelynion, creulawn megys eirth,
 Gosod, fel haul ar gyfer nos, ddoethineb,
 Trugaredd Duw, ei allu, a'i ffyddlondeb.
 Yn mlaen, beth bynag sy'n dy aros, mae
 Hollalluogrwydd grasol wrth dy gefn.
 Yr hyn a wnaed i'r Amaleciaid wneir
 I'r Canaanëaid; rhagot, megys ŵyn
 Rhag llewod, ffy Anaciaid gwrdd. Yn bur
 Yn unig, megys lloer i haul, parha
 I'r Arglwydd. Ar ei ddeddf, dy fywyd fo'n
 Esboniad claer. O'i orchymynion oll,
 Bydd mor ofalus ag o waed dy fron.
 Yn fyw i waith, i glod mor farw bydd
 A chraig i storm. Fel afon gyda môr,
 Os gwranddo arno wnei, ac ynddo Ef
 Ymddiried byth, ni ddichon dim, na byd
 Nac uffern ddofn, dy ddrygu. Fföai'r llif
 Yn ol i'r bryniau'n gynt; a throai'r môr
 Yn dân; diffoddai'r haul; a byddai'n haws
 I'r nef o'i safle ddiane, nag i ti
 Aflwyddo yn dy uchel waith. Yn awr,
 Fy mab—yn iach; Joshua, am byth, yn iach!”
 Efe, ar hyny, ardderchocaf ddyn,
 A gwen nefolaidd ar ei wyneb myg,
 Yn iach â'r bobl ag estyngedig fraich
 A ganai. Megys i gyfarfod gwr,
 Esgynai Pisgah'n hoew ac yn gryf
 I gwrdd marwolaeth, ac i wyddfod Duw.

CANIAD III.

CYNWYSLAD:—Galar y genedl. Duw yn ymddangos i Joshua. Pwysigrwydd y tridiau yn Rhosydd Moab. Darluniad o Joshua. Y ddau yspiwr, yn y cyfamser, mewn ogof, yn cyfiawnhau darostyngiad Canaan.

EFE, y llariaidd, ffyddlawn, sanctaidd ddyn,
 Y prophwyd mawr, yr hwn â Duw, fel gwr

A'i gyfaill, ymddiddanai'n rhydd ; yr hwn
 A deimlai dros y ddaear, ar y Nef
 A ddylanwadai ; gair yr hwn yn farn
 Ddisgynai ar y byd ; a gweddi'r hwn
 Yn wyrth a droai—Moses fyg, yr hwn
 Ddygasai Israel o gaethiwed tost,
 A gyfryngasai rhyngddi'n aml â Duw,
 Oddiwrthi attaliasai lawer barn,
 Dynasai lawer bendith ar ei phen,
 Mwy nid yw ! Calon cenedl Ior yn awr
 Ei werth a wybu : fel brenhinbren balch,
 Anfesuradwy ydoedd cyn ei gwymp.
 Ei hamddifadrwydd dwys i'r byw, fel ser
 Am ddiffoddedig haul, a deimlai. Ei bron
 Gan alaeth waedai. Gorwedd yn y llwch
 Am fis o ddyddiau wnai i wylo'n dost ;
 Am dano wylai pawb—y ferch a'r fam,
 Y mab a'r tad, yn ubain megys plant
 Amddifaid. Bochim oedd y gwersyll oll.
 Galarnad mawr, fel galar Hadad-rimon,
 Yn ddibaid lanwai Rosydd Moab weithion.
 Ar hyny, egwyl Duw a ddaeth i ddwyn
 I ben brophwydoliaethau Moses bur,
 A llanw disgwyliadau ei newydd was.
 Ymddangos i Joshua wnaeth, gan droi
 Ei addewidion yn ei fryd yn rym,
 Yn hyder, ac yn aidd. Mewn goslef bêr,
 Y fath a lifa dros wefusau Ior,
 Fel hyn llefarodd wrtho :—“ Adwy fawr
 Yn wag sy weithian ; cyfod llanw hi ;
 Ac arwain dros yr afon hon fy mhobl
 I wlad eu hetifeddiaeth. Eiddo erioed
 Yn llyfr fy arfaeth ichwi ydyw'r tir
 A sethrwch yn mhob man ; meddianna ef.
 Gwrthwynebiadau, megys niwl, o'th flaen
 Ddiflanant. Ymgryfha, gan hyny, 'n awr
 Ac ymwrola'n lew i gadw 'ngair ;
 Myfyria yn fy nghyfraith ddydd a nos ;
 Fy nghorchymynion ufuddha i gyd ;
 Ac yna llwyddi ; canys byddaf mwy

I ti, yr hyn cyhyd i Moses fum :
 A gwyddost ti pa beth yw hyny—Duw.”
 Oddiar wefusau'r Arglwydd, megys gwefr,
 Yn fywyd newydd treiddiai'r geiriau hyn
 Drwy natur ddofn ei was ; a llanw cryf
 O awydd pur a phenderfyniad iach
 A chwyddai ei fynwes megys môr. Yn awr,
 Yn awen drom llywyddiaeth cenedl gref
 Gafaelai'n hyf. Ar gof i Reuben, Gad,
 Manaseh, dygai 'u haddewidion gynt ;
 Y rhai yn frwd atebent, “Ti drwy ddwfr
 A thân ddylynwn ; iti ufuddhawn
 Hyd angeu. Ymgryfha ; gorchfygu wnawn.”
 Un modd, gan ystyr nad yw nodded Duw'n
 Dileu yr angen am ddyfalwch dyn,
 Anfonodd ddau o lanciau gwrol iach,
 A doeth o galon i archwilio'r wlad.
 Ac wrth benaethiaid Israel, ebai ef,
 “Y lluniaeth parotowch ; yr afon hon
 Yn mhen y tridiau groeswn.” Yr ysbaid hwn
 Yn Rhosydd Moab—tri deg nydd a thri—
 Mor bwysig ydoedd ! Hamdden oedd i Dduw,
 Yr Hwn o wyrthiau'n gynil sydd, i ddwyn
 Yn raddol, megys ffrwyth y maes, i ben
 Ei arfaeth. Anrhydeddu beunydd mae
 Ei ddeddf—ei ddeddf yn meddwl dyn ; a rhoi
 Yn ebrwydd wedi colli Moses, wir
 Ufudd-dod i Jeshua fuasai'n wyrth.
 O flaen y genedl, gosod felly wnaeth
 Gymeriad sanctaidd, hardd ; mor hawdd i ddyn
 Ei barchu ag i frwd fawrhau yr aig.
 I newid gwrthddrych, hamdden gafodd serch ;
 I newid arglwydd, cadd ufudd-dod saib ;
 Ac egwyl oedd i'r byw yn nghalon dyn
 Feddiannu lle y marw. Megys gwenith iach—
 I ddyn yn estron unwaith—dry yn waed,
 Yn gnawd, a grym ei natur ef ; yn awr,
 Appwyntiad Duw ddaeth yn ddewisiad dyn.
 O'r myrdd afonydd redant tua'r môr,
 Ychydig, fal Euphrates, Danube, Nile,

Yn adnabyddus drwy y ddaear sydd:
 Cyffelyb meibion dynion ynt ; mewn torf,
Rhai cymeriadau dyrchafedig geir.
 Am *rai* arddunol, ag y mae'u mawrhau
 Yn ysprydoliaeth iach, fel Moses glaer *glawr*
 A Phaul, ac ereill welodd ac a wel
 Y byd—angylion dysglaer dynolryw ;
 Y rhai, fel ser, ar nos hanesiaeth dyn
 A fwriant ganaid wawl,—i ti, O Dduw !
 Diolchaf ; Ti addolaf drwyddynt hwy.

Un modd, Osëa yn Iorddonen oedd ;
 Ei natur fawr, fel enfys liwiau merth,
 Gyfunai deithi gwerthfawr lawer iawn :
 O dan ei foesol ragoriaethau gwymp,
 Fel creigiau dan brydferthion byd, yr oedd
 Naturiol seiliau cedyrn. Lluniaidd, tal,
 I eiddo Saul cyfartal oedd ei gorff,
 Yn iach ac ystwyth, fel planhigyn tîrf ;
 I ddal caledi ac i wawdio'r storm,
 Môr gryf a derwen, ac mor lawn o hoen
 Ag anian yn y gwanwyn oedd. Ei wallt,
 Yn llaes fodrwyog ar ei lydan wâr,
 Chwareuai yn yr awel. Talcen llawn
 Ac uchel feddai, gyda llygaid llym,
 Drwy ddyn yn edrych, eto heb ei ladd.
 Ei wedd yn orsedd i fawrhydi byth,
 Ei drem fawreddig dynai sylw pawb,
 A'i rodiad, megys rhodiad angel, oedd
 Urddasol. I weled drwy fynyddoedd bàn,
 A moroedd dyfnion, cyflym oedd ei fryd ;
 A threiddio, megys mellten, wnai drwy nos
 O amgylchiadau dyrus, pell, gan droi
 Eu nos yn ddydd. O'i flaen, fel gloew lyn,
 Gorweddai twyll ac uffern calon dyn.
 Cynhyrfus nwydau, megys tonau'r aig
 Ger bron eu Crêwr, i dawelwch dwys
 O flaen ei ddoniau llywodraethol ef
 A gywilyddient oll. Brwdfrydig oedd
 Ei yspryd fel y wawr ; uchelgais pur
 Enynai dan ei fron yn fflam. Yn Nuw,

Ac ynddo'i hunan, meddai rymus ffydd,
 Yn sail i obaith am ddyfodol nef
 O fuddugoliaeth ac o lwyddiant maith
 I'w genedl. Lawned oedd a môr o ddwfr
 O gariad ati; drosti parod oedd
 I farw neu i fyw. Ar siomiant prudd,
 Amynedd feddai i edrych gyda gwên;
 A phenderfyniad, megys corwynt cryf,
 I chwalu ymaith atalfeydd fel us.
 I greu hanesiaeth, cymhwys ydoedd ef;
 Gwrthwynebiadau grynent ger ei fron;
 Yn ngwyneb anhawsderau syllai ef,
 A mwy ni byddent; megys crinion ddail
 Ar lif y rhaiadr, hwy ymgollent byth.
 Efe yn mhlith y llwythau oedd fel lloer
 Yn mhlith y ser; a lleuad ddysglaer oedd
 Yn nos y ddaear i dragwyddol Haul.
 Fel hyn, yn gystal a thrwy brofiad maith
 O amgylchiadau uthr, efe o'r groth
 A gymhwysasid at oruchel waith.

I enill arno'i hun ymddiried llwyr
 A pharch y genedl, rhodiai ger ei bron
 Y tridiau hyny mewn mawrhydi clauer.
 Wrth syllu arno, serch y bobl, fel serch
 Unigol fron—fel eiddew am y pren,
 Ymblethai am ei berson hardd. I'r gwraidd
 Edmygedd calon pawb gyffroai ei bur
 Ogoniant; megys blodau yn mawrhau
 Yr haul, mawrygent ef. Ei allu mawr
 A'i rinwedd glân ddeffroai ynddynt oll
 Ffyddlondeb, aidd, a llafur; ar ei arch
 Yn ufudd elent, megys dros y môr
 Yn fud genhadon aiff gymylau'r nen.

Yn gyfamserol yn ei feddwl ef,
 Ymweithiai cyfnewidiad mawr; dyfnhau
 Yn argyhoeddiad wnelai llawer tyb;
 Anelwig syniad droai'n aml yn ddeddf;
 Delfrydau ynddo, megys gwawr yn ddydd,
 Ymfurfient yn gynlluniau clir. Efe—
 Fel angel dremiai i dragwyddoldeb fu,

Dros amser syllai i dragwyddoldeb ddaw—
 Yr egwyl hon, mewn teimlad dyeithr, dros
 Anialwch maith edrychai'n ol i'r Aipht ;
 Yn mlaen i Ganaan ; arall waith i'r Nef,
 Mewn diolchgarwch gyda gweddi daer,
 Ei drem gyfodai. Weithian, cafodd ef
 Yr hyn yn Midian gawsai Moses—saib
 I ddwys ystyried anhawsterau gwaith
 Ei oes ; neu yn Arabia gafodd Paul,
 I adwaen ei alluoedd, ac i ddwyn
 Pob diffyg yn ei natur oedd i farn ;
 I ladd ei hunan, ac yn llewyrch Nef
 I ddarllen cymhelliadau dwfn ei fron ;
 Ac fel Elias yn yr ogof gynt,
 I deimlo Duw o'r newydd iddo ef
 Yn Dduw ; o'r newydd i gysegru'n llwyr
 Ei nerth a'i fywyd iddo. Aethai'n awr
 Drwy sanctaidd chwil-lys ; ac ohono daeth
 Wrth fodd y ddaear ac wrth fodd y Nef.

Ar ogledd du y ddinas gaerog falch,
 Gylchynid byth gan balmwydd heirddion, tál,
 O ddyffryn prydferth Jericho, yn rhes
 Ymgodai'n raddol fryniau gwynion, llawn
 O gelloedd dwfn, fel ambell fryn Cymreig.
 Mewn ogof ynddynt, dros y tridiau hyn,
 Gorphwysai dau o wyr : mewn purdeb glân
 A diniweidrwydd, dau o wyn ; mewn nerth
 A glewder, llewod oedd y ddau ; y rhai
 Ddirmygent arswyd ; syllent gyda gwên
 Ar berygl. Cyfarch wnelai Othniel gu
 Ei frawd, “Diogel yma, Salmon, ym ;
 Gorphwyswn bellach. Nofio balchder llif
 Iorddonen wnaethom ; yn y ddinas hon,
 Fel rhith, rhodiasom drwy elynion fyrdd,
 O dan amddiffyn Ior.”

Atebai Salmon, “Do ;
 Ac am ein llwyddiant llawenhau yr wyf ;
 Er mwyn fy nghenedl a'm tywysog mawr—
 Mawr mewn ffyddlondeb, dewrder, pwyll, a serch.
 Mor felus iddo'n cenadwri fydd !

Mor fawr ei bryder ydyw yn ein cylch !
 Mor daer ei weddi drosom yw ! Y mae'n
 Anrhydedd byth cael ufuddhau i'w fath."

"Hyfrydaf waith fy einioes inau yw
 Gwynebu perygl," ebai Othniel, "ar
 Ei arch. Drachefn amlygodd Duw ei hun
 I ni yn blaid : darparu Rahab wnaeth,
 Fel blodyn gweddw ar ddeifiedig faes,
 Yn gariad pur yn nghanol grymus lid."

"Ie," ebai Salmon, gyda phwyslais serch,
 "Gwasanaeth mawr a wnaeth ; teilyngu hoedl,
 Anrhydedd, golud, mae ; a chaiff ei gwobr.
 Fy mron a fydd, cyn goddef hono gam,
 Mor wag o waed ag yw yn awr o dwyll.

Os bu yn ddu—mor ddu a pharddu—gwyn
 Fel eira weithian yn fy ngholwg yw ;
 Os bu yn gythraul, angel mwyach fydd.
 Y fath anmheuthyn yw y ffrwythau hyn—
 Y pomgranadau, grawnwin aeddfed, cnau,
 Yr aeron chweg, afalau per, a balm—
 Oddiar y coed dynasom ni wrth ffoi !

Gad ini syllu ar doreithiog fro
 Eu cartref. Eden arall yw, yn llawn
 O beraroglau ; ynddi bythol haf
 Flagura mewn prydferthwch byw. Yn aml
 Ymfyniadau godant yn fy mhen,
 O barth ein hymosodiad ar y wlad
 Ardderchog hon. A feddwn ynddi hawl ?
 A allwn ni fwynhau y tir drwy drais
 Gymerwn ? Etifeddiaeth ydyw hwn
 Erioed i eppil Canaan : fynwn ni,
 O herwydd nad oes genym fro ein hun,
 Ysbeilio ereill bobl ? A ydyw'r byd
 Mor fychan, neu mor lawn, fel rhaid i'r naill,
 Fel nos yn ymlid dydd, ddifrod i'r llall ?
 Fy meddwl, weithiau'n dawel iawn a chlir,
 Waith arall sy'n gythryblus ac anmheus.
 Fy mrawd, eglura di ein hawl : yn well
 A fyddwn ni, yn ngolwg arall oes,
 Neu genedl ddaw, na threiswyr ; ynte haid

Lofruddiog fydd ein henw byth?"

Atebai Othniel, "Mae
Y fath holiadau yn naturiol iawn ;
Er hyny, atebadwy ydynt oll.
Ystyria hyn—mai Duw i maes o'r Aipht
Ag estynedig fraich, drwy'r anial cras,
A'n dygodd ni bob cam. Yn golofn niwl
A thân dyeithrol cerddai'i Hun o'n blaen ;
Symudem, troëm, safem wrth ei air
O hyd. Yn mhellach, iddo Ef yn gwbl
Yr ufuddhawn ni wrth ymosod ar
Y Canaanëaid ; felly bydd Efe
Gyfrifol am y gwaith. A hysbys yw,
Nas gall Efe gamsyniad ; byddai'n haws
I'r haul o'i rôdau ysgog. Uniawn, doeth,
A da, ei holl weithredoedd ydynt. Mwy,
I ben ei addewidion ddwg drwy hyn :
Addawodd ganwaith roddi Canaan fras
I Israel : pwy a wad ei hawl i wneud
A'r wlad a grëodd fel y myn ei Hun!"

Ei enau Salmon agor wnai drachefn,—
"Mai uniawn, doeth, a da, yw Duw a wn ;
A chredu'r wyf fod hyn i gyd yn iawn—
Mai claer ei enw, ac mai gwèn a fydd
Ei orsedd byth ; ond tew dywyllwch sydd
O'i hamgylch yn crynhoi. Paham y rhaid
I Canaan farw, ac i Israel fyw ?
Pa beth yn nhreigliad amser pell a fydd
Joshua ? Ai ysbeiliwr du ? Ai dyn,
I'r Arglwydd ac i arall ddyn, mor bur
A gwlyth i'r ddaear ? Llawn o bryder wyf
Am hyn ; ac imi, Othniel, eglurhâ
Yn mhellach ffyrdd yr Iôr."

"Yn gyntaf," ebai Othniel, "Gad
I minau ofyn gair i ti.—Pa beth
Erioed yw hanes goruchwyliaeth Duw ?
Ai nid Efe ar ddynolryw i gyd
Ollyngodd ddylif marwol gynt ? Paham
Caledodd galon Pharaoh ddreng ! Paham,
Yn llif o felldith ar ei hêol ddu,

Y gwlawiodd ar Sodoma gawod drom
 O dan?—Drygioni yw yr ateb llawn;
 Dialedd pur ar annuwioldeb oedd
 Y cwbl. Un modd, eilunaddoliaeth hyf,
 A brwnt bechodau'r Canaanëaid sydd
 Am farn yn llefain. 'Y bedwaredd oes
 Ar anwireddau yr Amoriaid ddaeth;
 Ac ebyrth fyddant i ddigofaint Ner.
 Os yw y wlad yn brydferth fel y nef,
 Melltigaid ac ysgymun yw y bobl.
 Y nef ddaearol hon a dröant hwy
 Yn uffern fyth; ac amddiffyniad i
 Lywodraeth Ior yw difa'r hil o fod,
 Oblegyd cospi y drygionus sydd
 Gyfiawnder. Anfad ydynt oll; rhy ddrwg
 I fyw yn hwy: ai nid trugaredd, rhag
 Amlhau drygioni a thrueni dyn,
 A fyddai lladd y cwbl yn awr? Pa fodd
 I wrthryfela yn nghynddaredd llid
 I'w erbyn Ef, goddefwyd hwy cyhyd!
 Gogoniant Duw a heddwch dyn yn nghyd,
 Fel hyn, a alwant am ddialedd llwyr
 Ac ebrwydd ar y Canaanëaid hyn."

Llefarai Salmon, "Digon, Othniel, yw
 Dy eglurhad; uniondeb llwyr y gosp
 Yn awr ganfyddaf; cofio Corah'r wyf.
 Fy niolch am hyfforddiad, derbyn di.
 Goleuni deflaist ar gymeriad Duw;
 Yn erbyn ei elynion, mae fy aidd
 Yn fflam. Dychwelodd ein herlidwyr oll:
 I draethu'n hanes wrth ein blaenor pur,
 Gad ini weithian frysio drwy y llif."

CANIAD IV.

CYNWYSIAD:—Y gwerysll yn ymbarotoi i fyned dros yr Ior-
 ddonen—y dyfroedd yn ymwahanu. Yr enwaediad yn
 Gilgal. Yn y cyfamser, Caleb a Haniel yn ymneillduo i
 goedwig Jericho, lle mae y naill yn adrodd wrth y llall
 hanes a gorchestion boreuol Joshua. Y Pasg.

YN foreu dranoeth, gyda newydd aidd,

Fel afon wedi gwlaw, cyfodai Joshua.
 Yn nghanol dyledswyddau maith ei swydd,
 Yn cyfarwyddo penau'r llwythau i ddwyn
 Y gweryll i symudol drefn, er bod
 Yn barod at y cyfwng mawr, yr Iôn,
 Fel gwlyth yn disgyn ar anialwch cras,
 I'w galonogi at yr antur uthr,
 A ymddangosodd iddo. Ebai Ef,
 "Ger bron yr Israel dechreu dy fawrhau
 A wnaif fi heddyw ; gwybod gânt mai'r hyn
 A fum i Moses fyddaf mwy i ti."

Dymuno mwy nis gallai. Yna, wrth
 Y bobl llefarodd, "Ymsancteiddiwch oll
 I weled Duw yfory drosoch chwi
 Yn gwneuthur rhyfeddodau. Megys gwynt
 Yn gwasgar us, yr ymlid Ef o'ch blaen
 Drigolion Canaan."

Yn rhydd oddiwrth y pryder dwys
 Ddirdynai eu tadau wrth Bihairoth gynt,
 Yn wersyll trefnus wrth orchymyn Ner,
 Cychwynent weithian. Filldir lawn o'u blaen,
 Yr arch symudai ar ysgwyddau myg
 Offeiriaid : arni, fel ar seren bell
 Y sylla morwyr ar estronol fôr,
 Mewn gobaith craffent hwy'n barhaus. At làn
 Iorddonen deuent ; hono'r awrhon oedd,
 Dan bwys ymdoddiad eira Hermon glaer,
 Yn anterth golud, mawredd, ymfrost hyf ;
 Yn llydan, ddofn, arddunol, wyllt ei rhawd.
 Fel oes ddaearol i dragwyddol oes
 Yn ffoi, neu ambell i athrylith fawr,
 Yn gynamserol welwyd yn y byd,
 O gerydd arno'n brysio yn ei hol
 At Dduw—yn llif cynhyrfus, chwyddog, hi
 Ysgubai heibio mewn mawrhydi balch.
 Yn rhu ei thonau crechwen angeu oedd,
 Yn deffro arswyd yn nghalonau pawb.
 Eithr ar ei cheulan, Rhywun mwy na'r arch—
 Ei Chrëwr—safai heddyw : iddo Ef,
 Yr hwn âg amnaid oleusasai'r haul,

Hauasai'r gwagle gyda bydoedd ter,
 Gynaliai wynt y ddaear yn ei ddwrn,
 Orchymynasai foroedd byd i fod,
 Pa beth oedd grym ei dyfroedd? Llai na chri
 Amddifad faban wrth y daran groch.

Offeiriaid Ner, wrth syllu arni'n ddwys,
 Am eiliad weithian welent ar ei thraws,
 Fel deuddwr-gyfarfyddiad, lilyn main
 O gynhwrf; ymddyfnhâi yn rych—yn rhyd—
 Yn draeth graianog cul; yr hwn o ffordd
 Ymledai ger eu bron yn ddyeithr gwm—
 Yn ddyffryn newydd am filldiroedd maith.
 Y naill lifeiriant, fel yr asen gynt
 Ganfyddai (i ddyn yn anweledig) Dduw,
 Yn ddychrynedig dros lechweddau serth,
 Yn ol i'r mynydd heibio Adam bell,
 O wydd ei Grëwr fföai. I fôr y Rhos,
 Fel melltgedig dorf o wydd yr Ior,
 I uffern yrir ddydd y farn, y llall,
 Heb obaith cael dychwelyd byth yn ol,
 Ymruthrai rhagddo'n wyllt. O flaen y bobl,
 Rhwng dau lifeiriant, megys amser rhwng
 Dau dragwyddoldeb, weithian sychdir maith
 Ymledai. Drosto miloedd Israel oll,
 Heb faban gwan na henwr llesg ar ol,
 O wyrthiau Ion yn gofgofnau byw,
 I Ganaan aethant, gan wasgaru braw
 Drwy galon llawer cenedl falch, yr hwn
 Yn ernes buddugoliaeth gyflawn oedd.

Ar hyn, eu penaeth, yn yr afon sech,
 A Gilgal, gododd dyrau cadr i ddweyd
 Drwy fûd hyawdledd wrth ddyfodol oes
 Am ryfeddodau'r Arglwydd. Iddo Ef,
 Gan orphwys mewn mwynhad yn Gilgal dlos,
 Wrth gofio blinder yr anialwch maith,
 Diolchai'r llwythau gyda mynwes frwd.
 Mawrhau'u harweinydd hefyd wnaent, fel gwraidd
 Drwy flodau per yn cyfarch gwanwyn mwyn;
 Perffeithiaf arwr, ac o ddynolryw,
 Sancteiddiaf yn eu golwg ydoedd ef.

O herwydd anufudd-dod hyf, grwgnachrwydd,
 Drygioni, cabledd, gydag ystyfnigrwydd,
 Y genedl weithian—cenedl gyfamodol
 Yr Ior, a gwrthddrych ei drugaredd rasol—
 Er bod yn wastad dan ei nawdd arweiniol,
 Oddiwrth arbenig ordinhadau'r nefoedd,
 Er's deugain mlynedd yn ysgymun ydoedd.
 Heb Basg i ddeffro diolchgarwch calon,
 A meithrin gobaith am ddyfodol tirion ;
 Cenedlaeth fawr, heb brofi ias enwaediad
 Erioed i weithio tristwch argyhoeddiad
 Ac edifeirwch am bechodau anfad,
 Yn anwybodus gyfodasai. Joshua
 Yn llawn, fel haf o fywyd, oedd o bur
 Ddefosiwn ; credai mai ffyddlondeb llwyr
 I'r Nef yw amod pob daearol lwydd.
 Os cwsg y nos yw yni gwaith y dydd,
 Os gwlaw i flodau'n adgyfodiad sydd,
 Ystyried wnai gymundeb gyda'r Duwdod,
 Drwy'i ordinhadau glan a gwir ufudd-dod,
 Yn rym a ffyniant dyn yn mhob ryw gyfnod.
 Gywired oedd ! Pa beth yn nadwrdd byd
 Heb Ior yn nawdd yw dyn—athrylith dyn ?—
 Gwybedyn mewn daeargryn yw. Efe
 A baratōai felly gyllill llymion,
 Ar archiad Duw ac o ddarbwylliad calon ;
 Ac ar y bobl enwaedai gyda hyder
 Am noded drostynt yn eu blin gyfyngder.
 Fel personoliad o gyfiawnder Nef
 Drwy'r gwerysll rhodiai ; mil o'i ol ar fil,
 Yn ysig-galon drwy y brathiad llym,
 Mewn gwaed orweddent ar y glaswellt ir.
 Y fath hanesiaeth prudd am bechod dyn
 Fynegai'r iasau brofent hwy yn awr !
 Defnynau oeddynt o ddiwaelod fôr
 O ing yn uffern ymgynhyrfa bythoedd.
 Y gwaed fedyddiai wellt y ddaear ydoedd
 Yn brophwydoliaeth ddyeithr a chyfoethog,
 Fel am berlysiau mae y nen gymylog,
 Am arall Waed a drōai'r marw aflan

Yn fyw a sanctaidd fel y Nef ei hunan.
 Yr hen gyfamod rhwng yr Iôn a'i bobl
 A adnewyddwyd drwy y ddefod hon,
 Yr hon, fel îa i'r gauaf, oedd ei zel,
 Ac wrtho, hi o'r newydd roed yn awr.
 Ufudd-dod llwyr, gwasanaeth, a ffyddlondeb,
 Y naill addawai gydag aidd a phurdeb ;
 Dros hoedl ac eiddo amddiffyniad hollol,
 Didrai fendithion, ac arweiniad dwyfol,
 A môr o heddwch yn mharadwys Canaan,
 Y Llall addawai mewn trugaredd weithian.

A'r bobl gan ddolur yn eu "hunlle" 'n aros,
 I maes o Gilgal mewn i'r wig gyfagos,
 Yn araf dau o wyr neillduent. Un
 Yn batriarch hen urddasol oedd ; y llall
 Yn hanner dydd ei oes, yr hwn ar hedd
 Dystawrwyd dorodd,—“Caleb fyg, mwynhau
 Am orig weithian dy ddoethineb wiw,
 Dy brofiad maith, a'th bell adgofion, gad
 I mi. Iach, eto enwaededig, y'm ;
 Myfi wrth Sinai, tithau yn yr Aipht,
 Yn dyoddef fuom.”

Atebai Caleb—“Haniel gu,
 Cyffroi fy hiraeth'r wyt. Mor bell yw'r Aipht !
 Y cof am dani, megys breuddwyd yw.
 Gynnifer mil o'm brodyr gleddais ; llu
 Ar lu o alon gwrddais ; llawer gwyrth
 A barn ddifaol welais er y dydd
 Cydsyllwn ag Osëa ar ei theyrn
 Trahaus a'i wyr yn boddi yn y llif !
 A ni yn unig—ni ein dau—yn fyw
 O filoedd Israel, mor ryfeddol yw !
 Mor anchwiliadwy ag arfaethau Ior !”

Drachefn llefarai Haniel, “Gwybod mwy
 O foreu hanes ein harweinydd doeth
 A garwn. Rhynged bodd i ti fynegi
 Gorchestion clauer gyflawnodd cyn fy ngeni.
 Ai nid addawai'i wawr ef ddiwrnod teg ?
 Ac onid oedd ei fabol gampau pur
 Yn addunedau am weithredoedd prid ?”

Atebai'r patriarch, "Gyda gwir foddhad,
 Cydsyniaf ; canys anwyl ydyw ef
 I mi, fel bywyd i lesmeiriol fròn.
 Adwaenwn ef cyn gadael cyni'r Aipht ;
 A chasglu priddwellt buom ni ynghyd.
 Pryd hyny, prydferth megys seren oedd.
 A nwyfus iawn ; chwareuai megys iwrech
 Ar fin yr hwyr, er trymed oedd y gwaith.
 Mor bur a gwlythyn oedd ei yspryd iach ;
 Mor glaer ei foes ag eira diwrnod oed.
 Fel engyl ieuainc, drwy yr adwy uthr
 I'r làn yn nghyd rhodiasom ni. Ar hyn,
 Efe'n weinidog Moses ddaeth, yr hwn,
 Fel oen ei fam, ddylynai ; sylw'r Nef
 A dynai arno ei hun ; ac wrtho'r bobl,
 Fel dynolryw i gyd wrth amser, oedd
 Yn disgwyl llawer iawn : a Duw neu ddyn,
 Erioed ni siomodd ef, mwy nag o ddydd
 Y siomodd gwawr y byd. I fyddin Ior,
 I gwrdd Amalec yn Rephidim gynt,
 Tywysog amlwg oedd. Ei eiriau byw,
 Gan ddeffro grym ac aidd yn mynwes pawb,
 Fel anadl hollalluog drwy y llu
 A dreiddient. Yna, gyda chynllun doeth,
 Ymruthrai ar y gelyn megys gwynt
 Distrywiol—megys nerthol lif i fôr
 Marwolaeth yr ysgubai hwynt. Ond faint
 A wnaeth efe, fynegir gan y bryn
 O feddau yno heddyw sydd, yn well
 Na chenyf fi. Drachefn, efe yn ben
 Y fintai aeth i edrych Canaan wnaed ;
 Ac yna daeth Osëa yn Joshua.
 Yn ol pan ddaethom, nerth a gawsom ni
 Yn erbyn deg i sefyll dros y gwir.
 Y deg—pa le y maent ? Eu cofio sydd
 Yn deffro dyeithr deimlad dan fy mron ;
 A wylo o ddiolchgarwch ddagrau mel
 I mi'n naturiol sydd. Yn erbyn twyll
 A chelwydd—celwydd hyf yn erbyn Duw,
 A dyn, a daear—aidd ei yspryd glew,

Ac awch ei feddwl cryf a dröai'n awr
 I gyd. Fel craig yn erbyn tonau'r môr,
 Diysgog yn eu herbyn oedd ; a'r gwir
 Yn fwy na'i einioes garai ef : â llais,
 Fel taran bêr, a glywai'r genedl oll,
 Dynoethai'r hoced, gan gynyrchu ofn
 Ac argyhoeddiad yn nghalonau pawb.
 Yn dda y gwyddost am ei synwyr cryf
 Fel cenad at elynol lwythau dreng ;
 Fel Edom, Sehon, gydag anferth Og.
 Fel gwaed a bywyd, cydbreswyllo mae
 Doethineb byth a glewder ynddo ef.
 Er maint ei lafur, parotöad oedd
 At lafur trymach ; dechreu gweithio mae ;
 Ac addewidion am orchestion uwch
 Yw'r rhyfeddodau eisoes wnaeth i gyd.
 Effeithiau'i waith barhant cyhyd a'r môr,
 A'i enw fydd tra llewyrch haul yn glaer."

"Gwyl ydyw heddyw—dydd arbenig Ner—
 Na bu erioed, a byth ni ddaw ei hail.
 Gad ini weithian at y wledd neshau,
 I wel'd drefnused gan Osëa yw
 Yr arlwy fawr. I ordinhadau Duw,
 Ffyddluned ydyw ag amaethwr doeth
 I'r gwanwyn. Ebargofiai'r ffrwd i'r aig
 Ei theyrnedd cyn'r anghofiai ef i'w Grëwr
 Ei rwymedigaeth."

"Dïolchgar iti wyf,"

Atebai Haniel, "ac—mor newydd yw—
 Awyddus ydwyf am y wledd."

Hwyrddydd tawel oedd,

Ac Israel yn finteioedd mân—pob llwyth
 A theulu ar wahân—o gylch yr arch,
 Yn niwyg teithwyr er ar ben eu taith,
 Yn dechreu gwledda ar rostiedig oen.
 Yn ol mewn synedigaeth edrych wnaent
 Ar lawer perygl, llawer pechod trwch,
 Ar lawer gelyn—weithian yn ei fedd—
 Ar lawer gwyrth a phla—mor bell a'r Aipht ;
 Ac yna am waredigaeth lwyr, a gwlad,

Diolchent gyda llygaid llaith. Fel saint
 Pob oes wrth wleda ar ei sylwedd mawr,
 Y Pasg fwytaent hwy gyda mynwes lawn
 O wrth-deimladau dwys—o ddiolchgarwch,
 Tangnefedd bur, llawenydd, hiraeth, tristwch,
 Ac edifeirwch. Rhyddid, os mwynhaent,
 Camweddau gofient, aml fel gwellt y maes ;
 Wrth ganu am waredigaeth, meddwl wnaent
 Am feddau brodyr yn yr anial pell ;
 A dagrau melus gyda dagrau hallt,
 A gydymlifent hyd eu gruddiau i lawr.
 Dyeithrol furmur drwy y gwersyll oedd
 Yn treiddiaw—weithiau'n ddwfn a lleddf, fel **swn**
 Y ddrychin yn y nos ; ac arall waith,
 Fel swn awelon foreu gwanwyn teg,
 Yn llon ac ysgafn ; ond y cwbl mor rydd
 Oddiwrth rwgnachrwydd ag yw mawl y Nef.
 Er dagrau hallt ac ocheneidiau fyrdd,
 Llawenydd ag oedd i'r Jehofah'n fawl,
 Oedd cywair teimlad drwy y gwersyll oll.
Yn mlaen, mewn gobaith, syllai ambell un
 At ddydd y cai, efallai, ar yr oen
 Ymborthi, heb y surion ddail i ddwyn
 Ei beraidd flas : y waredigaeth fawr
 A gawsai'n brophwydoliaeth, iddo oedd
 Am waredigaeth ardderchocach gai.
 Ar ddaear Canaan, ac yn heddwch Duw,
 Yn ngolwg äang ysguboriau llawn,
 A thir yn flin dan bwys ei doraeth prid,
 Yr Israel, fel y saint wrth byrth y nef
 Yn canu'n iach â hen adnodau pêr,
 Ffarwelient weithian gyda'r manna am byth.
 Joshua, dranoeth, yn blygeiniol iawn,
 Yn yspryd gweithgar, dystaw fel yr haul—
 Anaml ei eiriau oeddynt, eto byw
 I gyd fel mellt ; ei weithrediadau'n aml
 A dysglær oeddynt fel y ser—ei hun
 I chwilio aethai drwy y goedwig dew
 Am ffordd i arwain at y gaerog dref
 Fyddinoedd Ior. Ac yno wrth ei waith

Cyfleustra i ddangos ei wroldeb pur,
 Ac achos gafodd i addoli'n frwd
 Drachefn. O angerdd presennoldeb Duw
 Yn fuan daeth yn ol; a'i fron yn llawn,
 Fel aber ar ymweliad llanw'r môr,
 O lewder sanctaidd ac o newydd rym,
 Y rhai drwy'i eiriau i galonau'r bobl,
 Fel trydan, dreiddient. "Dan," anerchai hwynt,
 "Arweiniad Ner i Ganaan daethom; hi
 Yn awr feddiannwn drwy ei allu Ef.
 Y ddinas acw, er cadarned yw,
 Yn bobl a brenin, roddodd yn ein llaw;
 Ymbarotowch i gychwyn gyda brys,
 Fel gwelom fwy o'i ryfeddodau myg."

CANIAD V.

CYNWYSIAD :—Duwiau Canaan, wrth ganfod eu haflwyddiant, yn anfon i uffern i ymgynghori â Satan.—Darluniad o Gehenna.—Yr ymgynghoriad.—Dinystr Jericho yn cael ei egluro yno.—Y penderfyniad.

HEBLAW yr Arglwydd, duwiau lawer oedd
 Yn canlyn Israel drwy yr anial maith :
 Astaroth, Pior, Chemos, Moloch, Baal,—
 Arglwyddi Canaan a chymydog-dduwiau—
 Y rhai a aethent i gyfarfod duwiau
 Yr Aipht i'w derbyn at y môr. Mewn lliid
 Derbynient hwynt; i'w hudo oddiar y ffordd,
 I bechu fyth, i wadu eu Rhyddhawr,
 A'u llwyr-ddyrysu ar eu hymdaith flin,
 Ymdrechent âg uffernol aidd. Yn awr,
 Y duwiau hyn, o haniad, tuedd, clod,
 Yn wahanredol; eto'n erbyn Ior
 A'i bobl yn un—wrth ganfod llwydd ei was,
 O wylidwrus bryder oeddynt oll
 Yn llawn. Cyfarfod ar ryw fynydd bân
 Mewn cynghor weithiau wnaent; ac yna ar led
 Yn ddu ysprydion gwibient—rhai ar ffrwst
 I uffern; drwy ddinasoedd Canaan rhai;
 At wersyll Israel yn llechwraidd rhai.

Oddiar gopaion Nebo, syllu wnaent
 Yn awr ar fyddin Ior yn ymdaith at
 Jericho falch. Heb yspryd ynddynt mwy,
 Fel ffrwyth eu cyfyng-gynghor, anfon Baal—
 Duw cyfrwys ac o urddas mawr—am nawdd
 A chyfarwyddyd wnaethant gyda brys
 I uffern. Da y gwyddai ef y ffordd,
 Oblegyd cythraul oedd; a mynych iawn,
 Yn ystod taith y deugain mlynedd blin,
 Cyrchasai adref. Megys meddwl, chwim—
 Drwy nos a dydd, hinsoddau brwd ac oer;
 Gan basio bydoedd, heuliau claer, a ser;
 Drwy ganol tryblith, lle gorweddai aml
 I anian hen drancedig, gydag aml
 I huan ieuanc heb ei oleu erioed—
 Ymdeithiai ef. Ond rhodio'n araf raid
 I'm hawen lesg ar hyd ei aruthr lwybr.
 Ar ymyl eithaf ymherodraeth Duw,
 O'r diwedd, deuai at agendor fawr,
 Fel genau mynydd llosg, yr hon o hyd
 Anadlai fwg dyeithrol. Oddimewn,
 Ymledai'n anferth megys gwely môr,
 Neu fyd o'r craidd losgasai at y croen.
 Ag eithrio si adenydd ambell ddiawl,
 Dystawrwydd dwfn marwolaeth yno byth
 Deyrnasai: murddyn creadigaeth oedd.
 Y pellaf haul oddiwrth y Nef—un gwan
 A llwyd—a fwriai iddi welw wawl,
 Fel llewyrch gwawr, gan droi y lle yn wyll;
 A hyfryd mewn cymhariaeth oedd; os iawn
 Yn nghanol gwae am hyfryd ydyw son:
 Yr hyn i'r ddaear ydoedd Canaan gynt,
 Neu'r hyn yn Nghymru ydyw Dyffryn Clwyd,
 Er hyny, 'n uffern, oedd y fangre hon.
 A hamdden pan y cai alltudiaid Nef
 Oddiwrth orchwylion yr uffernol lys,
 Neu boeni damnedigion; neud ar ol
 Dychwelyd o wasgaru brad a thrais
 Mewn ereill fydoedd,—hwy, am oes neu ddwy,
 I orphwys yma drwy gyfnewid gwaith,

A garent ddod. O fewn ei hogofeydd,
 O ymhyfrydiad yn y gwaith ei hun,
 Ymlygrent beunydd gyda gwallgof aidd.
 Drygioni sydd yn amcan ynddo'i hun
 I ddiawl. Egwyddor fawr ei fywyd yw,
 Gelyniaeth dwfn at ddynion, ac at Dduw.
 Yn ddigymhelliad, ond cymhelliad greddf
 Ei natur, pechu wrtho ei hun y mae'n
 Naturiol, megys afon tua'r môr
 Yn llifo. Ar anwiredd byw, fel dyn
 Ar wynt, y mae. O fewn y fangre hon,
 Cythreuliaid o athrylith gref, ag awch
 Dialedd, ydoedd yn dychymyg twyll;
 Yn gwau cyfeiliornadau, megys bardd
 Ei gerdd; gan ddarllaw yn eu calon drwch
 Alanas. Unwaith, creulonderau'n byd
 A fuont yma yn syniadau brwnt.
 Daearol ffurfiau yw rhyfeloedd dyn,
 Ar erch eneidiau gawsant yma'u bod.
 Yn mryd meudwyol ddieifl, fel dynolryw
 O fewn y groth, y ffurfiwyd, ac ar fēr
 Eu llid meithrinwyd, holl ysprydion mall
 Erledigaethau pob rhyw oes a gwlad.
 Heb aros eiliad, trwodd elai Baal
 I oror arall. Lletach ganwaith oedd
 Nag anial-dir Sahara: megys haul
 Losgasai'i hunan allan, oedd i nos
 Dragwyddol. Arwydd gwanaidd yn yr Aipht
 O honi gaed: "tywyllwch eithaf" oedd.
 Amddifad oedd ei hwybr o haul a lloer,
 I ddeffro gobaith am oleuni byth!
 Lluosog, megys dail yr Hydref, oedd
 Ei chyfaneddwyr (amlach weithian ynt);
 Y rhai am lawer math o bechod trwch,
 A brofent lawer rhyw o warth ac ing.
 Pob un ei hunan gyda'i bechod byth,
 Mor araf llithrai canrif dros ei ben!
 I'w brofiad aethus, awr yn flwyddyn oedd!
 Eu gorweddfeydd, gan chwys anobaith, oedd
 Yn llaith; a dagrau edifeirwch hallt

A phoeth, fel dafnau môr ar dân, i lawr
 Eu gruddiau dreiglent yn ddibaid, heb neb
 I'w sychu ond yn angerdd syched tost
 A yfent hwy eu hunain. Trwy y fro,
 Er na chanfyddid neb, y crwydrai myrdd
 O seiniau—oll yn seiniau braw a phoen—
 Aflafar, gwallgof, fel y swm o gylch
 Milodfa glywir yn y nos. Fel trwst
 Corwyntoedd hwyrol yn y goedwig fawr,
 Wylofain dwfn, a rhincian dannedd cras,
 Drwy'i nen a dreiddiai. Ocheneidiau fyrdd
 Uwchben a nofient, megys murmur trist
 Awelon cyn y gwlaw, y rhai bob un
 Adroddent hanes enaid mewn pangfeydd.
 Griddfanau glywid, megys twrf y môr
 Ar unwaith sydd yn agos ac yn mhell,
 Am wae rhy ddwfn i eiriau, ac am boen
 A losgai dagrau'n darth, yn traethu byth.
 Gweddient am ddifodiant, heb wrandawwr :
 Eu hebychiadau, megys ffrydiau'n ol
 I'r aig, ddychwelent i'w mynwesau hadl,
 Gan ychwanegu bythoedd at eu hing.

Yn is disgynai drwy agendor erch
 I ëang barth, fel anrheithiedig fyd,
 A dreiddid gan anwadal wyrddlas wawl—
 Goleuni brwmstan, melld, a fflamau pell—
 Ac yn y llewyrch, wedi troi yn warth,
 Canfyddid balchder llawer oes ; fel dydd
 Mewn nos yn darfod, mewn trueni tost
 Ymgreiniau gwychedder halog. Mawrion byd,
 A phendefigion filoedd, yma oedd,
 Y rhai mewn moethau fuont byw yn hir,
 Lefarent eiriau fel taranau croch,
 Gan godi arswyd ar y glewaf wyr,—
 Yn yfed byth o win digofaint Duw.
 Er gwaethaf gwaeau, fel gwallgofiaid mall,
 Ag awch anfarwol pechu wnaent o hyd ;
 A mwyaf bechent mwyaf oedd eu gwae.
 Gan iasau, pryf anfarwol, mor ddibaid
 Ag amser, ysai fēr eu henaid—hwy,

Gan wylo'n dost a thynu gwallt eu pen,
 Fel ar arteithglwyd, yn nghynddaredd poen
 A ymddirdynent. Myrddiwn, yma a thraw,
 Gan ymgorddeddu, oedd yn marw byth,
 A byth yn byw ; er ceisio trengu byth,
 Yn fyw o hyd ; yn nwylaw angeu byth,
 Heb lesmair byth i siomi eu pangfeydd :
 Gerllaw diaffiaid yn nghyfeddach llid,
 Gan estyn bys, a chwarddent am eu pen !

Gan basio'r hyn mewn ymddangosiad, oedd
 Fel glofa'n llawn o weithwyr f'ai ar dân
 Drwy ymgyneuad nwy ; y penrhyn hwn
 Yn llawn eneidiau oedd, ac anadl Ior
 Yn treiddio'n llif o frwmstan drwyddo byth :
 O hono fflamau, mwg, ac ysgrechfeydd
 Ymddyrechent ; ac heb baid afonydd gwyllt
 O dân a phyg i lawr ei ochrau erch
 Ymlifent—Baal gyrhaeddai affwys, oedd
 O wawl angerddol, ac o Dduw yn llawn,
 Lle trigai ofnadwyaeth, llid, ac ing,—
 A dyfnder un yn dibaid alw oedd
 Ar ddyfnder uthr y llall. Clogwyni dros
 Ddyfnderoedd diwaelodion, yno'n mhell
 A ymestynent ; dros ddibynau erch,
 I gyd yn wynias, cellt gadwyni fyrdd
 A grogent—rhai yn dal eneidiau'n gaeth,
 A rhai yn chwareu'n wag sydd heddyw'n llawn.

Gan ymdaith drwy y glyn ofnadwy hwn,
 Gan dân llidiawgrwydd oedd yn ddysglaer byth,
 Cyrhaeddai'r ellyll fangre arall—bro
 Corwyntoedd poethion a thragwyddol storm ;
 Ysprydol fellt, taranau dwyfol lid ;
 Lle disgyn cawod ar ol cawod drom
 O faglau tân a gwlaw o frwmstan byw,
 Heb obaith hindda tra bydd Duw yn bod.
 Yr oror oll, fel byd gan ddaeargryn,
 O'i chraidd i'w nen ymsiglai yn barhaus.
 Cymylau llawn o ddial yn ei hwybr
 A fflamient ; heibio'r rhai, fel crwydraidd ser,
 Mynyddau'n oddeith wibient, ac i lawr

Ymgurent yn falurion. Drwyddi i gyd,
 Brwmstanaidd greigiau, megys gwreichion uthr,
 Gan lenwi'i hawyr gyda mwrllwch hadl,
 A drewiant marwol, hedent. Trwodd ai,
 Gan frysio hyd ymylon llyn o dân,
 A ymgynhyrfai megys môr ar wynt,
 A'i fwg dewychai yr uffernol nos.
 O ddynolryw, ychydig wyddent flas
 Ei ing; oblegyd ieuanc eto oedd!
 Drygioni'r ddaear: ambell un, fel Cain
 A Nimrod, ynddo'n suddo oedd, heb gwrdd
 Y gwaelod er ymsuddo byth. Gerllaw,
 I ogof ddystaw, lawn o ffaidd dawch,
 Neillduai Baal; lle, wedi gadael pawb,
 Yn ol ei arfer ar achlysur dwys,
 I feddwl Satan er ys wythnos oedd.
 Ag awch athrylith rymus—nesaf at
 Hollalluogrwydd—dwys fyfyriai ef
 Oddiar foddhad mewn pechod, ac oddiar
 Elyniaeth dwfn yn erbyn Duw; ac aml
 I ddichell ddofn yn erbyn llwydd ei bobl,
 A llawer cynllun mall i atal rhwysg
 Osêa dynai, gan eu pwyso'n ddwys.
 Ar awr ei feddwl-wewyr, ato Baal
 Yn ŵyl nashaodd.

“Rhynged bodd i ti
 Fy arglwydd frenin,” meddai—“er i mi
 Gofidus ydyw tori ar dy hedd;
 Ond ffyddlaw'n ydwyf i dy orsedd hen,
 Yr hyn yn hyf a'm gwnaeth—i rod-di clust
 Wrandawriad i fy neges drom.”

Y diafl

Goruchaf, ateb wnai yn groch, “Ai da,
 Ai drwg dy newydd, traetha; arnaf fi,
 Dieffaith ydyw siomiant arall.”

“Llawn,”

Llefarai Baal, “o siomiant aethus yw
 Fy nghanadwri. Mwy llwyddiannus yw'r
 Joshua hwn na Moses. Syflyd cam
 Oddiwrth orchymyn ein Gorthrymwr mwy

Na haul o'i rôd ni wna. Ei hudo ef
 A themtasiynau fyddai mor anhawdd
 A denu afon i'r mynyddau'n ol ;
 A chreu tangnefedd yn y fangre hon
 A fyddai'n haws na chreu yn mhlith y bobl
 Wrthryfel dano ef. Ar ol i'r llif,
 Yr hyn a wyddost ti, o'u blaenau ffoi,
 I foli'n Gelyn buont yn ymdroi
 Yn Gilgal enyd ; er's diwrnodau'n awr
 Amrodio maent o gylch ein dinas wych ;
 Yn feddwon gan eu llwydd, eu her i ti,
 A'u dirmyg ar dy hil drwy udgyrn beilch
 A chwythant hwy. Pa beth fwriadant wneud,
 A beth i'w lluddias allwn ninau wneud,
 Nis gwyddom ni; ac at dy fawredd mi
 Anfonwyd i ymofyn. Parod ym
 I weithio ac i ddioddef drosot fwy
 O lawer eto."

Ar ol i'r storm o fewn
 I Satan ferwai wrth y geiriau hyn
 Dawelu, parotoai i ateb—pan
 Gan grynu drwyddo o bryder, rhuthro'n wyllt
 Wnai Chemos atynt. Ebai ef, "Fy nheyrn
 Goruchel, Jericho, dy ddaearol sedd,
 Yn garnedd weithian sydd, a'i phreswylfeydd
 A droed yn feddau i'w thrigolion oll.
 Ysgogi drwy y wlad fel Duw y mae'r
 Joshua hwn; afonydd sydd o'i wydd
 Mewn braw yn ffoi; dinasoedd caerog gwymmp,
 Ddeffroisant syndod llawer oes a hil,
 Ymchwelant yn adfeilion ger ei fron.
 Ei air, fel daeargryn, wasgara wae
 A dinystr; dynion drengant gan ei ofn.
 Pa beth a wnawn—ar frys? Mewn perygl mae
 Dy orsedd; cwmwl ar d'ogoniant fydd;
 Annghofir dy orchestion oll. Y swrth
 Gythreuliaid yma yn ymfoethi sydd
 Yn erbyn ein gelynion anfon di.
 Gwaghaer Gehenna o'i phreswylwyr oll;
 Yn Nghanaan heddyw dylai uffern fod!"

Ar ganol araeth Chemos clywent drwst,
 Fel swn cawodydd cenllysg bras ar ddwfr,
 Neu dwrf crogedig graig yn tori'n fil
 O ddrylliau yn ei chwyp i'r môr—yn wyllt
 At safn yr ogof yna hwy nashaent,
 Lle gwelent yn ngoleuni fflamau prudd
 Drigolion Jericho yn fil a myrdd,
 Gan lanw, fel ymfudol adar, wybr
 Y fro, gan riddfan ysgrechfeydd o ing—
 Yn dymhestl o eneidiau hadl—i lawr
 Yn disgyn i'r diwaelod lyn o dân !

Y diafl goruchaf mewn cynddaredd fud
 A phensyfrdandod syllai arnynt. Fel
 Y peidient, gan feddiannu'i hun, â gwen
 Ragrithiol llefai, ac mewn tôn drahaus,
 "Hawddamor, ddamnedigion ieuaine oll !
 Os pwysig ar y ddaear oedd eich gwaith,
 Ffyddlonach bellach fyddwch nag erioed.
 Manteisio arnoch wnafl, ai yn y byd
 Ai yma b'och; ac amddiffynaf chwi
 Rhag bolltau'n Gelyn mwy. Os du fy sedd
 Cadarnach yw na'i wên orseddfainc Ef.
 A chwithau—Baal a Chemos—ffyddlaw'n ych
 A chyfrwys, ond pryderus iawn a llwfr;
 Ystyriwch hyn, fod digwyddiadau croes,
 Mewn ymddangosiad, er lleshad i ni;
 A byddwch rymus, doeth, a beiddgar byth.
 Gelyniaeth yw ein bywyd ni; a chawn,
 Os collwn weithiau, wrthwynebu'n hyf,
 Cynllunio trais, a meithrin llid at bawb.
 Rhyfelawd ydyw hwn rhwng duwiau glew.
 O dduwiau balch, o arwyr uffern fawr,
 Pa beth deilyngach nag, er cael yn awr
 Ac eilwaith ein gorchfygu, fyddai dal
 I ymladd byth? Os collwn ambell waith,
 Enillwn hefyd; cofgolofnau yw
 Y miloedd beddau yn yr anial sydd,
 Am lawer buddugoliaeth lwyr ar Deyrn
 Y Nef, enillodd ein gwroldeb ni.
 A draethost ti dy chwedl, Chemos, oll?"

Gan foesymgrymu, ebai yntau, "Do,
 Y cwbl, fy arglwydd, onid hyn, mai mwy
 Gorthrymus, hunangeisol, creulawn yw
 Ein Gwrthwynebwr nag erioed yn awr.
 Gogoniant hoffai unwaith; elw byd
 Yn gystal weithian. Mae y genedl ffol
 Yn ymladd drosto ar ei bwyd ei hun.
 Ag ysbail drom, ysblenydd Jericho,
 Gorchymyn roddes na chyffhyrddai neb :
 Mai melltgedig fyddai'r sawl a wnai,
 Gan drawsfeddiannu iddo ei hun y cwbl."

Gan obaith mewn anobaith dwfn a gwae,
 Fel seren wib yn goleu caddug nos,
 Gwynebpryd du y Fall, wrth glywed hyn,
 Ddysglaeriai: yna, gyda newydd aidd,
 Yn ol ar hen gynlluniau syrthiai ef.
 "I'r byd dychwelwch," ebai, "gyda brys
 Yn awr; neshau mae'n buddugoliaeth ni.
 Ysprydoedd llesg eich brodyr codwch chwi,
 I'r Canaanëaid byddwch oll yn nawdd;
 Ac er mai marwol yw'r Joshua hwn,
 Mor ddewr a chyfrwys ydyw, fel y mae
 Anrhydedd cythraul wrth ei drechu ef
 Yn ddyogel. Mynwch chwi ei ben i lawr.
 Yn bendifaddeu hefyd, hudwch ryw
 Israeliad ffol i ddwyn o'r anrhaith glaer
 Yn ol ei raid a'i duedd; yna, myn
 Gehenna fawr, trafferthion newydd gaiff
 Fy Ngelyn; enill Canaan mor anhawdd
 Ag enill uffern iddo fydd. Yn awr,
 Yn ol cychwynwch; ac heb wneuthur hyn,
 Nef sefwch mwyach yn fy wyneb i."

CANIAD VI.

CYNWYSIAD.—Joshua yn anfon ysbiwyr i Ai.—Y fyddin yn
 myned yno.—Ei gorchfygiad.—Joshua yn gweddio.—Yr
 ymchwiliad am yr euog, Achan.—Yr ail ymosodiad ar Ai,
 a'i dinystr.

GAN uno gofal gyda noddod Ior,
 Joshua yn awr anfonodd graffus wyr

I chwilio ansawdd maes y nesaf frwydr;
 Y rhai, 'rol ymdaith drwy fynydd-dir iach,
 Gan yfed iechyd o awelon per
 Chwythasent dros berllanau fil; mwynhau
 Newyddion olygfeydd arddunol, tlws;
 Ymgomio am eu rhiant myg o gylch
 I Ai a Bethel, gan ystyried fod
 Yr hen addewid gawsent hwy yn awr,
 Fel gwanwyn mewn cynhauaf, yn eu hil
 Ar fin ei sylweddoliad; gweled braw'r
 Trigolion iddi'n parotoi y ffordd;
 A sylwi fod cyfenw mir eu glyw,
 Fel enw brenin dychryniadau'i hun,
 Yn deffro aeth yn nghalon plant a gwyr—
 I lawr y daethant ato ef gerllaw
 Carneddau'r ddinas falch oedd iddi'i hun
 Yn fedd heb obaith adgyfodiad byth.
 Efe gyfarchent, "Bechan ydyw Ai,
 A'i phobl yn ddiddim gan ein hofn, a llwfr;
 O'n glewion ni dwy fil neu dair a'i gwnant
 Yn chwaer i'r murddyn hwn." Gan deimlo fod
 Y mil, neu gant, i ganlyn Duw yn fyrdd,
 Cydsyniodd yntau.

Fel torf o ymddifyrwy'r iach,
 Yn llawn o afiaeth, foreu teg o haf,
 A ddringant fryniau'n gwlad, i weled llyn,
 Neu ddibyn aruthr, ogof hen, neu graig,
 A oddiweddir cyn y nos gan storm—
 Ystorm Gymreig, y darau groch, y melld,
 Y corwynt cryf, y gwlaw yn troi mewn awr
 Y ffrwd yn afon, hithau'n fôr o lif—
 Efelly'r fyddin fach hyderus ai,
 Yn hytrach nag i ymladd i fwynhau
 Ei hun, i fyny tuag Ai—yn chwai
 Sydd arni'n troi ei chefn, yn ffoi yn wyllt
 I lawr y goriwaered serth mewn braw
 Ac annhrefn; gan ymdoddi megys cwyr
 Mewn ffwrn, lladdedig hyd Sebarim oedd.
 Pa beth—A beth yw hyn! Alaethus wyrth!
 A welodd amser hen ei bath! A fu

Ei hail yn hanes dynolryw erioed !
 Na môr yn sychu, mwy dyeithrol hyn ;
 A disgwyliasem weled haul y nef,
 Yn gynt na hyn, yn machlud hanner dydd ;
 A'r ser yn gwau drwy'r gwagle megys melt.
 A droes y wybr safadwy'n gwmwl—ddaeth
 Y dianwadal Ior, gan wadu'i hun,
 Ac e bargofi ei lw, yn wamal ddyn !
 Y genedl amddiffynai Duw yn ffoi !
 O flaen yr hon, fel niwl o flaen y gwynt,
 Y ciliai rhwystrau gwrdd ; diflanai balch
 Ddinasoedd, megys muriau ôd mewn haul :
 Y toddai arwyr megys brasder ŵyn ;
 Y crynai uffern hyd ei dyfnaf sail ;
 Y cywilyddai duwiau ger ei bron !
 A ddichon cawrfil rhag gwybedyn ffoi,
 Nag engyl myg o flaen cythreuliaid mall,
 Neu hollalluog Grewr o wyddfod dyn !
 Mor athrist heddyw ydyw'r Nef ! Mor lawr
 O wynfyd gwallgof ydyw uffern oll !
 Joshua yn awr, wrth glywed yn lle bloedl
 Am fuddugoliaeth, ddychrynedig waedd,
 A gweled Israel hyd y bryniau'n ffoi,
 Fel ŵyn rhag bleiddiaid, grynai'n fud a syn.
 Mewn ofn a dychryn syrthiai ar y llawr,
 Fel un a gwympai drwy daranfoltt Duw.
 Ei wisg yn ddarnau rwygai yn ei ing ;
 Yn goron ymostyngiad ar ei ben
 Y dodai lwch yn dew ; mewn nos o wae
 O flaen yr arch ymgreiniaid ddiwrnod hir !
 Ei glaer obeithion, megys breuddwyd mwyn
 Yn deffro'r condemniedig yn ei gell,
 Yn siomiant prudd dröasent. Iddo ef,
 Fel gwlaw o dân i feibion Sodom gynt,
 Annisgwyliadwy oedd gorchfygiad byth.
 Cryfhau, er hyny, 'n raddol wnai ei ffydd ;
 Ac at yr Arglwydd tröai yn gyffrous
 I ofyn eglurhad. Mor ddwys a thaer—
 Mor hyf a sanctaidd—ei ddeisyfiad oedd !
 O weddi'n gynllun erys tra bo haul ;

I'r hon, yr aflwydd hwn, fel pechod dyn
 I angeu'r Ceidwad, yn achlysur fu.
 Penlinio mae—yn awr abwydyn gwan
 Yn nerth y Duwdod yn gafaelyd gawn!
 “Ah!” meddai, “ah, O Arglwydd Ior, pa beth
 Yw hyn a wnaethost? Beth yr awrhon yw
 Dy fwriad at dy bobl—ein gadael byth?
 A ddygaist ni mor bell i'n lladd! Paham
 Na chawsem foddi yn yr afon fawr!
 A gaiff Amoriaid feddwi ar ein gwaed?
 Os rhaid i Israel ar eu galon droi
 Eu cefn, pa beth ddywedaf wrthynt hwy
 A phawb am danat ti? Os collir ni,
 Drwy Ganaancaid mall, pa beth a ddaw
 O'th addewidion, ac o'th enw mawr?
 Gofynir bythoedd, oni ddichon Duw
 Aflwyddo'n llwyr, a dechreu heb gwblhau!”
 “Oddiar y ddaear cyfod gyda brys,”
 Atebai'r Arglwydd; “Israel, nid myfi,
 Dorasant y cyfamod rhyngom oedd:
 O'r diofrydbeth, gan ei wadu'n hyf,
 Dygasant. Weithian, oni lwyr ddilewch
 O'ch mysg yr ysgymunbeth hwn, o flaen
 Eich holl elynion ffoi a raid i chwi;
 Gadawaf chwi—gadawaf chwi am byth.
 Sancteiddia'r bobl; yfory gyda'r wawr,
 Drwy goelbren gwir, myn allan pwy sydd euog,
 A llosg yn dân efe a'i eiddo halog.”
 Yn foreu dranoeth, gyda sanctaidd sel,
 Joshua'n nghyd a alwai'r bobl. Yn awr
 Y safai cenedl euog ger ei fron,
 Gan grynu; yna, drwy y coelbren pur,
 Euogrwydd cenedl wasgai'i hun i lwyth;
 Drachefn i deulu: wrth grynhoi ei hun,
 O! fel dwyshai y pryder; tröai ofn
 Yn wewyr byw, a dychryn yn bangfeydd,
 Fel awel wrth ei gwasgu yn y cwm
 Yn troi yn gorwynt! yna ty o flaen
 Dirprwywr Duw a welwai: yna dyn,
 Garasai i'r ddaear holli dano'n ddwy,

A gurai ei liniau'n nghyd.

Ar ei wamal fryd,
 Mor ddwys yr effeithiasai Baal! Ei waith
 Mor drwyadl wnaethai! Buddugoliaeth fawr
 I Satan weithian a sierhaodd ef,
 A chlod tragwyddol iddo ef ei hun.
 Ha! fantell ddyeithr, symudliwiog, hardd;
 A chwithau—arian swynol prid, y llafn
 O aur, mor braff a phrydferth—dros y Fall,
 Yn erbyn eich Crëawdwr, heddyw'r fath
 Wrhydri wnaethoch! Swyn eich dirfawr werth,
 A'ch lliw cyfoethog, dysglaer, a chyffrous,
 Ar lygaid marwol ddyn, dan belydr cryf
 O uffern, mor effeithiol oeddynt! Blys,
 O bleser golwg, darddai yn y fron;
 Ger bron temtasiwn, mor naturiol yw
 I awydd dwys ymffurfio'n drosedd hyf!
 Brydferthwch, ha! pa fodd y syrthiaist ti!
 Mor bur a dwyfol unwaith oeddit! Merch
 Y wawr, yr hon mor wasanaethgar gynt
 Mewn nef a daear fuost i dy Grewr,
 Pa fodd yn forwyn uffern daethost ti?
 Ac iddi byth ffyddloned wyt! Y fath
 Drueni mewn rhyfeloedd, balchder, lliid,
 Ac eisiau, achlysuriaist yn y byd
 Erioed! Cythreuliaid hebot ti yn hurt
 Oferwyr fyddent. Dychwel tua'r Nef;
 Yr wyt, er cwmpo, 'n angel; rhaid i Dduw
 Dy gael yn forwyn cyn cael dyn yn ol.
 Anwiredd, Achan, heddyw ynot ti,
 Fel henaint gan fethiantwch, gan ei ing
 A oddiweddwyd; ymwallgofi'r wyt
 Yn llyffetheiriau dy ddrygioni trwch.
 Cyflawnaist rywbeth mawr—ofnadwy fawr—
 Yr hwn yn lletach na'r ddaearen sydd,
 Na môr yn ddyfnach, uwch nag wybren, gwaeth
 Nag uffern yw—anwiredd wnaethost ti.
 Un dafn o bechod a bardduai'r Nef—
 A drôai heuliau yn dragwyddol nos.
 Dy drosedd di, er mai abwydyn wyt,

Ei hun, gan ddwyn ar genedl gyfan warth,
 A dorodd ymaith amddiffyniad Ior.
 Mae'n gryf—yn gryfach na phob peth ond llw
 Ac arfaeth Ner. Mwy ydyw ef na phawb
 Ond Duw, a mawr yn ymyl Duwdod yw.
 Buasit ti, heb bechod, Achan, fyw
 A marw mor ddinod a deilen fach
 Mewn coedwig fawr: anfarwol weithian wyt;
 Glŷn wrth dy enw anfarwoldeb gwarth,
 A cholofn dirmyg ar dy feddrod saif.

Ar ol â'r Arglwydd gymdeithasu'n ddwys,
 Joshua'r awrhon â gobeithiol fron,
 Angerddol sel, a phenderfyniad cryf,
 A alwai'r bobl yn nghyd, y rhai bob un
 A ysprydolai gyda ei aidd ei hun.
 Y llwfr yn ddewr a droai ei eiriau byw—
 Y glew yn arwr anorchfygol byth.
 Tywyllwch nos yn gymwynaswr wnaeth,
 A than ei gysgod anfon byddin gref
 Tu cefn i Ai i gynllwyn wnaeth; yr hon,
 Yn anweledig megys barnau'r Nef,
 A dystaw fel marwolaeth, ai yn mlaen
 Yn hyf. Fel nef i galon ambell sant
 Yn disgyn weithiau fydd, ei fynwes ef,
 Yn profi eisoes fuddugoliaeth lwyr,
 Fel môr gan lanw, chwyddai gan foddhad,
 Ac arwain wnai at byrth y ddinas falch
 Ei hunan fyddin lew.

Ar euog lu,
 Felltigaid Aïaid, galanastra trwch
 A wnaethoch. Beth o flaen arfogion Ior
 Yn awr a fyddwch? Niwl, neu ddail o flaen
 Corwyntoedd—brasder ŵyn mewn tân—neu wrid
 O flaen y newyn du. Drygioni oedd
 Eich hamddiffyniad, uffern oedd eich nerth:
 A sefwch chwi yn ngwyneb byddin bur?—
 A saif y ser yn ngwydd yr haul, neu rew
 Yn mhresenoldeb gwres yr hâf, neu hoen
 O flaen marwolaeth? Byddai'n haws i lif
 Y rhaïadr orphwys ar ei daith i'r môr

Nag i chwi mwyach sefyll. Llwyddiant gau,
 Fel buddugoliaeth breuddwyd, oedd eich ffawd;
 Mwynhad gwallgofrwydd oedd eich bloddest oll.
 I maes o'r ddinas, gyda rhwysg a gwawd,
 Fel cwsgrodianwyr at y dibyn serth,
 Hwyr rodient weithian drwy y dyffryn tlws
 I wyneb byddin Duw, yr hon fel cynt
 A ffoai rhagddynt. Ha, pa beth yw hyn!
 A raid i lewod rhag locustiaid ffoi!
 A ymlid chwäon fryniau'r byd i ffwrdd!
 Carlamu mewn cynddaredd ar ei hol
 Mae lluoedd Ai, fel Pharaoh tua'r môr,
 I gwrdd marwolaeth. Megys llawer llanc
 Ar ol tentasiwn tuag uffern, hwy
 Erlynent Israel tua dinystr llwyr.
 Eu glyw, yn ebrwydd, alwodd ar y bobl
 I sefyll oll, ac yna tua'r nef
 Ei waewffon estynodd, gan ei dal,
 I ddwyn ar gof i'r genedl arfaeth Ior,
 A braich haiarnaidd hyd yr hwyr—nes oedd
 Ei holl elynion mewn tragwyddol nos
 Yn huno. Trwy y braich-estyniad hwn
 Cyflawnodd wyrthiau; iddo ei hun a'i lu,
 Hollalluogrwydd dynodd ef yn blaid;
 Gwellhaodd gyflwr dynolryw i gyd;
 Newidiodd hanes creadigaeth Duw.
 Fel gwllith yn ateb gweddi blodau'r maes,
 Neu daran groch yn dylun mellten fyw,
 Neu barch yn canlyn defnyddioldeb pur,
 I ateb braich Osäa, fflamau tân,
 Yn ddysglaer gan ddigofaint Ner, o Ai
 Yn awr ymddyrechent hyd y nen. Y dref
 Addurnol oedd yn oddaeth oll. O'i mil
 Palasau, ariant, gemau prid, ac aur,
 Yn ffrwd lifeiriol, nofiai drwy ei phyrth.
 Yn fwg i'r nefoedd, gan bruddhau eu gwedd,
 Ymddyrchai ei mawredd weithian. Lludw yw
 Y ddinas orwech—iddi ei hun yn warth,
 Yn ffyddlawn dyst i rym tywysog Nef,
 Ac yn esboniad ar lywodraeth Duw.

Angerddol, megys diolchgarwch sant
 Ar drothwy gwynfyd, pan y gwelodd hyn,
 Oedd mawl Joshua. Y fflamau hyn, fel tân
 Y farn, yn nghalon Israel newydd aidd
 Ddeffröent; ond yn nghalon meibion Ai
 Gwallgofrwydd ing a barent. Iddynt hwy,
 Yn awr, y dyffryn ddaethai'n ail i draeth
 Gylchynir amser llanw gan y môr :
 Mewn gwewyr syllent ar fyddinoedd Duw
 Yn cau o'u cyleh fel dau lifeiriant cryf,
 Gorchuddiol, gan eu boddi byth. Pa le
 Y mae eich buddugoliaeth chwi yn awr,
 Ha, lle mae'r argraff ar y tywod wnaed,
 Neu eira'r gauaf cyntaf fu erioed !
 Pa le mae'r gorchfygedig? Mae yn fyw ;
 Fel Hermon, cadarn yw ; a saif ei barch
 Yn hwy na'r ddaear ac yn hwy na'r nef.

CANIAD VII.

CYNWYSIAD.—Joshua yn arwain y bobl i addoli yr Arglwydd yn Moreh. Darluniad o honynt hwy ac o'r fro. Joshua yn anerech y genedl. Efe ac Eleazar yn ymneillduo oddiwrth y gwersyll; pryd, yn nghwrs yr ymddiddan rhyngddynt, yr amlygir amgylchiadau dylynol oes Joshua.

YN awr, Joshua, gyda chenedl fawr,
 Ddiolchgar, hyd rodfeydd y patriarch myg,
 I foli Duw am fuddugoliaeth lwyr,
 Gyfeiriai'n awchus tua Moreh wyrdd.
 Ar ol y rhyfel, melus iddynt oedd,
 Fel porthladd clyd i forwr wedi storm,
 Neu Nef i Gristion wedi perygl byd,
 Cael treulio Sabboth o dangnefedd pur :
 Gan yfed bywyd o'i gymdeithas Ef,
 Ymddadluddedent yn ngwasanaeth Ion.

I'r gogledd du, ymddyrrchai Ebal uthr,
 Deifiedig oedd, heb arno wên blodeuyn
 I aflonyddu ar ei brudd-der byth :
 Yn fryn ysgymun gan fynyddau'r byd,
 Yn nghanol bywyd yn farwolaeth oedd :

Aruthrol, megys cythraul yn y Nef,
 Yn nghanol tlysni oedd—yn ddelw ereh
 O ddialeddol farn. Garizim oedd,
 O drugarogrwyd Ner yn gysgod byw,
 Gyferbyn iddo dan brydfertlawch oll,
 Fel dydd ar gyfer nos, neu fywyd pur
 Yn ngwyneb angeu'n syllu. Gwenai ef
 Drwy flodau filiwn; sudd y gwinwydd chweg
 Eneiniau ruddiau'i ddail; ei lethrau mir
 Ddiferent fêl i lawr, a melus oedd
 Ei wellt. O amgylch-ogylch, aeddfed ffrwyth,
 Ac aeron per, llawryfon merth yr haul,
 Wasgarent beraroglau iachus. Ar
 Wastadedd Moreh—dyffryn maith a bras,
 Yr oedd ei ffrydiau'n llaeth, a'i loew wllth
 Yn neithdar, ledai rhwng y bryniau hyn,
 Fel gofod rhwng yr aswy dorf a'r dde
 Yn nydd y farn—y genedl safai'n nghyd.
 Awyddus oedd i droi'n weithredoedd clær
 Orchymyn Moses; ac ewyllys Duw
 I ordinhadau ac addoliad byw
 Yn awr gyfieithent.

Yno, eu harweinydd doeth
 I godi allor gyfarwyddai'r bobl,
 O "geryg cyfain," megys ag o law
 Eu Crewr y daethent. Poethoffrymau bras
 Yn fuan arni, er gogoniant Iôn,
 A losgent. Cenedl gyfan ar ei gliniau
 O'i hamgylch oedd yn arllwys allan ffrydiau
 O ddiolchgarwch calon lawn a phur.
 Yr hen a'r ieuanc, dewr a llwfr yn nghyd,
 A blygent yno i foli, llawenhau,
 A wylo dagrau melus. Ha! ger bron
 Yr Ior, ymgrymu yn ogoniant sydd!
 Y mwg yn angel dros gydwybod dyn
 I addef pechod, ac yn weddi daer
 Am arall Aberth ddaliai ddwyfol dân,
 Esgynai tua'r Nef. Ac yna ar glaer
 Bileri, deddfau'r Arglwydd oll, y rhai
 O'i natur lân yn adlewyrchiad ynt,

Argraffodd Joshua; fel y gallai'r bobl,
 O'u darllen yn fyfyr, megys grawn
 O syllu arno'n derbyn delw haul,
 Ymlenwi â dylanwad pur; yr hwn
 Yn deml i Dduw a dröai galon pawb,
 A'u hymarweddiad ar y ddaear mwy'n
 Argraffiad newydd o'i ewyllys Ef.

Y genedl oll yn awr ar arch ei glyw
 Yn ddwy ymranai: chwech o lwythau'n drist,
 Fel llesg gymylau llwythog tua'r wybr,
 Gyfeirient tuag Ebal; arall chwech,
 Yn nwyfus fel pelydron huan haf,
 Garizim geisient. Yntau wrth yr arch,
 O ganol Lefiaid myg, ddarllenai'n glir
 Gyfreithiau'r Arglwydd iddynt—melldith drom
 A bendith wên, y gwae a'r gwynfyd oll.
 Mewn iaith arddunol traethai ef, yr hon
 Drwy awyr loew gariai i fynwes pawb
 Syniadau cymysg, braw a hedd yn nghyd—
 Rhy fawr a dwyfol i fy awen wân
 Eu hadfynegi'n llawn.

“Ein hanes ni

A wyddoch,” meddai, “cenedl fawr o ddyn
 A ddygodd Duw; ac erom gymaint wnaeth
 Erioed o wyrthiau, gan ddileu o'n blaen
 Genhedloedd cryfion megys gwybed haf,
 A'n dwyn i ardd y ddaear—gwlad y sydd
 Yn werddlas byth gan fendith gwlyth y nefoedd,
 A llawn o heirdd winllanoedd a dinasoedd.
 Yr ydym heddyw'n bobl i Ior y Lluoedd:
 Barhawn ni felly mewn dedwyddwch bythoedd?
 Pwy wasanaethwn—duwiau y Cenedloedd,
 Y delwau byddar mud, ai Crewr y bydoedd?
 Os arno Ef gwrandawn, gan gadw beunydd
 Ei ddeddfau glan, dyrchafu byth ei glodydd,
 A'i wir addoli gyda goreu calon
 A meddwl sanctaidd, aml fydd dy fendithion.
 Mewn maes a dinas, ffrwythlon fydd dy fru.
 Yn chwareu hyd dy ddolydd, blinion byth
 Gan bwys eu toraeth, defaid bras ac wÿn,

Porthiannus feirch a gwartheg blithion fydd.
 Y ddaear arnat wasanaetha'n hael,
 Ac ar dy ben goludoedd wlawia'r Nef.
 Gelynyon grynant ger dy fron, a gwr
 O honoch erlid fil; ar ddynolryw
 Brenhinol genedl fyddwch drwy y byd."

Amen, ar ol ei eiriau i gyd, oddiwrth
 Y llwythau'n donau o gerddoriaeth ddofn,
 A dreiglai drwy y wybr.

Drachefn llefarai ef,
 "Os duwiau dyeithr wasanaethi di,
 Gan wawdio rhiaint, gwyro barn y tlawd,
 Gorthrymu brawd, neu odinebu'n frwnt,
 Mewn maes a dinas, melltgedig byth
 A fyddi. Bydd dy nef yn bres, dy dir
 Yn haiarn, llwch a fydd dy wlith, dy wlaw
 Yn lludw poeth. Gan newyn tost, bwytei
 Dy blant dy hun. Gan haint, ynfydrwydd trwch,
 Ac ing y goddiweddir di. O flaen
 D'elynyon ffoi'n lladdedig wnai; yn fwyd
 I adar ysglyfaethus bydd dy gorff.
 Dy dai gan ereill drigir mwy; tydi
 Lafuri, arall gasgl y ffrwyth; dy win
 Gan arall yfir; dy ddiadell fras
 Yn wledd i arall fydd; ac arall fyn
 Dy ferched glân a'th feibion gwrol oll.
 I wlad bellenig dygir di yn gaeth,
 Yn was, âg iau o haiarn am dy wddf,
 I arall byddi; ac i bawb am byth
 Yn wawd. Yn lle bendithio, yna Duw
 A lawenycha wrth ddileu o fod
 Dy goffadwriaeth di."

Ar ol y geiriau hyn,
Amen, un modd oddiwrth y bobl i gyd,
 Fel taran fawr, drwy greigiau Ebal oll
 Yn diaspedain oedd.

Drachefn gofynai, "Pwy
 A wasanaethwch? Heb yr Arglwydd, ŵyn
 Yn nghanol bleiddiaid certh, neu ser heb haul,
 A fyddwn: gydag Ef, yn gryf—yn drech

Na byd ac uffern—byddwn. Pwy?"

"Yr Arglwydd Ior,"

Gan lanw Moreh gyda chorwynt cryf
O fawl, atebai pawb.

Oddiwrth y bobl mewn hwyl
Foliannent Dduw, yn awr, a hi'n hwyrhau
Yn hyfryd, yn nghymdeithas cyfaill hen
A phur—Eleazar fyg—neillduai Joshua
I ymgynghori. Gyda chalon lawn
O ddiolchgarwch edrych wnaent yn *ol*;
Yn *mlaen* mewn gobaith syllent. Mil o gofion
Ymruthrent ger eu bron; am uthr helyntion
Yn fwyn chwedleuent; weithian hen beryglon
A droent yn ddedwyddwch pur. Eu hynt
Yn saib-fynydyn mewn rhyfelawd poeth,
Neu awr o Nef yn nadwrdd daear oedd.
Eleazar holai, "Ha! pa le yn awr
Mae Pharaoh, Jericho, ac Ai—eu nerth
A'u balchder! Wele ni yn fyw! Mor dda,
Er gwaethaf ein pechodau, wrthym fu
Yr Arglwydd! Beth a dalwn iddo byth!
Ein gwaith fendithia i gyd; â llwyddiant mae'u
Coroni ein hymdrechion oll."

"Ie," ebai Joshua,

"Hyfrydwch yw gwasanaeth Duw i gyd.
Llwyddiannus lafur ddwg ei draul ei hun;
Mae enill wrth ymdrechu ynddo ei hun
Yn wobr. Cuddiedig waith, fel gwaith y ffrwd
Mewn cwm—ymdrechu aflwyddiannus—dal,
Er gwaethaf gorchfygiadau fil, yn mlaen
I weithio drosto—sydd yn brawf o ffydd,
O fawredd, ac o lewder. Teimlo'r wyf,
Er pan y gwelais wrth Jericho'r Gwr
Ar frys grybwyllais wrthyt, newydd aidd
Yn llanw f'enaid; ato cariad cryf
I waith yn cymhell yn fy nghalon sydd;
I fyw neu farw drosto boddlawn wyf;
Heb argoel llwyddiant gweithiwn drosto oes:
Nis gallaf fyw yn ofer mwy na haul
Oleuo'n ofer."

“Am Dywysog Llu,
 Yr Arglwydd,” eb Eleazar, “er y pryd
 Mynegaist wrthyf, syniais lawer iawn;
 A chefais radd o lewyrch arno Ef,
 Ein gwaith, ein hanes, a llywodraeth Ior.
 Ymdeimlo ’rwyf fod rhywbeth mawr, a mwy
 Nag eto fu erioed, i fod—y rhaid
 I amser esgor ar ddigwyddion mwy
 Nag agor môr na chrëadigaeth mwy,
 A mwy mewn gweithred nag a welodd Duw.
 Pa beth yw’r ebyrth hyn? Boreuol ser
 Yn addaw haul. Yr amgylchiadau uthr
 A welsom ni? Cysgodau pethau mwy.
 Pwy ydyw Prophwyd Moses—Hâd y Wraig—
 Yr Angel—Siloh—Seren Balam? Ai
 Nid awgrymiadau ynt am Rywun mawr,
 Yn ail—os ail—i Dduw yn unig fydd?
 Yr Arglwydd hwyrach, rywbyrd, megys dyn,
 Ymwel â’r byd, gan wneuthur yma waith
 A sylweddola’r ebyrth hyn i gyd.
 Pa beth yw ystyr d’enw di? A wyt
 Yn llon’d dy enw? Ai addewid wyt
 Am uwch Gwardwr? Wyt, er maint dy fri,
 Yn well na gwawr yn rhagarwyddo dydd?
 A! cysgod wyt, er hyny cysgod Duw.
 Oddiwrth yr Arglwydd, awgrym gefais fod
 Ein gwaredigaeth hon, er cymaint yw,
 Yn brophwydoliaeth iachawdwriaeth fwy.
 Tywysog Llu yr Arglwydd ddaw i’r byd
 Drachefn; ac arwain wna o ddyfnach Aiphth
 Ei sanctaidd bobl i Ganaan well na hon.
 Efelly, os cysgodau ydym, gad,
 Fel ei ragluniaeth i gymeriad Ior,
 I ni yn ffyddlawn arwyddluniau fod.”

Drachefn Osëa: “Hoffwn innau fod
 Yn ffyddlawn. Er heneiddio, iraidd wyf
 A chadarn. Carwn fyw i wasgar holl
 Elynion Duw; yn gorwynt drwy y wlad
 Dymunwn symud, hwythau’n us o’mlaen;
 A gwneuthur Israel ynddi’r hyn mewn nef

Yw haul—yn ben, heb neb i anmheu eu hawl
 Mwy nag awdurdod gwynt i chwythu. Mae
 Ein gwaith yn fawr, a llawer iawn o dir
 I'w enill eto feddwn. Creulawn yw'n
 Gelynyon megys eirth, ac aml fel gwlyth ;
 Fel gwlyth o flaen yr haul, er hyny, hwy
 O'n blaen ddiflanant. Canu'n iach â Gad,
 Manaseh, Reuben, gaf, hyderu'r wyf,
 Ar fedd y Canaanëad olaf byth ;
 Ac yna i farw boddlawn fyddaf fi."

"Nid boddlawn pawb—nid boddlawn Duw—
 Atebai'r archofferiad. "Byw i ti [fy mrawd,"
 A raid i ddwyn o Gilgal arch yr Ior
 I Siloh brydferth ; ac i ranu'r wlad
 Rhwng llwythau Israel mewn cyfiawnder llawn—
 Wrth fodd y ddaear ac wrth fodd y Nef ;
 A throi'n amaethwyr hyfedr yn y tir
 Y crwydriaid hyn a wnai—y caethion tlawd
 Yn genedl anrhydeddus yn y byd.
 Cyflawni hefyd arall waith, yr hwn,
 Fel daeargryn yn hanesyddiaeth gwlad,
 Fuasai yn amgylchiad mawr mewn oes
 Cyffredin ddyn ; cadwasai'i enw byth
 Yn nghof dynoliaeth ; yn dy fywyd di
 Blodeuyn mewn gardd flodeuog fydd, neu don
 Yn nghanol tonau'r aig : pennodi wnai
 Ddinasoedd nothdfa i'r amryfus lofrudd
 I ddianc iddynt rhag y gwaed-ddialydd.
 Fel teimlem ni 'r ol cyrhaedd drwy y môr
 Ei ofn a'i bryder ef, o bob rhyw lwyth
 Ac oes i gyd ddiflanant yn eu pyrth ;
 I lawr eistedda i dynu anadl rydd,
 I sychu chwys ei ludded a'i bangfeydd,
 A lleddfu awch ei friwiau. Ynddynt hwy,
 Mor gu a pharchus fydd dy enw byth !

"Yn mhellach, os priodol yw i mi
 Ymofyn, beth o'r Lefiaid ddaw? Y mae
 Yr Arglwydd ini'n etifeddiaeth lawn :
 A raid, er hyny, i etholedig lwyth
 Y genedl etholedig, heb yr hwn

Y byddai Israel heddyw megys dyn
 Heb synwyr ynddo—megys byd heb haul—
 O fewn i Ganaan heb gartrefle, maes,
 Na dinas aros. Byw i ddarpar wnai,
 Yn ol gorchymyn Ner, ar gyfer llwyth—
 Rhwng Nef a daear sydd yn gyfrwng byw,
 Dros genedl euog faidd i wyddfod Ior—
 Ddinasoedd a phentrefol faesydd iach;
 Fel gall drwy'r wlad wasgaru sanctaidd wawl,
 A chadw'n bur addoliad Duw o'i mewn;
 A lle y megir Lefiaid ieuainc coeth
 At waith goruchel; lle offeiriaid hen
 I orphwys ymneillduant ar ei ffordd
 Oddiwrth yr arch i gysegr purach, uwch.”

“Am arall waith arddunol wrthyt ti,
 Fy mrawd, disgwylia nef a daear—llyfr
 Cyfartal mewn gwirionedd ac awdurdod
 I lyfrau Moses. Cynwys gwyrthiau'r cyfnod
 O'i drawssymudiad ef—meddianniad llwyr
 Y wlad, ei rhaniad rhwng y llwythau (gwaith
 Rhy fawr i angel yn ei nerth ei hun;
 I ti, drwy lygaid Duw edrychi, hawdd)
 Gweithredoedd dyn, a rhyfeddodau Ior,
 A myrdd o amgylchiadau dyeithr iawn—
 Hyd at dy ymadawiad di a wna.
 Er mai meddiannu Canaan yw dy waith
 Goruchaf, troi y rhwystrau wnai yn llyfr—
 Y fuddugoliaeth yn frawddegau ter;
 Yn eglurhad ar ragluniaethau Nef,
 Yn amddiffyniad i gymeriad Duw,
 I'w enw fydd yn gân o foliant byth.
 Yn etifeddiaeth anllygradwy, fawr,
 I ddynolryw cyflwyni ef; a bydd
 Ei eiriau dwyfol yn ysprydion oll
 Y rhai a dreiddiant awyr daear mwy,
 I wasgar bywyd drwy bob gwlad a hil,
 I newid anian pechaduriaid mall,
 I greu o newydd gymeriadau fyrdd,
 Deffroi addoliad mewn calonau hadl,
 I feithrin gobaith, ymlid dychrynfeydd,

A nefoleiddio hanesyddiaeth byd.
 Ac yna machlud megys haul a wnai,
 I adgyfodi mewn gogoniant mwy."

Ap Nun atebai, "Am dy addysg ddofn
 Diolchgar wyf. Tydi, yn byw o hyd
 Yn mhorth y Nef, wyt imi'n llygad clir—
 Yn enau Duw. Ei nerth, os caf o'm plaid,
 Dy awgrymiadau yn weithredoedd oll
 Yn ebrwydd droaf. Darfod mae y dydd;
 Gad ini weithian at y bobl neshau."

CANIAD VIII.

CYNWYSIAD.—Duwiau Canaan drachefn yn anfon i annwn i ofyn cyfarwyddyd. Darluniad o'r llys uffernol ac o Satan. Yr ymgynghoriad — ei araeth ef.—Belial—Mammon—Belzebub—Moloch : y penderfyniad.

Ar ol distrywiol ddarostyngiad Ai,
 A llwyr ddiddymiad cynghor cyfrwys Satan,
 Gan fraw a gwarthrudd daliwyd Duwiau Canaan.
 O fewn y wlad, arswydent aros mwy :
 I wÿdd eu teyrn, anturio'n orchfygedig
 Yn fwy a ofnent. Felly, yn grynedig,
 Mewn cyfyng-gynghor, penderfynu wnaent
 Fod rhai i aros ac i wyllo'n graff,
 A'r lleill i uffern fyned gyda brys,
 I ymgynghori â'r goruchaf ddieifl.
 Yr olaf fintai dan arweiniad Baal
 A Chemos, hyd eu llwybrau hen ac uthr,
 Ddisgynent adref yn bryderus iawn.

Yn awr, â'r Fall cwrddasant yn ei lys,
 Lle bu cynnifer ymgynghoriad dwys
 Yn erbyn Nef a daear, dyn a Duw --
 Pa fodd dyrysid arfaeth ddofn y naill
 Drwy hudo'r llall i bechod ac i wae.
 O fewn dirgelfa annwn, ger y pwll
 Diwaelod, safai'r neuadd hon, ag oedd
 Yn anferth mewn eangder, megys plwyf
 O'r byd i ddistryw ymsuddasai'n nghyd.
 Y ceugant hwn, i ryngu bodd eu Glyw,

A siomi awch anobaith a phangfeydd,
 Mewn oesoedd maith, o greigiau marmor cellt,
 Yn gaboledig a naddasai dieifl.
 Ei nen yn werddlas fel y wybren oedd ;
 Ei ochrau, fel y wybr o flaen ystorn,
 Yn gochion oeddynt, pruddaidd, a chyffrous ;
 A'i lawr yn wÿn—yn eirias wÿn i gyd ;
 Ac arno llwyfan, megys hanner lloer,
 Godasid, äang fel y llys ei hun ;
 Ar hono'n nghanol eisteddlëoedd fil
 Y safai gorsedd—ddysglaer fyth gan dân.
 Ar ol ymddiddan dwys â'r duwiau hyn,
 Y rhai yn awyr eu cynhenid fro
 Yn ddiafliaid gloewddu droisent, gyda bloedd
 A dreiddiai drwy ddrewedig dawch y byd
 Ysgymun, megys corwynt cryf—y Fall
 Yn nghyd alwasai'i senedd. Eistedd wnai
 Alltudiaid Nef—penaethiaid uffern fawr—
 Beelzebub, Moloch, Belial, Asmodeus,
 Astaroth anllad, Mammon, Chemos, Baal,
 Ac ereill fyrdd o bendefigion coll,
 Yn ddu—mor ddu a pharddu oedd pob un—
 Fel syniad brwnt mewn sancteiddiedig fron,
 Ar seddau eirias-wynion weithian oll.
 Hwynthwy, yn wastad mewn dirdynol ing,
 Yn ddyfnach heddyw drwy ddiweddar siom
 Yn mustl trueni, ffugient gellwair mall,
 A difaterwch balch ; ond, ambell waith,
 Cyfodai poen i'w gruddiau'n ddugoch wrid.
 I gyd yn flaenion crëadigaeth Duw,
 Mawreddig oedd eu gwedd ; ond yn eu plith,
 Fel Wyddfa'n mysg mynyddoedd Cymru Wen,
 Eisteddai Satan ar ei orsedd fawr,
 Yn fwy na'r cyfan ac yn uwch ; mewn nerth,
 Athrylith, llid, drygioni, urddas, gwae,
 Aruthrol oedd. Ond olion llawer storm,
 Fel ar y Wyddfa, a llawer gauaf blin,
 Oedd arno yntau erbyn hyn. I'r hyn
 Fuasai unwaith wrth orseddfainge Ior,
 Ha, mor wahanol oedd ! Gan bechod, llid,

A saethau'r Hollalluog ynddo byth
 Yn nglyn, anesmwyth oedd a chreulawn; gwyllt
 A chuchiog, fel tymhestlog wybren, oedd
 Ei wedd. Ymnewidiasai eira'r Nef
 Yn huddygl hadl. Troasai'r brydferth wawr
 Yn erchyll nos i gyd.

Oddiar ei orsedd fân,
 Yn gydamserol â'r cynnulliad mwyn
 Yn Moreh, codai Satan. Ebai ef,
 "Chwi dywysogion fy ymerodraeth fawr,
 Gwrandewch fy llais. Yn barod yn ein llys
 Goruchel hwn, gorchestion claer, y rhai
 Yn rhyfeddodau bydoedd weithian ynt,
 A gynlluniasom ni. Cyffelyb waith,
 Er cynydd clod i chwi, a chadarnhad
 Fy ngorsedd inau, ger eich bron yn awr
 Osodaf. Afraid eich hysbysu chwi,
 Mai'n erbyn Gelyn hen a chryf, yr hwn
 A fynai arnom unwaith fod yn ben;
 Ac am anturio o honom fod yn rhydd
 I feddwl, teimlo, siarad, ac i wneud
 Yr hyn a fynem, fel y gweddai fod
 Ysprydion, i'r anialwch hwn o dân
 Alldudiodd ni—y galwyd chwi yn nghyd
 I ymgynghori. Hyny byth ar fâr
 A synwyr diafliaid fyddai yn sarhad.
 Y mae ein calon ato Ef mor lawn
 O lid ag ydyw'r fangre hon o ing;
 Cymhesur yw'n digllonedd a'n pangfeydd.
 Wrth fyw ar wae, cynyddu, megys ofn
 Ar berygl, mae'n casineb: byddai'n haws
 Diffoddi'r tân anniffoddadwy hwn
 Na diffodd angerdd ein llidiawgrwydd ni!
 Cashau'n Gorthrymwr yw ein bywyd mwy;
 Ac wrth ddyrsu ei amcanion trown
 Yr eirias hon yn nef. Os cariad yw
 Egwyddor wreiddiol ei lywodraeth Ef,
 Ac os o hono ni'n amddifaid ym,
 Ni allwn gydgashau; dialedd fydd
 Yn rhwymyn cydweithrediad rhyngom byth;

Ac mewn gelyniaeth 'rydym ninau'n un."

“ Yn lle ymosod ar ei freiniau Ef,
 Amddiffyn ein buddiannau raid i ni ;
 I drawsfeddiannu ymhyfhau yn awr,
 A pharotoi y mae. Er mwyn ei bobl,
 Ysgymun gan genedloedd daear oll,
 Bwriadu mae ddileu yn llwyr o fod
 Y Canaanëaid—ffyddlaw'n ini erioed,
 Ein cynddrychiolwyr oeddynt yn y byd,
 A rhoddi'u gwlad, yn drefedigaeth gref
 O uffern sydd, yn llawn o wych ddinasoedd,
 O aur a gemau, gwenith, a gwinllanoedd,
 Ac anifeiliaid bras, i'r genedl hon.
 O honi rhanau iddi'n feddiant llwyr
 Yn barod sydd ; barhant hwy byth ? A gaiff
 Fföedig gaethion berchenogi'n tir,
 Gan fathru'n pobl i'r ddaear megys llaid ?
 A ddichon annwn oddef hyn yn hwy ?
 Yn ol ei awydd gaiff Osëa hyf—
 Gweinidog gwas—yn frenin Canaan fod ?
 A allai Moloch felly'n hwy barhau
 Yn gythraul ? Ni—mor lawn o rym a llid,—
 Y mae dialedd ini oll yn wledd,—
 Y rhai a feddwn nerth a glewder sydd
 Yn gymaint a'n gelyniaeth—oddef hyn ?
 Collasom unwaith ; buddugoliaeth glaer
 A gawsom ar ein Gelyn ganwaith. Pan
 Y gwnaeth y ddaear mewn prydferthwch, hedd,
 A golud, yn bellenig barth o'r Nef ;
 Yn dalaeth o drueni troisom hi ;
 Banieri uffern ar ei thyrau i gyd
 Yn chwareu heddyw sydd. Gynnifer mil
 O weithiau wedi hyn y teimlodd nef
 A daear effaith ein llidiawgrwydd ni :
 Griddfanau myrdd o'r genedl sanctaidd sydd
 Yn bêr gerddoriaeth yn ein clustiau'n awr !
 Mae gwrthwynebu ynddo ei hun yn wobr :
 Pe collem, colli beth a wnaem ? Dwyschau
 Ein gwarth, neu'n gwae, i lid y Teyrn trahaus
 Yn ormod sydd. Anfarwol ydym oll,

A byw a fyddwn er ei waethaf byth.
 Ai uffern gollem? Pwy feddiannai hon!
 Lle bynag yr alltudiai ni, gan ddwyn
 I'n canlyn iddo ing a phechod, creu
 Yn ebrwydd ynddo uffern newydd wnaem.
 Llesteirio rhwysg Joshua ac Israel raid:
 Pa fodd—ystyriwch, traethwch chwi.”

Gwallgof ysgrechfeydd

Ar hyny fyrddiwn, fel taranau croch,
 Yn erbyn Duw ac Israel, ac o glod
 I Satan, rwygent awyr dew y byd
 Melltigaid. Fel tawelai'r storm o wŷn,
 Cyfodai Belial, yspryd cyfrwys, coeg,
 I anerch Cyngethernan gyda moes:—

“Fy nheyrn urddasol,” ebai ef, “a chwi,
 Arglwyddi breiniol coll a gwae, o chaf
 Eich caniatad, yn awr fy meddwl ar
 Y mater pwysig hwn a draethaf. Ail
 Mewn llid at Dduw, casineb at ei bobl,
 A dirmyg at yr honwr balch Joshua,
 Nid wyf i neb o honoch. Mae fy mron
 O aidd gelyniaeth fel y môr yn llawn;
 Ac fel y môr dygyfor mae am làn—
 Am làn dialedd cyflawn arnynt oll.
 Yn unig hoffwn iddi ymddyfnhau
 I gynwys mwy o lid; a mwy o nerth
 Ddymunwn feddu, fel y gallwn lwyr
 Ddileu oddiar y ddaear epil Abraham;
 A dwyn i annwn orsedd Ior ei Hun.
 Anwylach imi na fy mywyd yw
 Anrhydedd uffern, ac amddiffyn raid
 Y Canaanëaid. Credu hefyd 'r wyf
 Yr araeth hyawdl gawsom gan ein Glyw;
 Er hyny cofio gyda dychryn'r wyf
 Ein tost orchfygiad yn y Nef. Mewn brwydr
 Agored trechaf fu, ac hefyd fydd,
 Ein Gelyn; ac os llwyddo fynwn, rhaid
 Ar hen gynlluniau ini syrthio'n ol.
 Cyfrwystra, fel arferol, gyda thwyll
 Yw sail ein gobaith. Hudo Israel wnawn

I bechu—drwy odineb megys cynt,
 Drwy wrthryfela'n erbyn Joshua,
 Drwy briodoli buddugoliaeth Ai
 I'w nerth eu hunain—yna'r Ior i ni,
 Gan mor awyddus am ogoniant yw,
 Adawai'r cyfan yn ysglyfaeth hawdd.
 Drygioni yw ein haul ; os pechod fydd
 Oruchaf ar y genedl, Satan fydd
 Yn frenin arni ; delir hi gan nos
 O wae a gwarth ; a llenwir annwn oll
 Gan ddydd o lwyddiant maith. Fy nghyngor i
 Yw hyn—y Gibëoniaid, fel i mi'r
 Hysbysodd Baal, drwy dwyll ag Israel ynt,
 Er's dydd neu ddau, mewn cyfamodol hedd :
 Pan wyddant hwy pwy fyddant, cyfle gaem
 I gymhell, fel dyledswydd, ladd yr holl
 Hocedwyr hyn : yr eiliad hono, Duw'n
 Ddinawdd adawai'r trawsfeddianwyr hyn ;
 Cynhyrfu'r Canaanëaid yna wnaem
 I gyd, fel gwr, i lwyr ddileu o fod
 Y genedl hyf, a llonydd ganddi gaem.”
 Gan ymgyfodi, ebai Mammon draws,
 “O uffern ac o Belial, teilwng yw
 Y cynllun hwn. Er cymaint yw ein llid,
 Ein nerth, a'n glewder, mewn agored faes
 Y gwaethaf gawsom, ac a gawn ni byth.
 Trwy ddoeth ystrywiau malais buom ni'n
 Fuddugwyr, ac y byddwn mwy. Y fath
 Fuddugoliaethau gawsom ni erioed !
 O'r deyrnas hon yn dalaeth daethai'r byd
 O flaen y diluw ; gymaint drwy y llif
 Cynhyrfus hwnw lanwodd annwn fawr !
 Yn Sodom eilwaith, ein hymroddiad ni
 A chwythodd lid y Nef yn dân ; a bu
 Yn agos iddi losgi'i hun yn fwg,
 Gan adael yn ei grëad Ef ei hun
 Ein hen Orthrymwr yn gardotyn tlawd.
 Gorchestion dysglaer wedi hyny fyrdd
 A wnaethom ; ond, er hyny, credu'r wyf
 Fod llithio'r genedl, er gwamaled yw,

I bechu heddyw'n ormod pan y mae
 Helbulon Achan ar ei chof mor fyw.
 Addoli mae â sanctaidd zel o hyd ;
 Ac oeri'i chariad fyddai mor anhawdd
 A rhewi'r tân anniffoddadwy hwn.
 Cynghori felly'r wyf, i anog holl
 Drigolion Canaan fyned at Joshua'n nghyd,
 I roddi'u hunain ac i roddi'u gwlad
 I fyny iddo ef, gan addaw bod
 Yn ufudd weision iddo—mai eu hoedl
 Yn unig geisient. Ar anrhydedd Ior,
 Eu hunain felly fwrient ; lladd mewn gwaed
 Oer genedl gyfan fyddai'n ormod gwaith
 I yspryd llwfr yr Israel ; hyny byth
 Yn gwmwl fyddai ar ogoniant balch
 Ein Gelyn. Yna i gyfathrach mall
 A'r genedl orthrymedig, gan ymroi i
 Addoli'i duwiau, ac i bechu'n wyllt
 Drwy lawer ffordd, ymlithrai'r sanctaidd bobl.
 Y Canaanëaid, megys gwenwyn cryf
 Mewn gwaed, effeithient ar ei bywyd oll,
 Gan droi mor ddu a hwy eu hunain bawb.
 Enillem felly fuddugoliaeth ddwbl :
 Heblaw ein hen gynghreirwyr, Israel gaem
 Yn weision byth ; a dwyn oddiar yr Ior
 Yn llwyr ei genedl gyfamodol wnaem.”
 Beelzebub, yna, yspryd dig, trahaus,
 I ateb hyn gyfodai, ebai ef,
 “Ar gof i ti, urddasol deyrn, a chwi
 Gynghoriaid annwn, carwn weithian ddwyn,
 Mai am ffyddlondeb i'r orseddfainge hon
 Y dyoddefa'r Canaanëaid hyn.
 Paham o'u gwlad yr amddifadir hwy ?
 Esgusawd hyf ein gelyn ydyw fod
 Ei genedl foethus hon mewn angen gwlad.
 Pa hawl yn Nghanaan fedd ? Pa hawl, er mwyn
 Y naill, i ysu cenedl arall fedd ?
 A sonir mwyach am drugaredd Ior !
 Cyfystyr, fel yn uffern, yn y Nef
 Yw gorthrwm a chyfiawnder. Onid oes,

Pe hawl a feddai, lawer ffrwythlawn wlad
 Yn ffau i lewod ; llawer goror fras
 Y mae ei chynyrch, fel y ffrydiau i'r môr,
 Yn faeth i'w chalon hi eu hun yn troi ;
 A chyfandiroedd gwag o ddynolryw—
 Mor wag a'r fangre hon o saint ! Paham
 Nad yrai iddynt hwy'i anwesog bobl !
 A ! ymosodiad arnom ni yw hwn ;
 A thrwy amddiffyn Canaan gallwn ddal
 I fyny urddas annwn. Ofer iawn,
 Er hyny, ini ar agored faes
 A fyddai cwrddydd Gormesdeyrn y Nef :
 Ymostwng fyddai yn ynfytach fyth ;
 Ac anog y trigolion wneuthur hyn
 Ar synwyr diaffiaid fyddai yn sarhad
 Tragwyddol. Beth ennille ni ? Ar falch
 Arglwyddi, ddylanwadai caethion tlawd ?
 A ddylanwadodd Israel ar yr Aipht ?
 I lawr, ac nid i fyny, megys gwlaw,
 Nid mwg, y cerdd dylanwad. Doethach f'ai
 I'r Canaanäaid drwy ddirprwyaeth gref
 Gyfarfod Israel ; yna cynyg rhan
 O'u brodir iddynt ar amodau prid :
 Blinedig ydynt, ac awyddus iawn
 I orphwys ; gydag awch derbynient hyn.
 Ein holl gynghreirwyr gedwid felly'n fyw ;
 Anrhydedd uffern hefyd fyddai'n glaer ;
 Ac yna'n genedl gref, y ddwy yn un—
 Yn un mewn iaith, mewn gwaed, a phechod oll—
 Ymdoddent. Gyda brys anghofient Dduw ;
 Dan faniar Satan ymfyddinent byth."

Ar hyny, Moloch, gyda gwedd gyffrous,
 Gan fwrw ar y cynghor guchiog drem,
 Gyfodai i siarad, ebai ef, " Paham,
 I gyndyn ddadleu ac i ddangos dawn,
 I dreulio'n ofer amser prid ; gan ro'i
 I'n galon hamdden i feddiannu'r wlad,
 I lwyr ddileu oddiar y ddaear brif
 Ffyddloniaid abred, ac i ddwyn i warth
 Tragwyddol fyddin Satan, yma'n hwy'r

Ymdrown! A dröwyd cyfrwys ddiefl yn blant?
 Ai doe y cloddiwyd uffern? Lle mae hen
 Athrylith annwn? Oni wyddoch chwi,
 Mai amod fawr meddianniad Canaan yw
 Difrodi'r Canaanäid? Sawl can' waith,
 O'r Aipht i Ai, ar Israel gwasgwyd hyn!
 Goresgyn Nef can hawdded fyddai i ni
 Ag iddi hi heb hyn feddiannu'r wlad.
 Y duedd leiaf at heddychiad wnai
 I Ior ei gadael yn ddinodded byth.
 A hyn, gythreuliaid cegrwth, moethus, llwfr,
 A wyddoch chwi. Pa beth, ond esgus dros
 Ddiogi, ydyw eich hyawdledd gau!
 Mor hawdd areithio rhagor ymladd yw!
 Ein hunig obaith yw agored frwydr;
 A gobaith feddwn; losgodd nerthoedd gwrdd
 A glewder uffern ymaith? Raid o flaen
 Dynionach crwydraidd i gythreuliaid ffoi?
 Mae genym fwy na gobaith—sierwydd llawn—
 Am fuddugoliaeth gyda bythol glod.
 Pe trengai gobaith, creai ynom fwy—
 Anobaith. Pwy o flaen cynddaredd iach
 Anobaith safai byth! Arosweh chwi,
 Os mynwch, yma; nid arosaf fi:
 Lle mae fy nharian! Ha, fy nghleddyf gwych,
 Ar waed Osäa falch y meddwaf di!
 Cyn colli Canaan, colli Moloch raid
 I Satan.”

Fel enaid mynydd llosg,
 Gan wasgar gwreichion byw o lid, i ffwrdd
 Efelly aeth. Ar hyny, llefai'r Fall,
 “Darllenaf ar eich gwedd fod barn y llys
 Uffernol heddyw'n blaid i Moloch oll.
 Dylynwch ef, dywysog dewr, i gyd,
 A'i arch cyflawnwch. Na oddefwch mwy
 I Israel foethus fwyta wrth eu pwys
 Y Canaanäid. Cesglwch hwy yn nghyd
 O'r holl daleithiau i derfynol frwydr;
 Eu balchder, aidd, gwladgarol serch, deffrowch.
 Cyffrowch eu grym a'u glewder; trowch eu llid

Yn dân. Mewn dial a chreulondeb, gwnewch
Bob gwr yn gythraul. Ond yn gyntaf oll,
Amcaned pawb i ladd Joshua hyf."

CANIAD IX.

CYNWYSIAD.—Llwythau Deheuol Canaan yn ymgasglu yn nghyd i frwydr—Araeth Adonizedec. Joshua yn arwain Israel i'w cyfarfod—ei gyfarchiad ef. Yr ymladdfa gerllaw Gibëon. Yr Arglwydd yn gwlawio ceryg o'r nefoedd ar y Canaanëaid. Joshua yn gorchymyn i'r haul a'r lleuad sefyll. Symudiadau dilynol Israel—yn dinystrio gweddill y Canaanëaid yn Merom. Diwedd.

YN forwyn Nef, Gehenna weithian ddaeth,
Ag arfaeth Ior y cydweithredai'r Fall.
Trwy ddëau Canaan, yn brophwydi twyll,
Ellyllon grwydrent megys haint, y rhai,
Gan wasgar anystyriaeth dros y wlad,
Caledu megys ithfaen galon pawb,
Ynfydu penaduriaid, swyno pobl,
Drwy addaw iddynt fuddugoliaeth lwyr,
Gyffröent fyrddiwn i agored frwydr
Yn erbyn Israel. Trwy y mynydd-dir,
Awelon uffern ac ysprydiaeth dieifl
A lanwai'r wybren, ac a anadlai pawb ;
Yr hon, yn falais ac yn llid ei hun,
Yn mhob ryw enaid dyn ddeffröai lid,
Gelyniaeth, hunanhyder, a dialedd,
Gan angerddoli glewder i gynddaredd.
Ar awgrym brenin dinas wedi hyn
Gollfarnodd Dduw mewn enawd i warth ac ing,
Gwrrywiaid Tarmuth, Eglon, Lachis, Hebron,
Anaciaid gwrdd ac esill Arba wron,
I gyd adawsant drwy uffernol reddf
Eu tir a'u gwaith, eu tai a'u plant, yn awr ;
Ac fel afonydd yn y môr yn nghyd
Yn Salem y cwrddasant. Salem, A!
Pa fodd difwynwyd di! Pa fodd y troed
Dy enw gwyn yn gelwydd du!
Adonizedec fawr
I'w hanerch yna godai ; ebai ef,

Amoriaid dewr, hawddamor ichwi oll !
 Gwahoddais chwi i gydystyried beth
 Yn ngwyneb trais yr Israel wnawn. Trwy fil
 O gysylltiadau'r ydym ni yn un—
 Mewn gwlad, buddiannau, iaith, a gwaed yn un—
 Ein gwlad erioed fu Canaan : fydd hi byth ?
 Neu gaiff y crwydriaid dirmygedig hyn
 O honi ein hysbeilio, gan ein lladd—
 Ein hysu ymaith megys pryfaid nos
 Yn ysu aeron gardd—o lwyth i lwyth ?
 Mewn golud, nerth, a glewder, arnynt hwy
 Rhagorwn ni yn fwy na Chanaan ar
 Deyrnasoedd daear : ffy eryrod beilch
 Rhag gwybed mân—arglwyddi myg o flaen
 Caethweision tlawd ? Darllenaf ar eich gwedd
 Na fynwn ein gorchfygu byth. Yn awr,
 Gan hyny'n gyntaf ar Gibëon lwfr
 I'w throi yn garnedd ymosodwn ni ;
 Oddiwrth y twyllwyr, meibion rhagrith ddu,
 A drigant ynddi, 'n gwlad lanhawn. Fel mellt
 Ar warthaf Joshua a'i ysgymun wyr
 Oddiyno syrthiwn ; Gilgal drown yn fedd
 Ar unwaith i'r gwehilion hyn."

Yna'r tryblith hwn
 O ddynion dröai'n grëadigaeth hardd—
 Yn fyddin drefnus, fawr, a phybyr. Dan
 Ei thywysogion—Debir, Hoham gawr,
 Japhia, Piram, ac yn benaf oll
 Penadur Jebus—megys llif o lid
 Ysgogai at Gibëon.

A Joshua, ar ol
 Prydnawnol aberth, hwyrddydd teg o haf,
 I'w babell yn neillduo, ato daeth
 "Yn fôr o chwys" genadwr. Ebai ef,
 "Ymdywallt arnom, fel gwlawogydd trwm,
 O bob cyfeiriad mae yr Hethiaid. Mur
 Difwlch yn ebrwydd fyddant hwy o'n cyleh ;
 I'n hachub tyred—tyred gyda brys."

Ag ef yn ystyr hyn yn ddwys, yr Ion
 Lefarodd wrtho, "Dos ac achub wyr

Gibëon. Deuaf gyda thi. Yn awr
 Dy alon roddaf yn dy law; a bydd
 Eu gwlad gyfoethog ichwi'n feddiant byth."
 Fel adsain udgorn adgyfodiad, drwy
 Bob clust a chalon treiddia'r newydd hwn
 Yn chwai. Ar hyny'r gwyr o ryfel oll,
 Yn llawn, fel cwmwl tew o wefr, o aidd
 Beiddgarwch, gan grynhoi o gylch eu glyw,
 A ymgynhyrfent megys tonau'r môr
 O amgylch craig. Ond ar ei annaid ef,
 Y môr dawelai—dan ei benaeth dewr,
 Pob llwyth yn nghyd ymwasgai'n dyn drwy reddf
 Gwroldeb; ymnewidiai'r dorf yn gad
 Rëolaidd, lawn o obaith ac o rym.
 Ar hyny'r cyfan dan gysgodion nos
 A gydysgogent at Gibëon brudd,
 Yn benderfynol fel corwyntoedd gwrdd
 Yn ddystaw fel cymylau'r wybr, yn bur
 Fel tyrfa o angylion, ac mor chwim
 A mellt. A hwy yn agoshau, y wawr
 Drwy dew dywyllwch, fel addewid Duw,
 Ymwithiai; ymddeffröai'r byd, a chân
 Boreuol adar weithian ar eu clust
 Yn ber ddisgynai. O ddyffrynoedd llaith,
 Cymylau, megys apostolion gwae,
 Yn fusgrell draw esgynent tua'r nen;
 Ac yn arwyddlun o'i thrueni dwys,
 Uwchben Gibëon crogai mwrlwch prudd.
 Ar arch ei glyw y fyddin yno safai:—
 "Ar ddechreu gorchwyl mawr ein heinioes," meddai,
 "Yr ydym—gwaith a benderfyna byth
 Ein tynged ni a'n hil—a newid drefn
 A hanes dynolryw i gyd. Islaw
 Gibëon, gorwedd byddin fawr o wyr
 Cyhyrog, ail i Anac yw y cwbl,
 Erioed yn filwyr, amled ynt a gw lith,
 A llawn creulondeb megys bleiddiau'r hwyr;
 Er hyny pechadurus ynt, a barn
 Yr Ior yn crogi uwch eu pen. Nyni,
 Os llai mewn rhif a medr, yn ffyddlawn, dewr,

A sanctaidd ym—yn etholedig bobl
 Yr Arglwydd oll. Cyn tyr y wawr drachefn,
 Try gwawr ein llwyddiant ni yn ddydd ; hwyntwy
 Yn feirwon fyddant ; ninau oll yn fyw—
 I fyw yn Nghanaan ; felly byddwch chwi
 Yn lew, hyderus ; gyda ni mae Duw.”

Fel llain o amser rhwng drygioni dyn
 A gwae tragwyddol, hirtain fryn islaw
 Gibëon rhwng byddinoedd dig yn awr
 Ysgarai. Un, 'r ol rhedeg drwy y nos
 Dros fryniau cribog ac afonydd dwfn,
 Yn llawn o hoender ydoedd ; teithiai heb
 Ddiffygio ; megys eryr cryf, ei nerth
 Mewn llafur adnewyddai ; nwyfiant iach
 Diball a dreiddiai heddyw drwyddi oll.
 Y llall dreuliasai lawer awr o'r nos
 Mewn gloddest, meddwdod, a rhialtwch brwnt,
 I enyn, fel y tybiai, aidd ei llid,
 Ei grym, a'i glewder. Gan belydrau'r haul
 Deffroid hi'n swrth a blin, er hyny'n llawn
 O fâr a hyder. Megys milod ar
 Y mynydd llosg yn ymfrashau o flaen
 Ymrwygiad erch, gwroniaid Amor oll
 Yn awr, yn fwy o ddefod nag o raid,
 Ymwisgent mewn llurigau tew, y rhai
 I'r llawr lethasent gawri'n dyddiau ni,
 Gan ymarfogi gyda gloewon fwyll,
 Cleddyfau llym, tarianau, gwaewffyn ;
 Yn llu afrifed, bostfawr, ymneshai
 At byrth Gibëon, gan enllibio dyn
 A chablu Duw. Mor fuan ! A ! pa beth
 Yw'r annhrefn, gwae, a dychryn sydd yn dal
 Y fyddin falch ! A welwyd boreu teg
 Yn troi ar unwaith yn tymhestlog hwyr ;
 Neu wryf ar hirddisgwyliedig ddydd
 Yn cwrdd ag angeu yn lle priod-fab ;
 Neu ryw athrylith fawr dan orwel prudd
 Gwallgofrwydd yn machludo ? Felly'n ngwydd
 Arfogion Ior, y Canaanëaidd lu
 Yn hurt, grynedig safai ; gwyneb pawb

Gan fraw yn gwelwi ; glin yn erbyn glin
 Yn curo ; megys myrdd o feddwon, troi
 Oddiamgylch wnai yn serfyll a chyffrous,
 Gan riddfan allan ysgrechfeydd o ing.
 Yn ddiarwybod gwaewffon a chledd
 Ollyngai milwr ar ol milwr, gan
 Yn unig ddal, drwy anianyddol reddf
 Yn hytrach na gwroldeb, darian drom
 Yn erbyn Israel weithian. Hwy, fel llif
 Yn dryllio morglawdd, gan ysgubo o'i flaen
 I ddinystyr bobpeth, ar eu galon ruthrent,
 Y rhai wasgarent, ac o'r byd ymlidient.
 Gwroniaid dan eu traed yn gyrff a fathrent ;
 Fel brwyn o flaen llifogydd certh, cadrodau
 A blygent ger ei bronau ; si picellau,
 Y rhai a wibient fel cenadon angeu,
 A bloedd gorfoledd ac â thost riddfanau,
 A ymgymysgai. Joshua wibiai fyth,
 Yn wisgi megys angel er yn hen,
 Fel yspryd hollbresennol drwy y llu,
 Gan greu anfarwol yni yn ei wyr.
 Ac er fod eira einioes ar ei ben,
 Yn nwyfus-wrol, megys ieuanc lew,
 Gan dynu, fel ei gysgod, ar ei ol
 Farwolaeth, treiddiai gyda'i gleddyf llym
 Drwy fywyd dynol ; adwy fawr a dorai
 Yn mur ei alon bob anadliad dynai.
 Y Canaanäid, er yr anrhaith fawr,
 A ymddangosent yn ddirif o hyd.
 Ar ganol nawn, yn wallgof am eu hoedl
 I bob cyfeiriad hwy ddechreuent ffoi.
 Awenig, A ! mor egwan wyt yn awr !
 Darlunio'r encil gyda'r braw a'r ing
 Sy'n ormod iti byth. Barddoniaeth sydd
 Yn llai na rhyddiaeth yma. A hwy yn ffoi,
 I Macedah rhai, ac i Azecah rhai,
 Yn ngoriwaered mawr Beth-horon, llais
 Jehofah mewn taranau rwygai'r wybr,
 Yr Hwn ar hyny, 'n llif o ddwyfol lid,
 A fwriodd arnynt gawod drom na bu

Ei bath erioed, na bydd ei bath drachefn,
 Yn wlaw o geryg mawrion—wyrth ddiail
 Yn hanes gwyrthiau drwy lywodraeth Ion !
 Pob dafn yn faen, pob maen yn angeu oedd.
 Os ffoi a fynent, arnynt tröai Duw
 Gyflegrau'r nef, y rhai mor chwim a mellt
 Ddanfonent ar eu holau belau byw—
 Pob pel yn waed-ddialydd, ac mor lawn
 O fustl marwolaeth ag yw mynwes dyn
 O gariad at ei einioes. Hawdded fyth
 I'r Hollalluog yw distrywio dyn !
 Mewn maes a ffordd yn feirwon gorwedd wnai
 Y Canaanëaid weithian : lluoedd Ner
 Yn fyw ac iach a orfoleddent oll :
 Mwynhau dialedd allent hwy yn bur.

Er dinystr dyn, ac er dialedd Duw,
 O h'r Amoriaid, luosoced oedd,
 Eu bywyd eto llawer mil fwynhai.
 Yr huan hefyd is y gorwel pell
 Yn araf suddai ; amser nid oedd mwy
 I ladd y gweddill o elynion Ior.
 Wrth ganfod hyn, a zel gogoniant Duw
 Yn ysu'i galon megys tân, Joshua
 Ymdeimlodd, fel am ddiffanedig wynt
 Teimlasai anian, hyd yn ngwraidd ei fod ;
 Ei fron gan ddymuniadau dycithr hyf
 A chwyddai megys môr ar storm. Wrth feddwl
 Fod cyfoeth Ior, fel golud aig i gwmwl,
 Yn feddiant iddo, ymwrolai 'i ffydd
 I wneuthur ar y ddaear newydd waith,
 A gofir gyda syndod yn y Nef ;
 Ac mewn hollalluogrwydd gafael wnaeth,
 Fel bachgen gwan yn llywodraethu mellt.
 Ar ol dirwasgiad, dros ei wefus bur,
 Fel creigiau fflam o enau mynydd llosg,
 Y geiriau hyn drwy'r llu yn fyw a phoeth
 A dreiddient—“ Aros yn Gibëon, haul ;
 Yn nglyn Ajalon, aros dithau loer !”

I ryfyg gwyllt, mor debyg ydyw ffydd !
 Ac at wallgofrwydd, gyfagosod yw

Doethineb! Felly'r weddi hon, mor ffol,
 Rhyfygus, ac mor ddwyfol yw! Yr hon,
 Gan roddi saib i'w effeithioldeb ef,
 Hyd lwybrau BYDDED deithiai; ar ei hol
 Mewn llewyg esmwyth crëadigaeth Duw
 Adawai. Rhybudd ar bellebyr cryf
 I galon fawr naturiaeth sefyll oedd.
 Yn barlys drwy ewynau bydoedd treiddiai.
 Gorphwysai pendil trwm bydysawd; safai 'i
 Olwynion cudd, a'i fysedd weithian oll.
 Yr haul ar archiad rhaglaw Ior arosai;
 Y ddaear megys troell yn syn lonyddai;
 Ac amser hen am unwaith ar ei ffordd
 I dragwyddoldeb, megys llif i'r môr,
 Ym Gronodd; yn genadon at y nos,
 I'w chadw gartref yn ei theyrnas utlr,
 Y ser yn ol brysurent megys melt.

Joshua, Ha! yn wyrth y gwyrthiau byth
 Dy weithred heddyw erys; ac yn mhlith
 Gweddïau dynolryw dy weddi gref,
 Fel mynydd bàn yn nghanol brynïau mân,
 Yn amlwg mwy i dragwyddoldeb fydd.
 Mae'r grëadigaeth yn dy law i gyd;
 A chreu a wnaethost ogoneddus ddydd!
 Tydi dy hunan yn anwylyd Duw,
 A syndod engyl wyt; ac aros byth
 Yn arwr dynolryw a wnai. Ha, ffydd,
 Pwy wyr dy nerth! Mae'r haul i ti yn was!
 Mae'r llif yn sefyll ar dy amnaid gref!
 Y grëadigaeth wrendy ar dy lais!
 A Duw ei hunan yn dy law y sydd!
 Ymestyn dros y ddaear, hyd y Nef,
 Ac ogofeydd diwaelod uffern, mae'th
 Ddylanwad. Anfeidroldeb wyt mewn tŷ
 O bridd; troi pryf yn hollalluog 'rwyd!
 Pa beth o'th flaen yw llygredigaeth oes?
 Yr hyn o flaen corwyntoedd ydyw niwl.
 Ac annuwoldeb cenedl ffy o'th wydd
 Fel barug nos o flaen pelydron haul.
 I orphen dial ar eu galon trwch,

Yr Israel weithian gawsent hamdden lawn.
 O'u blaen, fel crwydraidd adar haf o flaen
 Tymhestloedd gauaf, hwy ddiflanent oll.
 Wrth weled duwiau addolasent cy'd—
 Yr haul a'r lloer—i'w herbyn hwy yn troi,
 Gan newydd ing—anobaith dyfnach—llu'r
 Amoriaid ddaliwyd. Trengu ynddynt wnaeth
 Eu hyspryd ; marw'n awr yn fwy na byw
 Ddeisyfent. Hyny gawsant oll : haul oes
 Cenedloedd lawer cyn yr hwyr—fath hwyr—
 A fachludasai mewn tragwyddol nos.
 Ac yna'n drefnus byddin Duw y lluoedd,
 Gan sathru'n drwm ar yddfau balch freninoedd,
 Arweiniai Joshua hyd Macedah drist,
 Yr hon yn chwaer i Jericho a wnaeth ;
 Yn mlaen drwy Libnah, Lachis, Gezer ffol,
 Y rhai ar unwaith i'w trigolion mall
 Yn feddau droes. Yn mlaen, fel engyl barn,
 Drwy glaer ddinasoedd—Eglon, Hebron fawr,
 A Debir—teithient, gan eu gadael oll
 Heb yadddynt neb yn tynu anadl mwy.

Y wlad i gyd, o Gosen hyd Gibëon,
 O Gasah gadarn hyd yn Cades dirion,
 Oſdan lywodraeth angeu'n fynwent fawr
 Adawent. Weithian, mewn gorfoledd iach,
 Gorfoledd oedd i Dduw'n ogoniant pur,
 Yn ol i Gilgal—ac yn ol yn iach
 I gyd—y fyddin etholedig ddaeth.

Yn awr gorphwysent ; melus oedd eu hun ;
 Ond hun llosgfynydd cyn ymrwygiad oedd,
 Neu hun weniaethus anian cyn ystorm.
 Mewn rhos a mynydd drwy y gogledd-dir,
 Afrifed lwythau enwog iawn erioed,
 Breninoedd cryfion, tywysogion glew,
 Yn weddill mawr, fel gweddill dynolryw
 Ar ol cyflogiad Sodom ddu, barhaent
 O'r Canaanëaid fyth yn fyw, yn ddewr,
 Ac arfog. Fel llifogydd gwlad ar ol
 Y gwlaw yn cwrdd yn nyfroedd Merom oll,
 Tyrfaoedd weithian ar dorfeydd o bob

Cyfeiriad, byddin ar ol byddin fawr
 Yn dylun brenin ar ol brenin hyf,
 Dan Jabin falch, yn erbyn cenedl Ior,
 I ymladd yno gyfarfyddent. Gwyr
 Mor aml a thywod, meirch porthiannus fyrdd,
 Cerbydau chwai dirif, mewn rhwysgfawr drefn,
 Am arch ddisgwylient i waredu'r byd
 Oddiwrth yr Israel. Yna at ei was,
 I'w galonogi fel arferol, Duw
 Yn ebrwydd ddaeth. "Nac ofna'r bobloedd hyn,
 Joshua," meddai Ef, "yfory hwy'n
 Lladdedig roddaf o dy flaen i gyd.
 Llinynau garau'u meirch fel gwellt a dori,
 A'u balch gerbydau megys carth a losgi."
 Efe a'i wyr, yn fyddin bybyr, wisgi,
 Ar hyny arnynt, fel y gawod drom
 O dân ddisgynodd ar Gomorrah hadl,
 Yn sydyn ac yn ysol gan ddileu
 Y cwbl ruthrasant. Megys us o flaen
 Corwyntoedd Hydref, diflanasant hwy.
 Yn angel dinystr pob Israeliad oedd;
 Erlidient fföaduriaid dros y wlad;
 Coedwigoedd dwfn a chymoedd pell archwiliant;
 I ogofeydd anhygyrch angeu gludent,
 A'r Ganaanëaidd hoedl o fod ymlidient.
 Yn lludw sych—yn wawd i wyntoedd nen—
 Gadawsant Hasor; drwy'r dinasoedd oll,
 Fel marwol bla, neu awyr afiach, hwy
 Ymdreiddient. Bywyd gwyrdd yn mlaen—yn ol
 Marwolaeth oedd. Y blwydd a'r canmlwydd oed,
 Rhieni, plant, a phawb—yn feirwon oedd:
 Mor lân oddiwrth Amoriaid ag yw'r Nef
 Oddiwrth gythreuliaid weithian oedd y wlad.
 Ar ben yn awr mae gwaith Joshua, yr hwn
 Erioed a bennodasid iddo, at
 Yr hwn o'r groth y cymhwysasid ef;
 A mawr, bendithiol, gogoneddus yw—
 Heb gymhar iddo'n hanes dynolryw.
 Crewr amgylchiadau, nid créadur, oedd:
 Trwy anhawsderau uchel fel mynyddau,

A thrwy beryglon aml fel gwllith y boreu,
 Yn wrol, doeth, a ffyddiog, aeth yn mlaen.
 Ewyllys Duw a gorchymynion Moses
 I gyd drawsffurfiodd yn hanesiaeth eres.
 Gelynion Israel, fel bwystfilod nos
 O flaen yr haul, giliasant rhagddo ; beddau
 I falch freninoedd fwy na thri o ddegau
 A gloddiodd ef. Paradwys Canaan oll,
 O fynydd Halac yn ystlysau Seir
 Hyd fro Baal-Gad yn nglyn Libanus bell,
 Ei dēadelloedd bras, perllanau per,
 A golud maith o wenith ac o aur,
 A wnaeth yn gartref ac yn feddiant llwyr
 I genedl Ior. Fel haul ar wybren las,
 Ar nawnddydd tawel, safai ef yn awr—
 Yn arwr myg, anwylyd Nef, a dyn
 Edmygir gan y ddaear byth. Yn ol
 At ddwyrain oes, ni wêl un cwmwl tew
 O anufudd-dod, hunanoldeb, trais ;
 Ac at orllewin bywyd, eiliw tawch
 O bryder nac o ofn nid oes ; ei wybr,
 Gan bur obeithion a thangnefedd sydd
 Yn hyfryd-ddysglaer hyd orseddfaine Duw.

OTHNIEL.

PARCH J. J. ROBERTS (*Iolo Carnarvon*).

M A R W N A D

ER COFFADWRIAETH AM

IEUAN GWYLLT, IOAN PEDR, MYNYDDOG,
A TREBOR MAI.

ANWYL bedwar ! rhy anwyl i beidio
Gofidio'n fythol o'u hôl, ac wylo :
Ah ! mae y Wasg mewn du yn ymwisgo,
A'r Pwlpud astud a'r llen ddu drosto ;
Ac ar ein Llwyfan mae'r dagrau'n llyfo ;
Y Gerddfa enwog ga'i hir ddifwyno—
Cadair Addysg sy'n cydarwyddo
Ein llym drychineb,—llwm yw drych hono,
A gwag, fel unig ogo',—er dysgwyl,
Nid yw yr anwyl IOAN PEDR yno !

IEUAN GWYLLT i'w drwmgwsg aeth,
Oedd arwr y Gerddoriaeth ;
O'i ol ef i ddaear-lwch,
MYNYDDOG ai mewn heddwch—
MYNYDDOG—y mwyneiddiaf,
Oedd a'i wên fel nawnddydd hâf :
O fysg iaith ei wefus gu
Dyfyrwch fa'i 'n diferu,
Fel llawen wybren Ebrill—
Hapus hoen oedd yn mhob sill ;
A THREBOR aeth ar aball—
Bedwar, naill ar ol y llall :
Aethant i'r wlad rad, rydd,—hwy weis anwyl,
I gadw gwyl yn mron gyda'u gilydd.

Och ! athrist wlad fy nhadau,—a'i arnat
Ti, mae dyrnod angau
I fod byth?—amddifad bau,
Ai ni bydd it, ond beddau ?

▲ thi'n wag—myn'd mae'th enwogion—o hyd,
I amlhau dy feirwon ;
Athrylith fawr ! yr awr hon,
Aeth arall o'th ferthyron.

IOAN PEDR.

IOAN PEDR iawn fedr a fu—" yn oracl,
A'r Ddaearg Cymru"—
Fu was ffyddlonaf Iesu,
A roed yn y beddrod du !

Bardd, awdwr, ieithwr, darlithydd—ydoedd,
A chadarn athronydd :
Un o'i fath fel hynafiaethydd,
A dyn o'i fwy'n mhob dawn, ni fydd.

Ti, Fala glasurol, gai'r fraint a'r mwynhad
O warchod ei febyd ar aelwyd ei dad ;
Ychydig feddylit fod cymaint o rin,
Bryd hwnw yn rhoddi ei bwys ar dy lin !—
Fod un a gyfodai rhyw ddydd oddi rhwng
Olwynion melinau a thwrw celf flwng,
I eistedd yn Nghadair dy Goleg mawr-waith,
Yn ddoethawr mewn gwyddor—yn athraw mewn iaith ;
Er nad oedd yn amlwg, bryd hyn, pa ryw lwybr,
Gymerai 'i athrylith—môr, daear, a'i wybr ;
Etto yr oedd arwyddion teg yn awr,
Y byddai ef yn rhyw gymeriad mawr.

Mae canol fyd, oes, rhyngom ni a'r nef,
Nad yw cynefin pawb a'i fywyd ef :
Byd mawr y meddwl yw—y llyfrol fyd,
Lle mae athrylith farw'n byw o hyd !
Wel, yma byddai ef yn aml, aml iawn,
Yn symud wrtho' hun hyd feusydd dawn ;
Gan felus ddal, am lawer awr yn nghyd,
Gymundeb ag ysprydion pena'r byd.

Yn wir, nid oedd masnachaeth gwlad na thref,
Yn denu fawr o'i fyfyrdodaeth ef :
Ar gyfundraethau uwch y rhodda'i fryd,
Ac egwyddorion gwell nag eiddo'r byd.

Rhyw lais o'i fewn oedd wrtho'n bythol ddwedyd—
Rhyw ddirgel law oedd yn ei dywys hefyd,
I'r fan lle'r oedd y llwydd a'r fendith hawddgar,
Yn aros ei athrylith ieuanc, weithgar.
Ond nid mewn swydd, na masnach, na chelfyddyd,
Nac un o ddyledswyddau geirwon bywyd ;
Eithr yn mhlith mawrion wirioneddau gwyddor.
A'r ieithoedd sydd i'w hystorfeydd yn agor ;
Ac yn y lèn a'r ddysg oruchel hono,
Oedd reidiol er ei lawn a'i lwyr gymhwysu,
I droi'n ngwasanaeth Cysegr Duw Gorucha',
Lle hefyd trôdd yn ffyddlawn i'w ddydd ola'.

Yr ydoedd rhwng ei grud a'i gynar fedd,
 Neu'r "Ysgol wlad," a'r Broffeswrol sedd,
 Agendor fawr, i'w llenwi i fynu'n dyn,
 Cyn caffael ffordd i g'wrdd a'i lwyddiant gwyn ;
 Yr hyn nid oedd i'w wneyd heb lafur mawr,
 Gwroldeb llew, a phenderfyniad cawr—
 Heb yspryd megys y llifeiriant cryf,
 A weithiai 'i ffordd drwy bob rhyw rwystrau'n hyf.

Ystoriwyd ei feddwl â ffrwythlawn athrylith,
 Awchlymwyd â chyfiawn uchelgais ei fryd ;
 Arfogwyd ei yspryd â phenderfynolrwydd,
 I'w gweithio hwynt allan er gwaethaf y byd ;
 Oedd unplyg ei feddwl, oedd ganplyg ei yni,
 Oedd gadarn ei obaith, didroi ar ei hynt :
 Nid pluen oedd ef elai' lawr gyda'r afon,—
 Nid deilen a siglai pob awel o wynt.

Uchelgais bur oedd ei uchelgais ef,
 Ag ynddi lai o'r byd nag oedd o'r nef ;
 Nid aur, nid clod, awdurdod, enw, bri,
 Yn benaf oedd ei hoff wrthddrychau hi :
 Ond trysor mwy—mwy mewn parhad a gwerth,—
 A bywyd uwch—uwch mewn mwynhad a nerth—
 Y bywyd hwnw mewn gwybodaeth sydd,
 'R awyrgylch moesol, golau, tawel, rhydd,
 Lle taena'r yspryd ei adenydd ffraw,
 I hedeg mewn eangder di-ben-draw.

Gwybodaeth garodd er ei mwyn ei hun.
 Ac nid er mwyn pob peth â hi sy'n nglŷn.
 Er mwyn y nef o'i mewn ag sydd i'r bryd,
 Er mwyn y lles weinydda hi i'r byd ;
 Meddianodd hon, a chadd ei huwchaf le,
 Ond nid hon chwaith yn unig gafodd e' ;
 Can's nid yw hi yn absenoldeb Rhin,
 Ond talp o rew ac hunangarwch blin—
 Fel goleu'r lloer yn gwneyd y nôs yn glir,
 Ond heb y gwrês sydd yn ffrwythloni'r tir ;
 Ond Rhinwedd a Gwybodaeth y'nt yn nghyd
 Fel haul yn gwawlio a gwresogi'r byd,
 Bu felly ef—dan urddau'r ddwy yn nghyd.
 Ond, wele, ef a gafodd etto fwy,
 Fe gafodd grefydd i addurno'r ddwy ;
 Troes hon yr oll y medrai erddo fyw
 Yn llesiant dyn ac yn ogoniant Duw.

'R oedd crefydd bur a'i egwyddorion iach
 O dan y fron a sugnai Ioan bach ;
 A ddarfu iddo gyda'r maethawl li',

Ddim sugno peth o'i naws a'i hyspryd hi ?
 A oes dim oll mewn crefydd mam neu dad,
 Faidd natur ei drosglwyddo' lawr i'w had ?
 'Roedd rhywbeth tlws a derch yn John erioed,
 Na chaid yn mhob rhyw fachgen bach o'i oed.

Mor brydferth y caid delw'r tair yn nghyd,
 Yn cymysgliwio yn ei wyneb-pryd :
 Pan yn y Pwlpud glwys fe wisgai'i wedd,
 Arddunol ddifrifoldeb fel y bedd ;
 Ei lygaid oe'nt yn edrych fel y sêr,
 Yn llawn o sobrwydd, santaid, tawel, têt ;
 Pan wenai—gwenai'n dyner, mwyn, a blydd,
 Fel haulwen hâf ar orwel hwyr y dydd ;
 Ei dalcen oedd fel t'wyniad haul ar lyn,
 Neu wrid y wawr ar graig o farmor gwyn ;
 Ni phaintiai'n iawn, neb llai nag angel gwyn,
 Y dwyfol-bêr adlewyrchiadau hyn.

Ei enaid ef sychedai'n forau, borau,
 Am feddu y llenyddol agoriadau,
 Sydd yn dadgloi hynafion cenedlaethau,
 A thafu gwawl ar ddefion y cynoesau :
 Drwy ddrychau iaith ceir ambell drem ryfeddol
 Ar bethau sydd dan niwl y pell orphenol :
 'Roedd ef am gael mewn agwedd ymarferol
 Yr hyn, gan rai, sydd ond yn feddyl-ddrychol :
 'R oedd am gael iaith mewn sain ar ei wefusau,
 Ac nid ei chael mewn dim ond mudion eiriau—
 Nid iaith ei fam, can's hono oedd o'i febyd,
 Mewn syniad, serch, a sain, yn feddiant hyfryd ;
 Ond ieithoedd y clasurol wledydd mawrion,
 Ynt fagwrfëydd y celfau a'r gwyddorion.

Ac, wele, ef yn awr ar ddwyn y bwriad,
 Oedd dan ei fron i gyflawn ymarferiad ;
 Ond, pwy oedd idd ei gynal ar ei daith ?
 A oedd rhyw law oludog wrth y gwaith ?
 Nac oedd, yn wir, na chymorth gan un dyn,
 Na dim ond ffrwyth diwydrwydd boreu'i hun.

Ond, dacw ef yn hoglanc ystwyth, mein-hir,
 Yn myn'd ar hynt drwy wledydd y Cyfandir,
 I gasglu o drysorau eu prif-ieithoedd,
 A dysgu eu parablu'n rhwydd a chyhoedd ;
 Ni fu ei daith 'r un fath a threigliad chwim,
 Y gareg tua'r pant, heb gasglu dim ;
 Eithr fel y belen eira ar y waen,
 Yn myn'd fwy, fwy, fel treiglai rhag ei blaen ;
 Nid cwrwgl y pysgotwr oedd efe,
 Yn chwilio dim ond glanau ebyr tre' ;

Eithr llong yn myn'd i gyrau'r gwledydd pell,
 A dwyn yn ol ei marsiandïaeth well ;
 Gwenynen oedd, byth ar ei haden fflwch,
 Yn casglu mêl, a'i ddwyn yn ol i'w chwch.

Ymdeithiai drwy'r Cyfandir wrtho'i hun,
 Heb gâr na chyfaill, na chymdeithas un
 Ar a adwaenai ef, na chyfoeth chwaith—
 Gwarcheidwad, na dyddanydd ar ei daith ;
 Nac unrhyw nawdd, ond dirgel nawdd y nef,
 A'r grefydd ddug o gartref gydag ef,
 Fe'i cariodd hon ef drwy'r cyfandir mawr,
 Yn mlaen ac 'n ol mor bur a'r forau wawr ;
 Mor ddiogel a phe buasai odditan
 Y gronglwyd a'i cysgodai 'n febyn gwan—
 Mor hapus a phe buasai gyda 'i dad
 Yn canu mawl yn un o demlau 'i wlad.

Wel, dyma ef yn dychwel
 Yn ol o'i feiddgar daith,
 A'i dafod dysgybledig
 Yn gartref pedair iaith ;
 A'i gôf a'i 'sgrifell hefyd,
 Fel dwy ffynonell glir,
 Yn llawn o draddodiadau,
 A henafiaethau'r tir.

A chelloedd ei ddarfelydd
 Yn llawn o olygfeydd,
 Y tir clasurol hwnw ;
 Lle unwaith bu rodfeydd,
 Offeiriaid a Phrophwydi,
 Dyhewyd, Cerdd a Chân ;
 Sydd fyth â'u henwau'n loew,
 Fel sêr y nefoedd lân.

Ond er y meddai ef athrylith rymus,
 Gwmpasog, fywiog, weithgar, a chynyrchus,—
 Athrylith oedd, fel y diemwnt garw,
 Ag eisiau 'i thrin a'i gwnéyd yn llyfn a gloew.

Yn Ngholeg y Bala, lle'n ebrwydd yr aeth,
 Perffeithiwyd ei arddull—cabolwyd ei chwaeth ;
 A'r us gyda'r gwenith oedd dŵr ar y llawr,
 Roed dan oruchwyliaeth y wyntyll yn awr :
 A'r rosyn ar frigyn y berth oedd yn hardd,
 A wnaed drwy wrteithiad fel rhosyn yr ardd,
 A firwd ei athrylith chwanegodd mewn 'stôr,
 Nes myned yn afon cyn cyrhaedd y môr.

Canys yma ein hefrydydd aeth i fysg
 Celf, gwyddor, iaith, a holl adnoddau dysg,
 Efyddai'n llwyr y clasurion maith,
 A glynu wnaï fel gele wrth y gwaith :
 Ni threuliai ef yr un hamddenol awr,
 I eistedd mewn segurddod gwag i lawr,
 Eithr tynu wnaï nes oedd ei 'stên yn llawn,
 A llawer dysg yn cyfoethogi 'i ddawn ;
 Trysorfa oedd o ieithoedd meirw a byw—
 Yr ieithoedd gynt drosglwyddent feddwl Duw
 Allweddau aur dadgload Dwyfol lôn,—
 Gryw, Hebraeg, Lladin, a'r Sanscritaeg hên ;
 Prif ieithoedd byd, moesgarwch, celf, a threfn—
 Ysbaenaeg, Ffrancaeg, a'r Eidalaeg lefn ;
 Prif ieithoedd holl wyddonau'n daear ni—
 Almaenaeg gref, Saesonaeg fawr ei bri ;
 Ar hên Gymraeg—yr hênaf iaith yn fyw—
 Iaith calon bardd, iaith natur—Crefydd—Duw !

Yn awr daeth duwies Haeddiant,
 Heb ddim a'i cedwai draw.
 O brif-athrofa Llundain fawr.
 A'i choron yn ei llaw,
 Nid coron oedd o flodau,
 Fel un Olympia gynt ;
 Ond coron urdd, nas dryllia gyrdd.
 Nas gwywa haul na gwynt :

Ac ar ei ben ai rhoddes,
 Gan ddweyd "fy anwyl wâ .
 Wyf yn dy urdd-aelodi di,
 A'th alw i blith fy nhrâs ;
 Dos rhagot fy eneiuiog.
 Yn ngyrfa llwydd a chlod,
 O'm trysor I, i'th wisgo di
 Mae coron uwch i ddod."

Aeth rhagddo mewn dawn a dysgeithiaeth—ai fywyd,
 Os bywyd o ymdrech, oedd fywyd o hedd :
 Caed calon y Coleg, a chalon yr Eglwys,
 Mewn gwenau yn t'wynu o hyd ar ei wedd :
 Daeth llwyddiant a haeddiant, ill dwy rhwng eu breichiau,
 I arwain eu mab proffeswrol i'w sedd ;
 Ond Ow ! pan oedd ddysglaer ei ddydd ar y nawnlin,
 Machludodd ei haulwen yn nh'wyllwch y bedd !

Ow ! Gymru wen,
 Ymdaenodd cwmwl uwch dy ben.
 A'th holl obeithion aeth dan len :
 Mor ddu yw'th nos ! heb seren dloes
 I ysgafnhau dy drymllyd nen.

Pa beth a ddaw
 O f'anwyl wlad? Pa ddirgel law,
 Sydd arni'n dwyn ei siom a'i braw?
 Ow! mae ei Llên-ogoniant hên
 Bron dianc dros y mynydd draw.

Prudd adgofion, trist fyfyrion,
 Golygfeydd diobaith llwyr,
 Drwy fynwesau yr Efyrdwyr,
 Megys trwm gymylau'r hwyr,
 Sy'n tramwyo; O! mae yno
 Galon dan ei phoenus glwy,
 Am na welant 'r hwn a welwyd
 I'w haddysgu fythol mwy.

'Roedd ei hawddgar ostyngeddwrwydd,
 A'i addfwynder pêr ei swyn,
 A'i fawr allu i gyfranu
 Addysg i'w efrydwyr mwyn,
 Wrtho 'n enill eu hymlyniad,
 Braidd na charent ôl ei droed.
 Ni wnaeth Jonathan a Dafydd
 Garu yn fwy pur erioed.

Os edrychwn i Bwlpudau
 Annibynol Cymru'n awr,
 Gwelir rhai fu dan ei addysg
 Ynddynt yn brophwydi mawr;
 Gwisgant ddelw'r addysg hono,
 Ac nid hono'n unig chwaith,
 Eithr delw ei ddwfn ddyhewyd,
 A'i ddifrifwech gyda'r "gwaith."

Hyfrytaf faes ei lwydd a'i lafur ef
 Oedd Eglwys Dduw—y Zion ddaeth o'r nef;
 Ar yr hwn faes am lawer blwyddyn hir
 Bu'n gweithio, fel un garai'r gwaith, yn wir,

Cadd y fraint o ddewis Iesu,
 Ac o ddilyn ol ei droed,
 A'i was'naethu'n ffyddlawn hefyd
 Cyn, braidd, cyrhaedd pumtheg oed:
 Cafodd grefydd y pryd hwnw,
 Na fu dan ei gwarth erioed,

Rhagddo'r aeth gan fawr gynyddu,
 Mewn gwybodaeth, dawn, a gras:
 Nef yn agor dorau'r pwlpudd
 Idd ei ffyddlawn, ddiwyd was:
 Lle pregethodd Grist yn Geidwad,
 Gyda grym, a hwyl, a blas.

Nid rhyw gwmwl oedd ei bregeth,
 Dorai'n sydyn uwch y bryn,
 Nes y byddai i'w gynwysiad
 Lamu yn rhaiadrau gwyn,
 Dros ei ochrau chwilfriwedig
 'Lawr i faith ddyfnderau'r glyn.

Eithr rhyw afon gref ei cherynt,
 Darddai rhwng mynyddoedd ban,
 Lifai'n loew, lifai'n gyson,
 Gan ymwel'd â llawer man :
 Tywod aur yn britho'i gwaelod—
 Blodau'r nef yn trwsio'i glan.

Fel yr Athraw mawr ei hunan,
 Benthug natur gym'rai ef,
 I egluro'i feddylddrychau—
 Dyfnion wirioneddau'r nef :
 A'u dwyn at ein hamgyffredion,
 Gyda grym ac effaith gref.

Etto, nid gardd flodau ydoedd,
 Nid rhyw "Doddawl drem," nas cair
 Braidd ei chanfod cyn ei cholli
 'Nghanol symudliwiau claer ;
 Eithr rhyw wythen drwchus ydoedd,
 Lawn o'r mēr sydd yn y gair,

Nid difyr-wledd lon i'r teimlad,
 Nid peroriaeth mwyn i'r clyw,
 Eithr "geiriau llawn o sobrwydd"—
 Gwirioneddau cedyrn Duw,
 Llawn o'r difrifoldeb dwysaf,
 Llawn o argyhoeddiad byw.

Codai'i bregeth oll o'r testyn,
 Nid a'i i'r dych'myngol fyd,
 Nid rhyw gruglwyth o faterion
 Ydoedd, wedi'u tafu'n nghyd,
 Eithr adeilad hardd a threfnus,—
 Delw'r pensaer arni' gyd

Ond, peidiodd y ddawn a'r athrylith seraphaidd
 Fu'n ysgwyd pwlpuadau Meirionydd cyn hyn :
 A thawodd y llef a'r hyawdledd difrifol
 A d'rawai y difraw a'r euog yn syn ;
 O ! mae'r myfyrdodau am oriau a dreuliwyd—
 Am oriau o gariad a hedd—yn parhau
 Mor felus a'r neithdar, wrth gofio fel ydoedd,—
 Ond chwerw fel wermod, wrth gofio fel mac.

Fe gredai, canys profai ynddo'i hun,
 Mai crefydd oedd y trysor pena' i ddyn :
 Ac mai'r dadguddiad ddaeth i lawr o'r nef
 Oedd lawnaf faes ei fyfyrdodau ef ;
 Ond etto, ymhyfrydai'i galon fyw
 Yn mhlith gweithredoedd mawrion eraill Duw,
 Can's eiddo ef oedd "calon bur" a thêr,
 A welai Dduw mewn blodau, creig a sêr :
 Bu'n dal cymundeb lawer awr a dydd,
 A'r dwyfol neu'r ysprydol ynddynt sydd.

Cadd hefyd drem a chlyw, a theimlad bardd,
 I glywed, gwel'd, a gwerthfawrogi'r hardd ;
 Ond cenadwri brif ei awen fwyn,
 Oedd cydymdeimlo a lliniaru cwyn :
 Ei deigrin hi a gwypai ar y bedd,
 A'r aelwyd wag, a'r fron ni wpu hedd :
 Mae'i hocheneidiau a'i gobeithion hi
 I'w gwel'd yn awr drwy ein mynwentydd ni,
 Yn Arfon, Meirion, ac mewn llawer lle,
 Yn dangos mai "trugarog Chwaer" o'r ne'
 Oedd hi, i'n dwyn at ei ddyddanwch E'.

Gadawodd ef yr awen gylch y Llan,
 A'r aelwyd i ddyddanu'r trist ar gwan,
 Neu os anturiodd gydag ef i lawr,
 I'r tanddaearol fyd, ni allodd fawr,
 Ond syllu'n syn a phlygu'n wyl a mud,
 Ger bron y drem ddwyfolai'r lle i gyd.

Athroniaeth dybiai'n arweinyddes well
 Hyd lwybrau cudd, y mawr, y dwfn, a'r pell,
 A mynych a'ent yn nghyd i lawr ac lan,
 Mewn ymchwil am y gwir sy'n llechu dan
 Len anian fawr, a rhwng ei phlygion hi,
 Sy'n mhell, rhy bell, i drem ein llygaid ni.

Ac â fflamdorch oleu gwyddor,
 Yn tywynu yn ei law,
 Byddai'n myn'd drwy'r tywyll haenau
 I ryw bell orphenol draw,
 I gael golwg ar y Duwdod
 Mawr yn adeiladu'r byd,
 Pan oedd amser megys baban
 Yno'n gorwedd yn ei grud !

Syllu drwy'r "Plutonaidd gyfnod"
 Ar ein daear ni, yn dân,
 Yn ymsaethu drwy'r eangder,
 Megys comed ieuanc lân.—

Gwyllo arni'n casglu'i chrystyn,
 Ac yn ymgaledu 'lawr ;
 Gwel'd ei gwewyr esgor, eilwaith,
 Ac yn geni'r Andes mawr !

Canfod llaw fferyllol anian
 Yn rhoi'i llestri ar ei than,
 Ac yn bwrw'i haur a'i harian
 Rhwng y creig-agenau mân.

Troi yn ol at "gyfnod Neifion"
 I gael gwel'd ei lanw a'i drai
 Byth yn mlaen ac ol yn rholio,
 Ac yn ffurfio'r meini clai.

Synu uwch 'ranghyfanedd-dra
 Unwaith ar ein daear fu,
 Pan nad oedd ond y crest-flyn
 Yn poblogi'r dyfnder du.

Gyda'r gragen ar y mynydd,
 Gyda'r gröyn yn y nant,
 Byddai'n darllen rhyfeddodau,
 A gwel'd treigliad oesau gant.
 Gyda chwyldroadau natur,
 Byddai ei ddychymyg e',
 Gwel'd un bywyd yn diflanu,—
 Bywyd arall yn ei le.—

Bywyd uwch ei beirianolaeth,
 Bywyd o brydferthach llun,
 Yn myn'd ar esgynol raddfa,
 Hyd nes sefyll yn y dyn.

Gwadai fywyd deilliol Darwin,
 Bywyd newydd oedd o hyd,
 Cyfnod newydd—creadigaeth
 Newydd hefyd, yr un pryd.

Wrtho ef pregethai'r mynydd,
 Wrtho ef areithiai'r lli,
 Wrtho ef llefarai'r creigydd,
 Pan yn fudion wrthym ni.

Dacaregydd ymarferol
 Oedd yr uchel, enwog ddyn,
 Wedi myn'd trwy haenau'r ddaear
 Megys ar ei draed ei hun ;
 Yr oedd Ioan ar ddaear
 Cymru yn awdurdod mawr,
 'Roedd ei farn yn farn a safai,
 Fe'i rhoi'd hi fel deddf i lawr.

Henafiaeth ein gwlad hon hefyd
Ga'i ran fawr iawn o'i gywrain fryd.

Ei serch at henafiaeth oedd gryf fel y lli,
A'i eiddo llaw natur a'i celf fyddai hi,
Y ffosyl a gloddid o'r ddaear islaw,
Neu'r crair ar ei hwyneb a geir yma 'thraw ;
Ond uwchben llenyddiaeth, yr hon fyddai hên,
Y carai ef aros, pryd gwên ar ol gwên,
Rhwng rhywbeth a rhywbeth, yn myn'd dros ei ael,
Fel rhwng cymyl Ebrill, bydd t'wyniad yr haul.

Oedd felus iawn ganddo, mor felus ar bwyd,
Gael awr o gymundeb drwy gyfrwng rhyw lwyd,
Hen lyfr, ac awdwyr hir oesau'n ol, fu
Yn fawr gyda'r awen, neu'n ddewr gyda'r llu.

Hen ieithwedd ac orgraff gyntefig ein llên,
A wyddai, a sain-arwyddnodau mwy hên,
Y coelbren ar Ogam diaddurn eu pryd,—
E' feddai yr allwedd i'w dadgloi i gyd :
Caid hên a chaid newydd lenyddiaeth ein gwlad,
I'w fryd yn gynefin, a'i benaf fwynhad
Oedd caffael hên ysgrif, neu ddalen, a llwch
Can'mlwydd ar ei hwyneb yn gorwedd yn drwch ;
Pan gaffai y cyfryw ei galon ro'i lam,
Fel plentyn, pan tegan a ga'i gan ei fam !
Os nad oedd gynefin i'w lygaid, mae'n syn,
Holl lyfrau a 'sgrifau'r Hen Gwrt a'r Tŵr Gwyn ;
'Roedd holl lyfrgelloedd gwyr mawrion ein bro,
A'u dorau, bob amser, ar led iddo fo ;
Ei ddysg a'i dduwioldeb a'i cododd i'r lan,
Gan wneyd iddo'i lwybrau yn rhydd i bob man ;
Ei lwybrau oe'nt esmwyth i galon pob dyn,
Yr un modd i eraill oedd calon ei hun.

Rhyw wyddoniadur byw oedd ef.
Ai'n bigdwr ei wybodaeth gref,
O greigiau'r byd hyd entrych nef ;
Ysgolor llwyr, awdurdod co'edd,
Yn llên-henafiaeth Cymru oedd,—
Ymchwiliwr mawr, a gweithiwr maith,
Yn nghelf a gwyddor ein hên iaith :
Ac awdwr llyfrau aml eu rhi' ;
Ar bwnc 'nol pwnc a'i deiryd hi.

Y mae ei erthyglau, sy'n brithio'r Traethodydd
A'r Beirniad, hyd heddyw i'w gwel'd yn ein mysg,
Yn profi ei deimlad a'i serch at ein heniaith ;
Ac hefyd fanylrwydd a dyfnder ei ddysg ;

Y mae'n Ioan Pedr, er ei fod yn ei feddrod.
 Fel pe yn ymsymud yn mhlith y rhai byw—
 Clywch! ar ei leferydd yn croesi'r Cyfandir.
 Ac adsain drwy'n calon o'r "Celtic Review."

Ffrwyth ei ysgrifell glasurol a diwyd,
 Yw lliaws o'r gloewon erthyglau, sy'n awr
 Yn ffurfio ein Gweithiau Safonawl, droed allan
 O Wasg Caledonia, a Gwalia deg wawr;
 Y mae'r "Gwyddoniadur," a "Hanes y Cymru,"
 A hwythau'r "Myfyrian," a'r "Cambrian," yn nghyd,
 Yn cyd-dystiolaethu i fawredd ei lafur,
 A 'stôr ei wybodaeth yn ngwydd yr holl fyd.

Ond er pob rhagoriaeth, pob rhinwedd, pob rhad.
 Bu farw yr hwn oedd yn addurn i'w wlad,
 Oedd fywyd i'w Goleg—oedd fendith i'r byd,
 A chwmwl dyfrhadwy yn Zion o hyd.

Rhyw rai'n y byd,
 Gant enw *mawr*, a dyna' gyd,
 Ond "*enw da*" sydd berl mwy drud;
 Ac nid pob rhai, sy'n meddu'r ddau,
 Ond meddai ef hwynt-hwy yn nghyd.

Gwneir enw mawr
 I lawer un trwy'r byd yn awr
 Gan gyfoeth, ond fe gwymp i lawr;
 Eithr "*enw da*"—nid aur a'i gwna,
 Rhaid elfen o ddwyfolach gwawr.

Nid elfenau anianyddol
 Gyfansoddai'i fawredd ef,
 Eithr rhai eraill mwy ysprydol—
 Eiddo'r meddwl—eiddo'r nef:
 Gallu natur, sef athrylith,
 Deifl bob rhwystr o'i blaen i lawr;
 A dysgeidiaeth—ffrwyth myfyrdod,
 Ymdrech, ac astudrwydd mawr.

Ond'r oedd ef yn berchen teithi
 Eraill o ddwyfolach rhyw:
 Rhai ag ynddynt fwy o'r prydfferth,
 Mwy o'r nefoedd, mwy o Dduw—
 Eiddo Rhinwedd, Moes, a Chrefydd,
 Blodau y tragwyddol hâ',
 Dyna'r egwyddorion santaidd
 O'ent yn ffurfio'i "*enw da*."

Ni chollasom ddim o Ioan,—
 Dim, ond ei allanol rith;

Mae ei bersonoliaeth gyfan
 Heddyw'n hanfod fyw'n ein plith,
 Mae ei seiniau'n troi o'n hamgylch,
 Mae ei eiriau ar ein clyw,
 Mae ei wên o flaen ein hwyneb,
 Mae o'n mew'n yn bictiwr byw.

Teimlwn ef yn myn'd trwy'n calon,
 Teimlwn ef yn troi'n ein serch :
 Nid oes dim ond niwlen deneu
 Rhyngom ni a'i yspryd derch.
 Ffarwel Ioan—tyred yspryd,
 Gad i'n weithian ysgwyd llaw,
 Dros fer enyd—buan, buan,
 Awr ein cydwladychiad ddaw.

IEUAN GWYLLT.

Natur sydd â'i deigr yn eto—yn grwn
 Ar ei grudd yn treiglo,
 Ac amrant y Cymro—sydd gwmwl llaith,
 Ac haul ei obaith yn ciliaw heibio.

“Môr o gân oedd Cymru' gyd,”—ond weithian
 Lle o gwynfan a cholli gwynfyd.

IEUAN GWYLLT, ein henwog gân,—wedi marw !
 Dyma hiraeth treiddgar :
 Y swyn aeth o Sion wâr,—a'r emyn
 Oedd ar ei thelyn yn ddirith alar.

Sion hoff, Ow ! mor syn yw,—amgylchoedd
 Ei “mynyddoedd” a phob man heddyw !

Hwy oeddent yn rhyfeddawl
 O fyw, gan yspryd y fawl
 A gadd ei greu gan Ieuan
 Yn y tir, fel cyneu tân !

Ar hyd a lled y rhodiai,—gan adfer
 Y rinwedd o wylder i'n Haddoldai,
 A rhoi i gelf cysegr-gân—fwy o wedd
 A gwirionedd yr addolgar anian.

Troi ei gwlltyr trwy y gwylltedd—a fynych
 Ddifwynai ei symledd,
 A'i rhoi o'r newydd i'r Ion,
 Yn ngheinion pêr gynghanedd.

Dwyn i fwy cydunedd,—feddylddrychau
 A theimladau,—dwyn iaith a melodedd
 Yn nes mewn cydnawsedd,—a'i chael o'r lludw
 Yn bur ei delw a'i hysprydoledd.

Efe'n ei "Gynulleidfaol—Donau"
 Sy'n dwyn yr iawn reol :
 Llyfr yw'n llefaru o'i ol—dros symledd,
 A gwir ddiweiredd ei chwaeth gerddorol.

Ni ellir o hyn allan—gan y myrdd
 Ganu mawl yn unman
 Drwy'n bro, heb gofio'n gyfan—barch ac enw
 A'r hyn, a'i law hoew, wnaï'r anwyl Ieuan.

Ei dônau ynt adenydd—a'n cariant
 Tua'r cyrau dedwydd,
 Ynddyn' ffoi hawdd iawn i ffydd,—o'r cnawdol
 A'r byd allanol i'r bywyd llonydd.

Yn eu sain mae arall si
 Ddaw a hwyl i addoli :
 Toddant, eneiniant anian,
 A rhed gwllith yr Yspryd Glân.

Drwyddynt, i lawr hyd wreiddiau—y galon,
 Gwelir yr effeithiau
 Yn yr "hwyl" sydd yn parhau
 Ar y gân hir, a'r gwenau.

I goethi hon gweithiai ef—yn ddiwyd,
 Dedwydd ai o gartref
 Ar ei hynt, drwy wlad a thref :—ni laesai
 Ei waith da, e' wyddai oedd werth dioddef.

Caid rhai'n mysg yr "Hên Ysgol,"
 Yn dyn am ei gadw yn ol
 Yn rhyw sut, "cynghor Satan,"
 Trwy ryw gast, "oedd altro'r gân!"
 Dwyn "cnawd" i dincian ydoedd—
 "Aspri dyn" nid "yspryd" oedd.

Ond Ieuan ni adawai—ei amcan,
 Er pob tramgwydd gaffai :
 Unwaith y penderfynai
 Ar yr iawn, yn mlaen yr ai.

Egwyddor oedd gwir guddiad—ei gryfder ;
 Gwaith pur ofer oedd gwthio profiad
 Ar gudd ; ac argyhoeddiad—o iawnedd,
 Yn wag oferedd, o'i iawn gyfeiriad.

Hawdd oedd y gerdd iddo' i gyd,
 Yn wyddor a chelfyddyd ;
 Yn forau ef ai ar ol
 Y prif awdwyr profiadol :
 Aeth i dŵr athrylith dal,
 Golud awdwyr gwlad Eidal ;
 Awenau byw Almaen bur,
 A beirdd clws ei bröydd clasur,
 Ddygai ef idd ei gyfoeth,
 Llenwai'i gawg â phob llên goeth.

mwyn cael myn'd i'r "manna"—difesur,
 Hyd feusydd Almaenia,
 Dysgodd ef (a'r dasg oedd dda)
 Yr iaith, bron, hyd yr eitha'.

Dillynder a choethder chwaeth
 Arnodent ei feirniadaeth,
 Iawn ddelw hon yn ddi-leihau
 Adwaenir yn ei "Donau,"
 A'i gwrid hi, yn gwisgo'r dôn,
 Heddyw sy'n ngherddi Sion.

Un oedd fel cynghaneddwr
 Heb ei uwch, ac ni bu wr,
 Am hyn yna, mewn hanes,
 Fu i'w wlad yn fwy o les.

Oedd awdwr fedrai ddodi—ei syniad
 Mewn sain yn ddiwyrni :
 Ond ei wir genadwri—
 Nid hyn oedd, eithr ei dwyn hi
 O'r *chaos* i'r *cosmos* cu
 Weithian sy'n ei hodiaethu.

Dygwr i mewn ei Diwygiad—ydoedd,—
 Awdwr ei Chwyldroad :
 Odfaon ei Hadfywiad,
 O'i ol ef, a'i drwy'r holl wlad.

Effeithiau golau ei go'edd—egnion,
 A'i ofwyon, yw'r Cerdd-gymanfaodd,
 Hudolant ein holl ardaloedd ;—weithion
 Car moel neu afon, ceir aml i nefoedd !

Athraw ydoedd a thrydan—ei lonaid,
 A'i law a'i wên seirian
 Arweiniai dorf,—tori'n dân
 Ar ei wyneb wnai'r anian.

Yn nheml Iôn y bu'n aml weini—i hon ;
 Yno heb ddiffoddi
 Y caid ei fflam yn codi
 Ar ei holl allorau hi.

Ieuan oedd ffyddlawn was—yn holl “dy Dduw,”—
 Lledodd Air y “Deyrnas,”
 Yna'r gamp fawr o gwmpas—Cymru werdd,
 I ddwyn y Gerdd i enw ac urddas.

E' alwyd i Efengylu—y Gair,
 Ac hyn, gyda'i ganu,
 A roes i gyd i'r Iesu,
 Hyd ei fedd, a “gwas da” fu.

At ddawn y pert Dduwinydd—yn ei bwnc
 Caid barn yr Athronydd :
 Hoff iawn gwnai i natur a ffydd
 'Roi golau ar lwybrau 'u gilydd,

Nid rhaiadr oedd yn dyruo,—na'r 'storm
 Dros y tir yn rhuthro ;
 Ond awel wâr yn cario—'r cwmwl llawn,
 Wedi hinawn, wnai'n wyrdd y fro dano.

Ei eiriau oeddynt gerynt—o feddwl,
 Nid celfyddyd oeddynt ;
 Ac nid dail yn gwneyd helynt
 A gwâg hyawdledd y gwynt.

E' ranai y gwirionedd
 Mal ar bwys ymylau'r bedd ;
 A'i i'r dwfn yn y Gair da—
 At ei fêr—at ei fara ;

Yn ail i'r wenynen, yn hyn,—elai
 At galon y blodyn :
 Nid crwydro megys glöyn—drwy'r glynoedd
 Uwch y dail ydoedd, a chweda wed'yn.

Ar y groes yr hawddgar Iesu,—yn trengi
 Trwy ing, wrth ein prynu ;
 A rhoi 'i waed i'n gwaredu
 O'n baich tost o bechod du.

Ein galw yn ol, a'n glanhau,—a newid
 Ein heuog gyflyrau,
 Ac ail-enill ein calonau,
 I fyw'n ei hedd, ac i'w fwynhau,—

Oeddynt, yn amlaf, ddefnyddiau—ei bregeth,—
 Yn wraidd, brig, a changau ;
 Iaith bur fel gwlyth y borau,—fai'n estyn
 Ei swyn wed'yn, dros ei syniadau.

Hiraeth sy' yn mhyrth Sion,—o herwydd
 Marw 'i chysegr-weision :
 Tywyll wrid allorau hon—sy' dystiad
 O'i dirywiad dan y chwerw droion.

Gem aur oedd ei loew gymeriad :—canwyll
 Yn cyneu yn wastad :
 Yr oedd ei ymarweddiad,
 Fel un f'ai'n y nefol wlad.

Gwelid y pur o galon—yn ei wedd,—
 Ei waith a'i 'madroddion ;
 Bibl oedd ! un o bobl Ion,—ddug, heblaw enw,
 Gywir ddelw y gwir dduwiolion.

Duwiol oedd, ond ei luddias,—i uno
 'N amcanion cymdeithas
 O ansoddau sy' addas ;
 Ni chaid na rhagfarn, na chas,

A feiddient wrthdroi ei feddwl :
 Symudai uwch rhesymau dwl.

E gurai'r fron wladgarol—o'i fewn ef,
 Yn iach, cryf, a bywiol :
 Ef ydoedd Eisteddfodol—arwron,
 Yn dal i weithio'n bri cenedlaethol.

Oedd lenor o ddylanwad,
 A'i lais yn ysgogi'r wlad,
 Drwy y Wasg, ein dir-ysgwyd,
 A thair llef wnai "Arthur Llwyd :"^(a)
 Un llef oedd am fwy llafur
 Yn y pwnc o *ganu* pur ;
 Un arall dros lenoriaeth
 I'w *pharchu* hi a *phuro*'i chwaeth ;
 Tra wed'yn caed y trydydd—y ddwysaf,
 Ië, y benaf o'r tair llef beunydd :
 Llef a'n galwai i'r llwch,
 I waeddi am wneyd *heddwch*,
 A'n Duw yn rhad, yn yr Iawn,
 A'n *cofio* yn y Cyfiawn.

Drwy y Wasg caid yr Ysgol—o'i eiddo
 Er addysg geddorol.
 Ei "Gerddor" oedd ragorol—Arweinydd,
 A dysgedydd, yn y dasg hudol.

Ei nerthol iaith, pan wrth lyw—'r "Gwladgarwr,"
 Yn gyfarwyddwr, a gofir heddyw.

A'i enw'n nglyn a'r "Faner,"
 A gaiff heb baid goffa pêr.

Llwybro oedd ei 'sgrifell brid,
 Yn ochr heddwch a rhyddid.

^a Uu o'r ffugenwau o dan ba un yr ysgrifennai i'r Cyfnodolion Cymreig.

Yr awen arno wenai,
 Ond ef i'w chanlyn nid ai,
 O sw'n a threm yr emyn
 Y bywyd gwell a'r byd gwyn ;
 Emynau yr Almaenaeg
 A'u gemau ro'es i'r Gymraeg ;
 A gwiw fêl ar Gymreig fant
 Yw'r melus eiriau moliant.

Ond Ieuan, yntau dawodd
 Yn y glyn, ac angau glôdd
 Y genau wnaï mor gynhes
 Weithio'n llwydd a thraethu'n llês ;
 Yr enwau mawr roi'r o'n mysg
 Yn y bedd—prif feib addysg—
 Meib a'u rhan yn mhob rhinwedd,
 Er's hir dro, sy'n bwydo'r bedd.

Ow fedd ! Ow fedd ! ni feiddiaf—dy hoffi,
 Diffodd ein sêr gloewaf
 Wyt o hyd,—b'le eto af
 O'th olwg, fel na'th welaf ?

O oes tir neu ddinas deg
 Na chawn dy wel'd yn chwaneg ?
 Oes yn wir—nef, Sion yw,
 Y wlad anfarwol ydyw,
 Lle nad oes bedd, gwedd, na gwg,
 Na man galar mewn golwg ;
 Yno'n awr mae'n Hieuan ni,
 Yn arwain a blaenori
 Y "newydd gân" i Dduw i gyd,
 Fel bu yn nghyfle bywyd.

Wylo ydym ni deimladau—'n calon ;
 Yntau â choron, a thant i'w chwaraeu,
 Lle ni cha gloes na chroesau—'r anial daith,
 Le 'ddyfod unwaith i leddfu'i dônu.

Ei enaid sy'n llon yno :
 Ond ei gorph blinedig o'
 Yn ei fedd gwnaed huno'n fad
 Hyd foreu yr Adferiad.

M Y N Y D D O G.

Ow, ddwys wae! Ow, newydd syn!—gaid i bawb,
 Gyda bod un deigrin,
 Oddiar y gruddiau hyn,
 Dau eilwaith sydd yn dilyn!

Mawr yw y galar, Ow! mae'r rhigolau,
 Rhyw lawer oeddynt, ar lu o ruddiau,
 Yn awr yn cael eu dyfnhau;—angau wnaeth
 Heddyw i Hiraeth godi'r llifddorau.

O! mae'n hawdd, ar ol Mynyddog—wylo:
 Pa galon mor serchog?
 Pa wyneb byw, awenog—oedd mor loew,
 O'r awen-ddelw, a rhin ddihalog?

Pwy, eilwaith, yw'r Apollo—gawn hefyd
 Gynifer dawn ynddo
 A'n Mynyddog? Ow! mae'n huddo—ar lôn,
 A dawn, ac awen ein gwlad yn gwywo.

Awen dyner, cafwyd hono—a Cherdd,
 Ei chwaer, yn cyd-drigo,
 Yn ei fynwes, heb ddifwyno;—a Chân
 Oedd fyw o anian yn greddf yno.

I dalent, os gwaedoliaeth—a gredir,
 Gwir hadau'r gerddoriaeth
 Iddo ef, fel etifedd ddaeth,
 O waed didwyll ei dad odiaeth.

Awen oedd lawn o fywyd
 Ei fro werdd ysgogai'i fryd.

Rhoi hwyl wnaed i'w athrylith—awengar,
 Yn gynar, gynar, hyd feusydd gwenith,
 Neu lwybrau iach dolau brith—Ddôl-lydan.
 Chwa'i wybr wiwlan, a throch ei boreu-wlith,
 Loewai hon, yma'n mhlith—golygfeydd cain,
 Hawdd ei holrhain i'w greddf a'i meddylrith.

Ei gân ddiferai fel gwên ddifyrus,
 A hedd Tymhorau'r Cylchoedd Tymherus:
 Rhedai'i ddawn i'r dyddanus—a'r llawen,
 A charai'i awen, weithiau'r chwârëus.

Ond, yn ei destyn od dwysder—a fa'i,
 Gwyddai fyn'd i'r dyfnder :
 Os ai ei destyn i'r sêr—uwcha 'gyd,
 Yno hefyd efe nid ai'n ofer.

Oedd awenydd o anian—
 Aelwyd oedd i ddwyfol dân.

Yntau, wrth dd'od o'r plentyn,
 Ar ei daith i safle'r dyn,
 Ni chadd elfenol addysg
 I'r amcan mwya'n ein mysg :
 Y cysur hwn pe cawsai,
 Pwy ddywed pa uchred ai ?

Hunanddysg, a'r boen ynndi,—at roddion
 O'ent wreiddiol, fu'n doddi
 Sail y fawr adail i'w fri
 A gododd drwy 'i oes gwedi.

Ar ei fôes caid puraf ôl—egwyddor
 Ac addysg tad duwiol ;
 Mirain nawdd mam rinweddol—ar ei fryd,
 A'i holl wedd hefyd oedd linell ddwyfol.

Rheolau'r dyner aelwyd,—a gwersi
 Gorsedd grâs a wasgwyd
 Ato'n gynar ; a dwfn ârwyd—ei dir
 A'i fron îr i'r "hâd da" fraenarwyd.

A chodwyd ei serchiadau—yn gynar
 O ganol pleserau ;
 A gosodwyd argeisiadau—'i galon
 A'i wyl obeithion ar uchel bethau.

Wed'yn y dylanwadau
 Byw eu rhin a wnaent barhau
 Drwy ei oes. Plaid yr Iesu,
 Hyd ei fedd, ei blaid ef fu.

Gwr oedd a garai addysg,
 Nid cysglyd e'n casglu dysg.

Amaethai 'n ddiesmwythyd—i'w babell,
 Nac i'w ysgrifell, na'i gwsg croew hefyd,
 (Heblaw yd-feusydd a dolydd deiliog
 Y Ddol-lydan a'r Fron werdd-waelodog.)
 Dalentau byw amrywiog—ei feddwl :
 E' wnaeth a hwy fanwl driniaeth finiog ;
 Casglai, cronai o bob cwr awenog,
 Aneirif flodau'n 'storfa oludog,

I'w ddarfelydd, fel gerddi'r hâf hiliog,
 Chwiliai wed'yn y goruchel-wawdiog
 Gerdd-feistri gydag yni gieiniog ;
 Mynai wybodaeth, pe min y bidog
 A'i gwaherddai, neu y Teyrn gosgorddiog :
 Yn ei fyfyrgell mewn pell fyd pwylllog,
 Neu'n nhawelwch yr hwyrnawn heulog
 Yn y glyn, neu'r bryndir gwlanog—neu'r nant grai,
 Uchel byddai wrth ei orchwyl boddog :
 Wrthi o hyd yn daer a thawedog,
 Nes mewn gwybodaeth aeth yn gyfoethog :
 Ei enaid oedd lyn cronog ;—yn y man
 I dori allan fel argae drylliog !

Ac yn ei fflwch ugeinoed,—wedi byw,
 Fel y bedd o'i faboed,
 Neidiai'i awen, a dioed
 Clywid trwst ei chysglyd droed,

Yn awr, yn taraw'r tiroedd—yn sydyn,—
 Olympia wed'yn, am dalm, pwy ydoedd ?
 Yn fanwl a ofynai,
 " Pwy yw ef y gamp a ai ?
 A dod i gymod a gwaith
 Yr awenau ar unwaith ;"
 Fel haul fai'n drwm dan gwmwl,
 A'i oleu drwy'r boreu'n bwl,
 Ar unwaith i'r wybrenydd
 Yn oleu do'i ganol dydd !

E genedlodd gain awdlau,—a chanodd
 Wreichionawg bryddestau ;
 Ei delyneg deg sy'n dwyn
 O fro swyn hâf-rosynau.

Gwiw oeddynt ei gywyddau,—a thlyision
 Ei englynion,—hwnt-hwy yn nghalonau,
 Miloedd, a gant le melus, ac yn hir
 A lwyr gofir ar lawer gwefus.

" *Dinystyr Dinasoedd*" gwlad y "*Gwastadedd*"
 Gwyd i olwg—eu drwg, a'u dialedd ;
 Rhy' fyw lun "*Rhyfel a Hedd*:"—gwrthweddau
 Miwsig calonau a maes celanedd ;
 "*Pläau'r Aifft*," heb bylu'r wedd,—baentia'n loew,
 Ië, a llanw y Dwyfol ddigllonedd ;
 Dyry hefyd y ryfedd—" *Ddaeargryn*,"
 Yn ei rhu sydyn a'i holl arswydedd.

Bywhaodd gwllith y buddugoliaethau
 Uchod, ei enaid, yn serch a doniau ;

Yn awr y dododd ei weithrediadau
 Eu hôl a'u hyd ar ein Sefydliadau :
 Efe o hyd oedd cri'n Eisteddfodau—
 Eu byw arweinydd oedd yn mhob rhanau :
 Enynai'n olwg ein Llawen-wyliau,
 A gwawr ei wyneb a greai wenau
 Ar wedd ofalus y pruddaf aelïau :
 Wrth abwyd ei ffraethebau—gyda bodd,
 Yn aml glynodd wrth mil o galonau !

Oedd fôr o wir ddifyrus—arabedd,
 Neu grebwyll chwârëus :
 Nid dyhirwech gwatwarus,—nid gwagedd,
 Nid amhuredd, ond llonder tymherus
 Calon uwch cilïau nychus ;—megys dêl
 O fröydd uchel y dyfroedd iachus.

Os e a welai fod bryd-iseledd
 E allai ysgwyd i ffwrdd bob llesgedd :
 Curai ebwch a thinc ei arabedd :
 Ni bu hurtyn na theimlai'i ffraethbertedd ;
 Fe a rwyfai'r dorf ryfedd—yn fuan,
 O wydd y fôrlan' i li'r Ddifyrwledd.

Ond ef, ein doeth a'n difyr—Arweinydd,
 A'r anwyl o'r brodyr,
 Rhifai'r bedd—rhyw foreu byr
 Fu ei oesdaith—cyfystyr,

I huan dyd, pan y daw—i'w anterth,
 A'i hynt yn deg arnaw ;
 Yn sydyn dros y twyn draw,
 Uwch y wlad yn machludaw !

Athrylith sy' fendith fawr
 I bawb gwyr drwy bob gorawr ;
 Y mae pawb, ond meis ei hun,
 Yn llwyddo drwy'i llaw eiddun.

Hwynt-hwy yw tlodion y tir ;—yn fynych
 O fewn fe'u cystuddir,
 Ac allan fe'u picellir
 A chwerw siom a chroesau hir.

Aml ddraenen—pluen i'w plith,
 Yw oer wely athrylith !

Lloer yw, mewn wybr dywell,
 Gwlad heb boen i'w gwel'd o bell,
 Ond geir, os eir i neshau,
 Yn fyd y cynhyrfiadau.

Er glaned yw'r goleuni—a wasgar,

Mae'n gwisgo pruddglwyfni :

Mewn nôs o hyd mae'n oesi,

Ac wybr laith yw ei thaith hi !

Athrylith ddyry olion—rhy farwol

Ar feroes ei meibion :

O'r braidd gwel neb wyneb hon

Heb weled mawr helbulon.

Ah ! hyn oedd rhan Mynyddog,

Er ei holl haedd, hyn fu'r llôg !

Ei fin, a'i law'n rhy fynych,

Ar ei nerth a fagai'r nych,

A alwai am awelon—y Moroedd,

A'r Amerig radlon,

I siared eu cysuron

Wrth ei fryd a'i ddinerth fron.

A'r sôn o'i flaen er's enyd,

Oedd o fewn y "Newydd Fyd."

Dyna awyr y "Byd Newydd,"—weithian,

Yn llwythog o'i glodydd :

A llinell y llawenydd—yn croesi,

O'r Eryri, yn mhell tu draw'r Werydd.

Ac eres ydoedd y croesawiadau

I bêr awenydd hên Wlad y Bryniau :

'B'le ai y bardd na bu hulio byrddau

Yn dywysogaidd â chant o seigiau ?

Na chaid llongyfarchiadau—llenorion,

Ar uwcha' dynion mewn serch a doniau,

Yn rhedeg yn ffrydiau—o beroriaeth

I'w galon odiaeth—nes siglo 'i nwydau ?

Ei holl helynt fu un llinell olau,

Neu afon dirion o brif-fwynderau,

I fwyn wŷr y "Serfrithog Fanerau :"

Bu uchel arddel ar ei gyngherddau,

Dygai nwyd ei ganiadau—serch a bryd

Y "Newydd Fyd"—ond dioddefiadau

Ei fron, er pob rhyw freiniau,—ni pheidient,

Hwy a darient o hyd wrth ei dorau.

Golwg i loni'r galon—debygid,

A bywiogi'r ddwyfron,

Oedd Amerig, a'i golygfeydd mawrion,

Ei hawyr ddilwgr, a'i rhydd awelon :

Difyr oedd y wlad fawr hon.

Ond, Ah ! Rhagluniaeth, nid oedd

I'r Amerig na'r moroedd,

Wedi meddwl rhoi dim iddynt

O'i iechyd ef er gwyched y'nt.

Dychwelodd wedi chwilio
Yn ofer iawn, i'w hên frô.

Ac wybren gu "Bron y Gan,"—welai ffoi

Ei olaf ffun allan :

Ai i lawr ei haul eirian,—ac odiaeth

"Fron y Gan," aeth yn fron y gŵyn weithian.

Trwm hiraeth tir Amerig—yn drist hêd

Dros dôn yr Atlantig :

Ninau y gŵyn bellenig—a chwyddwn,

Nes trwm iawn y swm fel 'storm nos unig.

Nid clod am fawr wybodaeth

Iddo ef yn unig ddaeth ;

Ond clod a'i hanfod yn hedd—

Clod mawr iawn—clod am rinwedd

O'r elw ag oedd ar ei law gu, (*a*)

E ga'i ef rin i'w gyfranu ;

Nid dysgwyl oedd uwch dysg ei wlad,

Ond rhoddi at ei hyrwyddiad,

A rhoddi mwy o ddwywaith,

Na phobloedd y "miloedd" maith ;

Aberystwyth bair estyn (*b*)

Ei glod mwy drwy'n gwlad am hyn.

Bêr Ganiadaeth,

Fwyn Aweniaeth,

Wyl Lenyddiaeth,—b'le awn heddyw

Am olynnydd,

I'n magwrydd,

O'i ddawn dedwydd—Ow ! nid ydyw.

Chwith yw canfod

Yr Eisteddfod

Heb ei wyddfod ;—ac fel beddfaen

Yn ei enwi, (*c*)

'N drist a difri,

Ond e wedi—nid i'w adwaen.

Ei olwg fwyn, anwyl, a gofiwn enyd,

Ar y llwyfanau 'n creu lli' o wynfyd ;

Anadlu bu a chenedlu bywyd

Yn ein Gwyliau, a'n hegnion gwywlyd ;

Ei ysgrifau drwy'r Wasg gywir hefyd

Oleuodd wybr llawer calon ddybryd ;

Ond diweddodd y dedwyddyd—arnom,

A du nôs drosom ei dinystr esyd.

a Yr elw oddiwrth ei daith Americanaidd.

b Yr hwn oll a roddodd at Goleg Aberystwyth.

c Cyfeiriad at yr arferiad sydd yn ein Eisteddfod o hongian enwau ein meirw ar eu muriau.

TREBOR MAI.

Rhwyg eilwaith drwy y galon,—rhwyg ar rwyg
 A ro'ir, nes yw'n dwyfron
 Yn glwy' hyd ei gwaelodion,
 Gwalia brudd sy'n glwy o'i bron !

Oh ! y briw mawr—Trebor Mai,
 Yn ei fedd ! O ! na fyddai
 Y môr yn porthi fy mhen—â'i heli,
 Fel wylwn heb orphen,
 Brysuro o'r wybr seren,
 Loewai ein holl farddol nen.

Gwae ! fedd diguedd it' gauad—genau
 Gedwai gân yn wastad,
 A nyth i lon iaith ei wlad,
 Ac i eiriau llawn cariad.

Ei ganau o'ent fel gwinoedd,—a'i wiwddawn
 Gywyddau o'ent wleddoedd ;
 Bardd i hudo beirdd ydoedd—
 “Angel i wneyd englyn oedd.”

Ar dro af heibio i'w febyd—yn awr,
 Yn ol at yr enyd
 Pan oedd ein gwyl anwylyd
 'N ochor ei fam yn deohreu'i fyd.

Nid oedd ei ddechreuad ef
 Ond diddym, mae'n rhaid addef.

“Llwy arian,” fel llaweroedd,—i'w “enau,
 Pan aned,” nid ydoedd :
 Coron dysg ac aur nid oedd,
 Fel nawdd, i'w ol-flynyddoedd.

Ni welwyd e'n hwylio'i daith—dan dlysau,
 Na chain enwau o Rydychain unwaith.

Ni welodd ein brawd ond ychydig o ffafrau,
 O unrhyw gyfeiriad, foreuddydd ei oes ;
 Bryd hyn ymddangosai athrylith a thynged
 Fel pe yn ymdynu i'w gilydd yn groes ;
 Ychydig fu'r addysg foreuol a gafodd,
 A phrin y manteision a syrthiodd i'w ran ;
 Efe megys haul yn ngoleuni eu hunan,
 A ddringodd dros gaerau'r terfyngylch i'r lan.

Ysgarodd a phob seguryd
 I lafur rhoes ei law a'i fryd :
 Ei fryd ar lyfrau ydoedd,
 A'i holl nwyd ar ddarllen oedd ;
 A thrwy fywyd diwyd daeth
 Yn addurn awenyddiaeth.

Plentyn llafur—mab athrylith—
 Câr yr awen—awen bêr—
 Awen dirf fel blodau'r gwanwyn,
 Loew fel y dwyfol sêr—
 Dynner fel yr hwyr-ddydd-awel,
 Ddilwgr fel y wryf lân,
 Awen daflai swyn a ffresni,
 Hyd ddiffeithiaf lwybrau'r gân.

Od yw'th yspryd fel Gilboa,
 Od yw'th deimlad fel y fflam,
 Darllen di'r "Cynhebrwng" hwnw
 Pryd y claddai'r bardd ei fam :
 Buan clywi swyn y gwyntoedd,
 Yn crynhoi'r ystorm yn nghyd,
 A'r cawodydd gloew'n disgyn
 Dros dy ruddiau'n ddiluw mud.

Nid oedd neb a redai'i fysedd
 Hyd linyddau'r galon fwyn,
 Gyda'r fath adfywiol effaith—
 Gyda'r fath ogleisiol swyn :
 Plygai ein serchiadau dano,
 Fel plyg awel flodau'r ddôl ;
 Elai 'i awen ffordd y mynai,
 Elai'r galon ar ei hol.

Nid oes neb wŷr wneuthur hyny
 Ond y sawl sy'n gwybod am
 Sugno bron feithringar natur
 Ar yr ail a bron ei fam ;
 Os bydd natur am i'w meibion
 Wneyd eu hol ar wedd y byd,
 Mae'n eu galw at eu gorchwyl,
 A'u neillduo'n mron o'r crud.

A ! un o'r cyfryw etholedig rai,
 Yn ddiddadl, oedd ein hanwyl Drebor Mai ;
 Etifedd awen oedd o'i ben i'w draed,
 Can's troi yr oedd yn mhlith elfenau'i waed ;
 Dylifodd drwy wythienau'r tad i lawr,
 Fel dŵr rhwng creig-agenau'r mynydd mawr,
 Gan dori ynddo ef yn ffynon glir,
 O ffrydiau'r hon yfasom bleser gwir.

Edrychwn arno'n hoglanc tair-ar-ddeg,
 Rhwng cân a chelf yn rhana'i oes yn deg;
 Pob awr hamddenol syrthiai idd ei ran
 Gyflwynai ef i'r awen yn y man.

Fe dreuliwyd llawer awr o hedd a swyn,
 Do, rhyngddo ef a Llithrig ——— mwyn,
 Pan ar 'run bwrdd, a'u bysedd meinion, hir,
 Yn ddiwyd yn ysgogi'r nodwydd ddur,
 Wrth drin yr englyn "Unodl Union" bach,
 A chwareu ar gystadlu yno'n iach:

Dau gyfaill oeddynt hwy, bron o'r un oed,
 Dau gyfaill o'r cywira' fu erioed:
 Unrhywdeb celf gynyrchodd rhyngddynt hwy
 Gydawnsedd mawr—cymdeithas wed'yn fwy;
 Ond mwy na'r oll fu'r cydymdeimlad glân
 Cydrhyngddynt hwy gynyrchodd yspryd cân.

Ymgyfathrachu ac ymwneyd o hyd
 Yr oedd â'r ddawn a'i dug i sylw byd;
 Bu'n ddysgybl bach i Einion lawer nôs,
 Lle dysgwyd ef i gynghaneddu'n dlos;
 Ac ef a fu wrth draed Gamaliel fawr
 Ein Hawen ni yn eistedd lawer awr—
 Caledfryn graff—Caledfryn awen-gref,
 A chipiodd swrn o'i rym a'i goethder ef.

Ei grebwyll ef oedd grebwyll gwyl ei fryd,
 Anfynych ai i'r pell ddych'myngol fyd;
 Ni dd'wedai fwy na wyddai ef ei hun;
 Esbonio a pherffeithio bywyd dyn,
 A dwyn i'r ddaear ambell ddarn o'r nef,
 Oedd hoffus waith ei awen agos ef.

Oedd berchen ar awen oludog ei doniau,
 Nid cragen wag ydoedd—nid pothell glaer-lefn,
 Ond awen yn meddu ffrwythlonder cynhwynol
 Y prairi, heb ddim o'i wylltineb di-drefn:
 Rhyw bensaer tra chelfydd oedd ef mewn caethfydraeth,
 Ei gywydd, a'i englyn, o'ent gywrain a chry',
 Gwisgai'i gynghanedd wreiddioldeb swynhudol,
 Tra'r meddwl o dani yn newydd a hy'.

Mae'r wreiddiol syniadaeth a'r glaer feddylddrychaeth,
 A'r gloew a'r ffrwythlawn ddarfelydd y sydd
 Yn gwisgo'i bêr "Noswyl," yn dangos as unwaith,
 Fod Trebor yn un o brif-feirddion ei ddydd.

Oedd Feirniad profiadol, yn gwybod a theimlo
 Elfenu prydferthwch a bywyd y gân—
 Ni ddorai frycheuyn ar wyneb y lili,
 Ai heibio rhyw 'smotyn ar wyneb haul glân.

Oedd iddo'r gynghanedd mor rhwydd ag anadlu,
 A mynych ddisgynai i lawr dros ei fin,
 Mewn dwyfraich o gywydd, neu englyn ffraetheiriog,
 Yn hofian yn rhywle rhwng goglais a thrin.

Enillodd drwy iawn allu—ei enw'n
Arch-Englynwr Cymru,
 O'i swyn fawr nid oes, ni fu—gan awen,
 Yn Ngwalia wen, un fedr englynu.

Ei englynion yn nghalonau—lluoedd
 Gânt eu lle, fel creiriau ;
 Oédant ar ein tafodau—oesau maith,
 Tra byw yw'r iaith, sai' Trebor a'i weithiau.

Nerth, anian, pwynt, ffraethineb—a'u llenwai,
 Pob llinell oedd purdeb ;
 Nid oedd un yn diweddu heb
 Flodau aur, fel diareb !
 Ei angladd ef, angel-ddyn,
 Oedd angladd prydferth englyn.

Un o'r rhai hyny roddir yn rhy chwai
 I'r bedd, oedd Trebor hoff—hoff gan bob rhai ;
 Nid gan ei deulu'n unig teimlir coll,
 Ond gan gymdeithas drwy'r ardaloedd oll.

Rhyw gydgorphoriad prydferth oedd efe,
 O'r teithi sydd yn mynu gwneyd eu lle
 Yn nheimlad, serch, ac yn narfelydd dyn,
 Wna 'run yn bawb, ac hefyd bawb yn un !

'Roedd ganddo wên—oedd, i bob rhyw ac oed,
 A hono'r wên ddidwyllaf fu erioed,
 A chyda'r wên o gleuder oedd yn llawn,
 'Roedd ganddo air, oedd, air difyrus iawn—
 Gair ffraethbert, hapus, iach, fel goleu'r dydd,
 A blanaï wên ar y dristeiddiaf rudd.

Heblaw ei fod yn llawn o yspryd cân,
 Oedd fyw o ymddyddanion melus, mân,
 A ddenent bawb i oedi ger ei fron,
 Can's gwnelai bawb fel ef ei hun yn llon :
 Ac os oedd "swyngych" yn un man is ne',
 Yr ydoedd yn ei bêr gymdeithas e.

Adlewyrch tyner rhyw gynhwynol hedd,
 Eisteddai'n wastad ar ei dawel wedd ;
 Fel gwrid y wawr ar y terfyngylch draw,
 Yn arwydd fod digwmwl haul is-law.

Gwnaed ei gymeriad ef yn glwm o swyn,
 Gan rai o'r prif rinweddau nefol, mwyn,
 Sy'n rhoi llawenydd, cysur, parch a bri,
 Ar engyl sydd yn rhodio'n daear ni.

Diwydrwydd, er yn forau, forau iawn,
 Gaed ynddo ef yn llinell glir a llawn ;
 Er cymaint oedd ei serch at lèn ei wlad,
 Ac er mor hoff o gwmi'r awen fad,
 Ni chawsant nemawr waith ei 'sbeilio fe
 O'i ddyledswyddau at y byd a'r ne':
 Ni fynai ef, fel rhyw benboethyn dahl,
 Eu canlyn hwy, serch myn'd o'r oll ar wall ;
 Cylchynai ef allorau Ty ei Dduw,

"Sul, gwyl, a gwaith," a'i yspryd yno'n fyw ;
 Trafodai i fasnach gyda gofal mawr ;
 Yr awen hithau gai'r hamddenol awr ;
 Ond hoffai wel'd awr hono'n mynych dd'od,
 Can's melus oedd ei chysur hi a'i chlod.

Uniondeb ydoedd arall elfen gref,
 A pherl yn nghoron ei gymeriad ef ;
 Ni thwylla'i neb, ni charai'i dwyllo chwaith,
 Cyfiawnder oedd ei reol ef a'i raith.

Haelfrydedd oedd yn serch a theimlad byw
 O dan ei fron. Lan-rwst, mi wn nad yw
 Y law mor barod i'th was'naethu fu
 Yn anghof, er yn mhlith anghofion lu :
 Pe buasai'i allu ef yn ogyhyd,
 A'i 'wyllys hael, fe fuasai pwys y byd
 Yn 'sgafnach ar ysgwyddau llawer un,
 A thlodi'n estron fyth yn nheulu dyn.

Er fod rhyw ddifyrus ffraethder,
 Rhyw ddigrif-air tlws ei wê,
 Yn ei awen, yn si siarad,
 'Nawr ac eilwaith yn cael lle,
 Eto'r dyn ystyriol ydoedd—
 Eto'r Cristion pur oedd e'.

Nid rhyw Pharisead ydoedd—
 Nid rhyw wyn-galchedig fedd ;
 'Roedd ei feddwl fel ei eiriau,
 'Roedd ei galon fel ei wedd.

Nid yw crefydd, fwy na natur,
 Rheswm, nac athroniaeth chwaith,
 Ddim yn gofyn tristwch yspryd,
 Na gwneyd "wyneb hir" a maith ;

Os yw crefydd yn y galon,
 Yn llawenydd, bôdd, a hedd,
 Mae'n hawddgarwch yn ein geiriau,
 Mae'n sirioldeb ar ein gwedd.

Credai ef yn niniweidrwydd
 Ac athroniaeth iachus wên ;
 Tristwch oedd i'r sawl a'i creai,
 Cwyno i'r methiantus hên.

Credai nad oedd dynion wedi
 Eu hanfon i'r fath brydferth fyd
 I alaru ac i wylo,
 Fel pe b'ai ar wall i gyd ;
 Byd sy'n llawn daioni dwyfol,
 Pell uwch haeddiant neb o'n rhyw.
 Ninau'n grwgnach—beth yw hyny
 Ond dirmygu cariad Duw ?

Mae'r aderyn bach yn canu,
 Mae'r anifail yn mwynhau—
 A wnaed dyn, sydd uwch ei natur.
 Ynte'n unig i dristâu ?

Pa beth yw'r galluoedd bywiol
 Ro'ed yn nghorph ac enaid dyn !
 Pa beth yw'r amrywiaeth hefyd
 Roed drwy natur fawr ei hun ?
 Os nad moddion a dybenion
 Ynt er mwyn y naill a'r llall ;
 Neu a grewyd hwynt yn ofer,
 Megys gan dduw-ddamwain ddall !

Dyma oedd mwyn deithi Trebor :
 Cyfeillgarwch, llonder, hedd,
 A phob rhin wnai i'n ddymuno
 Rhyngddo bellder mawr a'r bedd.

Ond, fe droes ein claer obeithion
 Yn dywyllwch, mêth, a siom ;
 Tôn telynau athrist Cymru
 Mwyach fyddo'r "Galon Drom."

Gynau roes i'n gwlad "Fy Noswyl."
 Ar pryd hwn yn iach ei wedd ;
 Pwy dybiasai mai "Fy Noswyl"
 Nesaf fuasai yn y bedd ?
 Yn ei fedd ! tra'i natur eto
 Yn ei gwrid a'i blodau'n llawn,
 Ac fel pe yn lledarwyddo
 Gwelsa'i fywyd hwyr brydnawn.

Ond marw wnaeth ! ac wylwn dan ein clwy,
 Wrth gofio nad yw'n hanwyl Drebor mwy ;
 Yr olaf un o'r pedwar llenor mawr
 A lyncwyd gan y gwancus fedd yn awr.

Ow ! ai byth y llwnc y bedd—ein noddwyr,
 A'n harweinwyr mewn llên a rhinwedd ?
 Ow ! Walia ddiymgeledd,—pa ryw bryd,
 Y daw yr enyd i't wel'd dirionedd ?

Gwae ! Walia, oedd dwyn bugeilwyr—ei Ffydd,
 A phen-amddiffynwyr
 Ei henw ; gwae ! farw'i phrif wyr ;—gwae ! mewn bedd,
 Weled gorwedd ei phen-gwladgarwyr.

O ! bedwar enwog, y byd aurenau :
 O ! bedwar anwyl, byd yr awenau :
 O ! bedwar—unwaith, fu'n byw darianau—
 Heddyw ni welir,—pwy ddaw'n eu holau,
 O lên a dyhewyd, leinw'u hadwyau ;
 Anwyl bedwar ! cain ôl ei bywydau,
 A'r awen, miwsig, a rhin a moesau
 Ein bro a welir, fel rhyw wybr olau ;
 Gwae ! fyned rhyngom gyfnod hir angau ;
 Ow ! dyma ddyrnod i'n Heisteddfodau :
 Parlyswyd eu pèr leisiau fu unwaith
 Yn beirianwaith o swyn rhwng ein bryniau :
 Ni chlywir weithion ond tôn trist-danau
 Y delyn brudd yn traethu'n cystuddiau ;
 Neu fiwsig cwynus eu "Gorphwysganau,"
 I helaethu'n cur o blith ein corau ;
 Troi'n fynych, mynych, i falmio'u henwau
 A'n deigr y byddwn at gaer eu beddau ;
 Hithau, gu Rinwedd, ei phlethgoronau,
 Drwy'r ôl-oesoedd ddyd ar eu harleisiau ;
 Daw awen Gogledd Deau at eu bedd,
 A'i gair o hedd, yn fyth-wlyb eu gruddiau.

GRAY.

Mr. T. E. DAVIES (*Dewi Wyn o Essyllt*,)
 Pontypridd.

GWROLDEB.

BRŴD awydd ysbryd eofn,
 Teimlad hy' at ymlid ofn
 Yw Gwroldeb, os heb hwn
 Rhyw feddal babwyr fyddwn.
 Gwiw nodedig nwyd ydyw,
 Rhîn a dardd o'r enaid yw,
 A phrawf fod cydwybod iach
 Yn trafod natur afiach.
 Yma gorwedda gwreiddyn
 A hanfod awdurdod dyn;
 Ceidw'i barch—cwyd ei berchen
 Ar restr byd yn ddirwystr ben.

Arwydd-dyst o'm cerdd-destyn
 Roddai Duw ar wêdd y dyn
 Yn Eden, i'w ddynodi.
 Megys ffyddlawn Raglaw'n Rhi.
 Gwroldeb ei wyneb yno
 Oedd ddirfawr rym wyleiddiai'r fro.
 Holl lu natur bur, heb ŵg,
 Yswiliai is ei olwg.
 Rhoi haen o addurnedd arno
 Wnai'i wrol fryd, mewn araul fro.

Mae'r un nodwedd yn meddwl
 Dyn fo pert, ond yn fwy pŵl,
 Yn aros—elfen wrawl—
 Hon o hyd ddiffyna'i hawl;
 Fe erys i dywys dyn
 Hyd ochrau gwg a dychryn,
 A thrwy ddyfnder ffalsder ffol,
 A maesydd gorthrwm oesol,
 Heb droi'n ol—heb dario nês
 Dwyn ogylch nôd ei neges.

Nerth yw roes Duw i'n wrth raid
 I gryfhau rhinâu'r enaid;
 Ac i ddâl ein llesg galon
 Ar y llif, mewn cywair llon;
 Mûr dyn am gymeriad oes
 Rhag sênwyr "geisia'i einioes."
 Athroniaeth nerth yr enaid—
 Y penaf rym pan fo raid
 Myn'd i wyneb twymn dynion
 O'r un brâd ag uffern bron—
 Ei hoffwaith yw amddiffyn
 Breintiau ac iawnderau dyn.

Elfen yw sy'n sylfaen nerth,
 Dŷr reffyn pob rhyw drafferth,
 Chwâl restr o uchel rwystrau—
 Oh! mae'i nherth yn eu mwynhau!
 Fyth yn mlaen, yn mlaen, am lwydd
 Y rheda'n ddiwaradwydd.

Ond plisgyn o ddyn go ddwl
 Ganfyddir â gwan feddwl;
 Un esyd byd yn wasarn,
 Babau sydd i bawb yn sarn,
 Yw'r adyn llwfr—dan y llaid
 Edweinir blodau'i enaid.
 Un dwl, yn dâl *enw* dyn
 I'w droediaw, ydyw'r adyn;
 Ac ar ei rûdd ceir ar ol
 Y ddawn hunanfeddianol.
 Llais 'deryn a'i llesteiria,
 Ar lleiaf rwystr a'i llwfrha!
 Eiddilyn nas arddelir
 I deml clod, gyda mawl clir;
 I'w dadgloi, awdurdod gwlad
 I'r gwrol dry'r agoriad;
 A thrwy ei hardd borth aur hi
 I nol coron êl cewri.
 O! mor rhwydd y rho'ir mawrhâd
 I 'nhestyn yma'n wastad;

Os heb ei wyneb enyd,
Ni chawn ni barch yn y byd.

Mor ôd mewn cymeriadau
Gwelir e'n ymechlurhau.
Hynyma edmyga mân,
O'i weled yn ei heilun.
Nerth yw sy'n gynorthwy serch
Un dewr-enaïd, er annerch
Y feinwen heinyf, anwyl,
A'i gwnaeth ef yn gaeth a gŵyl.
Yr anëofn sy'n ofni—
Ni all hwn ei henill hi.

Dyn gwrol dania gariad,
Dawdd galon y fwynlon fâd;
Cywir a hawdd y câr hi
Foneddwr saif i'w noddi.
Ei gwr raid ei gwaredu
Wedi dyfod d'wrnod du;
Ond pwy, heb Wroldeb, rydd
Wên dawel mewn blin dywydd?
Y dewr westwr saif drosti
Bob amser ga'i hoffder hi.

I'n gwlad dêl etholiadau
I'w throi yn boeth erwin bau!
Hanes *gwladwr ansigledig*
Yn dryllio cyffion dynion dig,
A brawf fod cydwybod iach
Na'u crefyngc yn fil cryfach.
O! fe gwyd yn hŷf gadarn,
Wrth ei fodd fe draetha'i farn.
Mab hawliau yw'n mhob helynt—
Safle'r gwr ni syfla'r gwynt.
Megys seirph, mae am gashau
Etholwyr werth eu hawliau.
Gwroldeb, cysondeb sydd
Yn gryfion yn ei grefydd.
Hanerawg rai anwrol
Edy rhai'n o'u crêd ar ol.

Mae i'w weled mewn *milwr*—
 Dros ei wlad i'r gâd â'r gwr,
 Ac yn nghanol marwolaeth
 Eofn saif heb ofni saeth !
 Gwir arwr—dyn gorwrawl
 Ddyrcha'i swydd erch, yw y sawl
 Gŵyd ei glêdd i gadw gwlad
 Rhag ffrewyll rhyw gyffroad—
 El i wyneb gelynion
 A gais wneyd brâd ei wlad lon ;
 Neu rydd help i lawn ryddhau
 Ei dynion o gadwynau ;
 Gwroldeb ddiahebwn
 Yn mhennod yr hyglood hwn.

Ond oh ! yr elfen dreulfawr,
 Geir ei gwel'd yn hagr ei gwawr
 Mewn milwr, er *mwyn molaord*
 Rêd i'w fri drwy wael ei frawd !
 Nid bôd gwroldeb ydyw—
 Diafl o ddyn bwystfilaidd yw.

Un gwrol yw *dyn-garwr*—
 Tirion nawdd y truan wr ;
 Bu'n wynebu anobaith
 Ar lawr ei gaer, lawer gwaith !
 I gell condemnedig wr
 Anturiai—gymaint arwr !
 A'i wledd oedd ymgeleddu
 Cyfyngder y dyfnder du.
 Ei dyner dro dynai'r drain
 Lechent yn nghanol ochain ;
 Chwalai adwyth, a ch'ledi,
 A'u henbyd nos, o'n byd ni.
 Gweini i'n lles a'i gwnai'n llon
 Yn ngheunant dwfn anghenion ;
 Dug lu'n ol i freiniol fri,
 Drwy'i ganol, o'u drygioni !
 Deil hwn ddrych, yn wych, i'r neb
 A gâr wel'd mÿg wroldeb.

Ar hyn, pwysig wersi gwych
 I'w hadrodd, gaf, ond edrych
 Ar glod-geryg* *Gwladgarwr*,
 Neu'i hanes ef, hynaws wr.
 Dûg ei wlad o galedi—
 Gwaredodd, rhyddhâodd hi.
 Ef, yn wir, safai'n wrawl
 Dros ei phrid gynhenid hawl,
 Ei rhyddid, neu'i gwâr heddwch,
 Pan ymgodai 'storm trais trwch.
 Dadleuai, rhesymai'n rhwydd,
 Unrhyw gyfle, rhag aflwydd
 I'w wlad—ei deimlad amlwg
 Buan dröi yn erbyn drwg.
 Dylanwad hyawdl enau
 Dröai'n help i'w chadarnhau
 Yn ngwyneb rhwysg ingon brâd,
 A'u sydyn ymosodiad ;—
 Ar lawer llys erys ôl
 Gweled gwrawn gwladgarol.

Gwawr ei rym a geir ar wêdd
 Y *Diwygiwr* da'i agwedd.
 Wedi i'r gau ordoi'r gwir,
 A thaenu'i ffrwythau anwir
 Nes boddi'n ffydd—nes baeddu'n ffol
 Wedd ein haddysg Dduwinyddol ;
 Hau'i hagr chwyn nes llygru chwaeth,
 A dylu ysbrydoliaeth,
 Gan ddwyn beichiau ffurfiau ffol
 Ar ein gwerin teyrngarol ;
 Dïo gair y Duw geirwir,
 A lledu twyll hyd y tir,
 Nes troi'n byd anhyfryd hyll,
 Yn d'wllwch, fel gwlad ellyll !
 A than ddwys warth, yn ddi-sêl
 Mae'r oes ! Ac O ! mor isel !
 Llecha'n brûdd, yn nghûdd yn nghôl
 Rhyw athrawiaeth ddirêol.

* Monuments.

Ond, cyn hir, dadguddir gwedd
 Arweiniwr gŵyd wirionedd :
 Fe ddaw o'i ogof, ddiwygiwr,
 Un godai'r Nef yn gadarn wr ;
 Mewn gwroldeb wyneba
 Lîf yr oes, ac ni lwfrha
 Nes troi yr holl ddinystyr hwn
 I bellenig bwll anwn—
 Nes clirio gwir—nes cloi'r gau,
 A'i gedyrn olygiadau ;
 A throi'r gaeth athrawiaeth ddrwg
 I ddirgeledd o'r golwg;—
 Deil iaith am genedlaethau
 I gario clod y gwr clau.

Diseguryd was gwrol,
 A 'stôr o nerth nas try'n ol,
 Ydyw y gwych *Genhadwr*—
 Minio'i sêl wna 'mhwnc mae'n siwr,
 Nes yr êl fel angel hŷf,
 A heddwch yn lle cleddyf,
 Allan, at y pagan pell
 I'w dywys, o'i nos dywell,
 I lanerch y goleuni—
 Pinacl-fryn pen Calfari.

Rhoi i'r *Merthyr*, bybyr bwyll,
 Wrth gynneu'n aberth-ganwyll,
 Bu grym gwroldeb a gras—
 Lliniaru'r digllon eirias !
 Cadw'i barch rhag gwawd y byd,
 A'i fyfyr rhag clwyf hefyd,
 Dal ei wêdd yn dawel iawn
 Yn ngafael poen anghyfiawn :
 Ie'i nerthu yn wyrthiol
 Tra'n ei ing rhag troi yn ol.
 Dilyn fŷn, hyd lan ei fedd,
 Arweiniad y gwirionedd.
 Fe saif lle cyfeiria'i farn,

Er gwaedu, 'run mor gadarn !
 Mêdd nerth fedr ymaberthu
 Wrth gyngor egwyddor gu.
 Eithr, e ga'r Merthyr gwrol
 Efo'i Naf "orphwysfa'n ol."

Bywiog rîu "gwroldeb gras"
 I'r *meddwl* sy'n rym addas,
 I ddâl brâd—angerddol bron—
 Ei golynawg elynion.

Gwel'd mewn *Cristion* wron wnaif
 Wrth ei wely'r waith olaf.
 Anturia i bant oer y bedd,
 I'r anhygyrch dir unigedd,
 Heb ofni gwleb hafn y glyn,
 Na chilwg yr archelyn !
 Drwy ingoedd rhandir angau
 El yn hÿf gan lawenhau ;
 Ac ardeb "gwroldeb gras"
 Wna'i arddull yn llawn urddas.

Yr un nerth a'i cadarnha
 Hefyd, wrth fainge Jehofa.
 Hwn o hyd, mewn llawn hyder,
 Gampus saif pan gwympa ser !
 Pan ceir anian yn crynu
 A rhyfedd dwrf o'i ddau du,
 Natur gain yn troi i gyd
 Yn ddirinwedd ar enyd !
 Hwn o'i hol wrol erys
 Heb un braw, heb boen na brys :
 A'i dawel enaid öofn
 Drwodd êl, o diroedd ofn,
 At yr Orsedd fawreddawl !
 I fwynhad o'i gyfiawn hawl.

Drych dwyfol o'r gwrol gaf
 Yn ein Hiesu hynawsaf.
 Gyrai'i olwg wrolwawr,
 Filain lu o'i flaen i lawr ;

Ei dywyniad o'i wyneb
 Oedd eiliw na ddaliai neb.
 Llu anwn oll yn eu nherth
 Ni saif ernes o'i fawrnerth.
 Ar ei daith fe rodiai Hwn
 Drwy ganol dreigiau anwn ;
 Offerynau dig uffern dân
 Beunydd wynebai ei hunan ;
 Y dirmyg a'r ystormydd,
 Oedd i ddod o ddydd i ddydd,
 Wynebai'n llawn o obaith
 Gyda'i fendigedig waith.
 Ein Hathraw ni throai'n ol
 Rhag angau ar grog ingol.
 I wyneb deddf enbyd ai,
 Tàn ei mellt ni ymwylltai !
 Yn wir, aeth Ef, yn nerth hwn,
 I d'wllwch nas deallwn !
 Yno ai'm Hior trwy'r dyfnfor dig,
 A thrwy Edom ansathredig,
 Yn ngrym rhad gariad gwrol,
 Heb i neb ei droi yn ol.

Yn Ngwlad Hedd byth ryfeddwn
 Wel'd y pur Wroldeb hwn ;
 Hynyma rygledda glod
 Torf wych y Cartref Uchod.

Canu'n iach i'm pwnc wnai 'nawr,
 Ar gŵr yr eurog orawr—
 Dyna le caf fyw'n öofn,
 A bod byth mewn byd heb ofn.

MORIDAF.

Mr. H. T. DAVIES (*Tudwal*),
 Brynllaeth, Pwllheli.

BUARTH YR AMAETHDY.

CAN DDESGRIFIADOL.

FAB myglyd dref tyr'd allan ar dy hynt,
 I'r fan lle cerdd dihalog haul a gwynt ;
 Gad fangre'r halog ddwr am randir dêr
 Ffynonau byw y llaeth a'r hufen pêr :
 A thithau sy'n preswylio'r broch Weithfeydd,
 Tyr'd i gael trem ar fwynach golygfeydd ;
 Tyr'd o swm twrf yr ordd a'r olwyn fawr,
 I glywed clych prophwydi'r foreu wawr.

A welaist ti'r Amaethlan yn y wlad,
 Y ddyddorusaf 'smotyn ar y 'stad ?
 Ysmotyn bach ac ynddo lawer pryd,
 Grynodedb wych o'r tyddyn mawr i gyd ;
 Petruâl yw, a'i muriau'n weddol dâl,
 A thŷ neu gôr mewn cyswllt â phob gwal ;
 A'i llawr y gaua'n us neu wellt i gyd,
 'R ebolion a'r "da bach" fydd yno'n nghyd,
 Yn bwyta, gorwedd, sefyll, cysgu, neu
 Ymsymud, fel y byddont hwy'n dyheu,
 Dan bwys eu traed, israddol wellt a dail
 A gant eu llwyr drawsffurfio'n addfed dail.

Fan acw, ar y gorllewinol fur,
 Sai'r beudy glâsdo, haiarn-golofnog, hir,
 Lle'n nglwm wrth byst, yn bwyta'n dawel iawn,
 Ceir deuddeg buwch a'u llyfndeg biwiau'n llawn :
 A hithau Mair, â'i rhosyn ar ei grudd,
 I'w godro ddaw rhyw ddwywaith yn y dydd ;
 Ei chalon hi sydd fel ei gwisg yn lân,
 A than y fuwch y galon hono gân ;
 Ar ddwyrain gŵr y beudy 'stafell sydd,
 Lle pump neu chwech o loi'n tywychu fydd,
 A'u porthi hwy wna Mair a'r llefrith iach,
 A'r cigydd ddaw, cyn hir, am "swci" bach.

Wrth orllewinol fur y beudy mae
 Yr usdy, ar usbeiriant newydd, clau,
 Ar meirch tu faes am oriau, ddwy neu dair,
 I'w 'sgogi fydd, er tori'r gwellt a'r gwair ;
 Ar y naill law, o flaen y beudy hir,
 Pentyru wneir ffrwythlonydd mawr y tir,—
 Ysgarthion brâs yr anifeiliaid gwyh,
 A'u lletty gant bob boreu'n lân a sych ;
 Ac hefyd yn iselaf ben y llan,
 Mae'r palmantedig bwll, sydd o bob man
 Yn derbyn brâs hylifau'r lle i gyd,
 A ddybla'r cnwd pan fwrir ar y tud.

Ar ran o'r gorllewinol fur y sai'
 Y 'stabl sych, awyrog, lan, lle mae
 O rymus feirch yn aros saith neu wyth,
 Yn abl oll i dynu a chario llwyth ;
 Ac yn eu plith mae'r merlyn twt a ffraw,
 Sy'n tynu'r *gig* a'r *phaeton* yma 'thraw.
 Fan acw mae y clutty, bron ar bwys,
 Lle rhoddir y gerbydan ysgafn, lwys ;
 Ac yn y nesaf 'stafell atto ef
 Mae'r certwyn praff, a'r wagen hirgorph, gref
 A cher ei llaw mewn 'stafell haner rydd,
 Yr oll o'r amaethyddol offer sydd,
 O'r peiriant sy yn hwylus fedî'r yd
 Neu'r peiriant sy'n rhoi'r gweiriau ar eu hyd ;
 I lawr hyd at y wain a'r sidrwy dÿn,
 Neu'r chwynogl bach sy'n torfynyglu'r chwyn.

Mewn cŵr, ar ei ben ei hun, saif cut y moch,
 O ba le cwyd yn aml sorllyd roch,
 Rhyfeddol fydd eu gwauc, eu broch, a'u brys,
 Pan ddyga Mair eu hymborth at eu llys.
 Rhwng cut y moch a'r 'stabl drefnus mae
 Y domen dail, i chwyddo sy'n parhau ;
 Ansoddau hon ynt wellt, a gwair, ac yd,
 Rhagora'n mhell ar gelf-wrteithiau'r byd.
 Yn Chwefror oer, pan caled tir gan rew,
 Bydd amrai geirt, a rhif o weision glew,

Yn cario'r tail i'r ydfaes ac i'r ddôl,
Yn naill yn myn'd, a'r llall yn dod yn ol.

Ar fur y gell lle mae'r 'storiedig yd,
Neu dalcen fur y 'sgubor ddwys a mud,
Mae'th loches di, wylofus g'lomen fwyn—
Aderyn pur, pa ham dyrcheff gwyn
O hyd, o hyd? beth yw dy helbul di?
Wyt tithau'n blino ar ein daear ni?
Wel, hêd i'r lan uwchlaw ei gyrhaedd ef,
A gwna dy nyth ar ddiloes gaerau'r nef.

Fan acw, gerllaw lletty'r maip, y ceir
Y tŷ, lle ar eu clwydi cwsg yr ieir,
Lle'r ceiliog yntau gân ei gynar gloch,
I ddweyd nad hir cyn tyr y wawrddydd goch.
Gerllaw mae'r cut lle parotoir yr wydd,
Neu'r twrci tew, Nadolig dd'ont i'n gwydd.
Gwel ar yr iâr, ar ben y domen dail,
Yn porthi ei hun a'i chywion ar yn ail;
Clywch, hefyd ar y ceiliog balch a hy'
Fel pe'n ymffrostio wrth ei deulu cu,
A dywedyd wrth ei bliog Wen, "gwae," "gwae,"
Y neb faidd at ein heiddo ni neshau;
Ac yna bloeddia gân ar gân o hyd,
Fel pe b'ai am rybuddio'r wlad i gyd.

A dacw'r twrci chwyddfawr, balch, trahaus,
(Nid rhy anhebyg ef i lawer Sais!)
Yn cylch-ymdroi, a'i lygad fel y fflam,
Gan ddwrddio pawb, nas gwybydd neb pa ham,
Os deall wyf ei iaith dymhestlog, hy',
Ychydig serch sydd dan ei blufyn du!

Ond dacw'r paun, a'i gynffon gron a thlos,
Yn edrych megys wybren glir y nôs;
Fe wyr fod ganddo gôb o berl a gem,
Neu ynte pa'm fath urddas yn ei drem?
Ond maddeu wneir y sythder sy'n ei wedd,
Pan gofiom nad yw fyth yn tori'r hedd.

Ceir hefyd oddifewn ei hamgae macl,
Ddofednod eraill gaed o lawer gwlad,
Ac umbredd o ermigau'n fawr a mân,
Nas gellir eu cyfleu yn hyn o gân.

O honi hi daw nwyddau'r llaethdy llawn,
Sy'n gwneuthur ein ddysgleidiau'n flasus iawn,
O honi hi daw'r fuwch a'r march i'r ffair;
O honi hi daw'r amryw gigoedd gair
Yn trwsio corau'n marchnadfeydd i gyd,
A chreu yr iachus drem sydd ar ein bryd.
Rhyw lecyn hynod yw'r amaethlan gun
Ar gyfer anghenrheidiau natur dyn,
Diaddurn oll, a dirwysg fawredd yw,
Er hyny gwell na mwnglawdd aur Periw!

MECCHI.

MR. T. E. DAVIES (*Dewi Wyn o Essyllt.*)

Y M E L.

Sugn melus a ganmolaf—yw y mêl
Fel y maeth pereiddiaf;
Yn ei ddîl y nôdd welaf
Wedi 'i hêl hyd flodau haf.

ILID.

MR. H. T. DAVIES (*Tudwal*), Brynllaeth.

BEDDARGRAFF TEGIDON.

Ein duwiol lenor i'w dawel hunedd
Yn ŵyl ymwyrai o ganol mawredd;
Ei dlws syniadau â'u destlus nodwedd
Roddos ogoniant ar Farddas Gwynedd;
Adgof iach o'i dêg fuchedd—'nol gorphwys,
Sy'n wybr yr Eglwys yn bêrarogledd.

EMYR.

MR. H. T. DAVIES (*Tudwal*).

BODDIAD Y CERDDOR
MR. WILLIAM HOPKIN,

DIWEDDAR O BRIFYSGOL CYMRU.

Mae'r cerddor ieuanc, llon,
Yn ysgafn nofio'r lli,
A deil ei glust, pan chwery'r dòn,
Ei miwsig swynol hi,—
Mae'i nodau hyfryd, per,
Wrth ddisgyn ar ei glust,
Yn süo'i enaid cerddgar ef
I ryw lesmeiriol ust !

Ond arall don a ddaw,
A brâd o dan ei bron!
A chlywa'i enaid ddyeithr swm
Yn lleddfu murmur hon ;
Mae'n suddo, suddo'i lawr
O dan ei phwysau hi,
O ! Dduw, mae'n suddo'n is o hyd
I'r dwfn ofnadwy li !

Pa le mae'r cwch ? pa le ?
Oes nofiwr ar y làn ?
O ! clywch ei gri, O ! brysiwch 'nawr
Neu bodda yn y fan ;
Trugaredd dyner glyw
Ei galon-rwygol lef,
A dau o'i gweision ant yn chwim
I geisio'i wared ef.

Pob calon ar y làn,
Mewn braw a safant bron,
Pan gydia'r ddau'n ei freichiau ef
I'w ddal uwchlaw y dòn ;

Ai byw ai marw yw?
 Gofyna pawb yn syn,
 A threiddia'i llais, mai marw oedd,
 Fel o ddyfnderau'r glyn.

Fel taran dros ein gwlad
 Y torai'r newydd prudd,
 Ac ar yr helyg crogi'n fud
 Telynau Cymru sydd!
 Ow! collodd Cymru gân,
 Ond cafwyd hi'n y Nef,—
 Yn swm anthemau mawl ei Dâd
 Yn nofio byth mae ef.

CHATTERTON.

Mr. DAVID REES, Swansea.

GOF Y PENTREF.

(*Cyfieithiad o'r "Village Blacksmith," gan LONGFELLOW.*)

GEFAIL y pentref saif gerllaw,
 Dan gysgod derwen fawr;
 Y Gôf sy'n dâl a lluniaidd wr,
 A nerthol megys cawr,
 Ac yn ail i rwymau haiarn ceir
 Cyhyrau ei freichiau mawr.

Mae 'i wallt yn grych, yn ddu, yn laes,
 A'i wyneb melyn yw;
 A gonest chwys sydd ar ei ael
 Wrth enill modd i fyw;
 Gall herio'r byd—nid yw efe
 Yn nyled undyn byw.

O fore i hwyr, drwy'r wythnos faith,
 Yn ei gwaith ei fegin fydd ;
 Ac ergydion trwm ei forthwyl mawr
 Yn araf, cyson sydd,
 Fel tinciadau swynol hen gloch y llan
 Tra yn marw mae y dydd.

A phlant yr ysgol gylch y drws
 Ymdyrant yn llu, mewn blys
 I glywed rhu y fegin fawr,
 A gwel'd y fflamawg lys ;
 A cheisiant ddal y gwreichion byw
 Wasgerir yn ail i ũs.

Ond yn yr Eglwys ar y Sul
 Mewn hwyl ei galon dderch ;
 Mae'n gwrando'n astud ar wr Duw,
 A gwrendy lais ei ferch,—
 Peraidd lais ymhlith y côr
 Sydd yn deffro adgof serch ;

Mae'n swnio'n debyg i lais ei mam
 Gân fry yn ngwlad yr hedd,
 A hêd ei feddwl draw i'r fan
 Lle gorphwys yn y bedd ;
 A chyda'i arw law fe sych
 Y deigryn ar ei wedd.

Llafur, llawenydd, tristwch prudd,
 Gaiff ar ei yrfa'n llawn ;
 Mae'r boreu'n canfod dechreu tasg
 Orphenir y prydawn :
 Rhywbeth gynygiwyd—rhywbeth wnaed,
 Enillodd noswyl lawn.

VULCAN (2)

Mr. J. OWEN, Grammar School, Machynlleth.

Y GIGFRAN.

(*Cyfieithiad o'r "Raven," gan EDGAR ALLAN POE.*)

AR ryw ganol nos bryderus, pan fyfyriwn yn flinderus,
Uwch cyfrolau llwyd henafol—hanes llawer thref a phlwy—
Tra'r amneidiwn bron a huno, clywn yn sydyn ryw swm taro,
Fel un wrth fy nrws yn curo, curo'n dyner, unwaith, dwy ;
"Rhyw ymwelydd ydyw," meddwn, "yna'n curo, nis gwn pwy—
Hyn yn unig a dim mwy."

Ah ! rwy'n cofio'r nos ddychrynlyd, yr oedd yn mis Rhagfyr
oerllyd,
Pob marworyn luniai 'i yspryd, pan yn marw, ar y llawr.
Taer ddisgwyliwn wel'd y borau ; ofer chwiliwn yn fy llyfrau
Am ryw derfyn i fy nagrau—dagrau 'r ol fy mun Lenore—
'R ol y feinwen ddysglaer, anwyl, aeth i blith 'r angylaidd gôr—
'R hon a alwant hwy Lenore.

Creäi swm holl symudiadau'r lleni porphor ddychryniadau
Dyeithr ynof nes yr ofnwn bron ag edrych arnynt hwy ;
Ac er lleddfu'r calon-gariad, llefwn fyth mewn ail-adroddiad
"Rhyw ymwelydd a'i ddymuniad sydd am gael dyfodfa drwy
Fy nrws—ymwelydd hwyrol ydyw, am gael dod i mewn, ond
pwy ?

Hyn sydd yna a dim mwy."

F' enaid ddaeth cyn hir yn gryfach ; yna heb betruso mwyach,
Meddwn "Syr, neu Madam, bellach eich maddeuant crefu'r wy' ;
Ond y gwir yw bum yn huno, ac mor ddystaw oedd eich curo,
Ac mor dyner 'r oe'ch yn taro, taro fel nas gallwn drwy
Yr ystorom prin eich clywed"—agor,—ond ni welais pwy,—
T'w'llwch welais a dim mwy.

Yna 'mhell i'r nos ysbïais, yno'n hir mewn syndod sefais,
Ofnais, a brëuddwydiais fel nas meiddiodd neb ar dir na mor ;
Didor ydoedd y dystawrwydd, ac ni roddai unrhyw arwydd,
Un gair yno mewn unigrwydd a sibrydwyd, hwn—"Lenore !"
Hyn sibrydais, a murmurodd adsain drwy y gwyntoedd oer
'N ol yr unig air "Lenore !"

I'm hystafell 'r ol dychwelyd, f'enaid ynof losgai'n enbyd,
Buan eto clywn guro braidd yn uwch na chynt a mwy.
"N sicr," meddwn, "n sicr," eilwaith, "dyna rywbeth wrth
y delltwaith

Ar fy ffenestr ; y dirgelwaith hwn rhaid imi edrych drwy—
Er gwneyd hyny, paid am enyd, galon-grÿn, nis gelly'n hwy—
Y gwynt ydyw a dim mwy."

Agorais gyda hyn yn llydan y clawr, gan chwyfio ac ymhedfan
Daeth bran i mewn, godidog, perthyn 'r oedd i'r seintiol oes a
fu,

Un cyfarchiad im' ni roes ef, un mynudun ni arhoes ef,
Ond, gan falched oedd ei foes ef, clwydodd yn f'ystafell i—
Clwydodd ar gerf-ddelw Pallas uwch ben dor f'ystafell gu—
Dim ond clwydo yno fry.

A'r aderyn du yn denu f' yspryd, er yn brudd, i wenu,
Gan y dwfn y sobr weddeidd-dra arddangosid yn ei foes,
"Er bod dy gopa yn eilliedig, nid rhyw lwfr-was melldigedig
Ydwyt, welw fran, crwydredig o uffernol draeth y nos—
Beth, atolwg, yw dy enw, ar uffernol draeth y nos?"
"Byth mwy" y fran yn ateb roes.

Rhyfeddais glywed yr ehediad hagr hwn yn eglur siarad,
Er nad oedd i'w eiriau synwyr—anhawdd oedd ei deall hwy ;
Gwadu raid, gwna pawb gydsynio, gael o undyn ei fendithio
O'r blaen a gwel'd uwch dôr ei 'stafell, aderyn byw heb arno
glwy—
Ar gerf-ddelw uwch dôr ei 'stafell fran yn fyw heb arno glwy,
Gyda'r enw hwn "Byth Mwy."

Ar y ddelw 'r fran eisteddai, un gair arall ni ddywedai,
Fel pe'n hwnw wedi tywallt ei holl enaid maes yn lan.
Un gair arall nid ynghanodd ; un o'i esgyll nid ysgydwodd—
Nes im' sibrwd, "Fe'm gadawodd llawer cyfaill brwd o'r
blaen—
Yn y borau hwn ddianga, fel fy ngobaith ffôdd o'r blaen."
Yna "Byth Mwy" medd y fran.

Yn fy nychryn glywed ateb i'm hymadrodd yn cyfateb,
"Dyma yw'r holl iaith a fedr," meddwn, "nid oes ganddo fwy,
I ryw feistr llwm perthynai, 'r hwn pob adfyd a ganlynai
'N gyflym i bob man lle'r elai, nes na wnai ond cwynfan drwy
Y blynyddoedd, fel galarnad 'r ol ei obaith, am ei glwy,
Hynyma : "Byth—byth mwy."

Ond y fran oedd eto'n denu fy holl yspryd prudd i wenu,
Fe symudais gadair esmwyth ger bron delw, dor, a bran ;
Yna ar y melfed suddais, beth oedd ystyr hyn myfyriais :
Bod aderyn gwelw hagr, a berthynai i oes o'r blaen—
Hen aderyn yn darogan, a berthynai i oes o'r blaen,
Hyn, "Byth mwy"—o enau bran !

Er dyfalu hyn ymdrechwn, ond un sillaf ni lefarwn
 Wrth y fran, yr hwn a'i lygaid losgai drwy fy nghalon i ;
 Er esbonio y dirgelwch cas, eisteddwn mewn tawelwch
 Ar y glustog fawr ei harddwch, arno t'w'nai'r lamp mor gu,
 Ond, ti glustog, melfed harddwych, dysglaer gan oleuni cry'—
 Arnat mwy ni orphwys *hi*.

Aeth yr awyr yn fwy peraidd, tybiwn bod rhyw lu angylaidd
 Yn gwasgaru peraroglau, clywn hwy'n ysgafn-droedio'r llawr.
 "Druan! Duw roes it' ymward, trwy ei engyl ddaeth i
 waered,"
 Llefais, "paham y galaret mwy gan gofio am Lenore!
 Yf, O! yf, o'r anghof-ddiod, ac anghofia am Lenore!
 "Byth mwy!" y fran ddywedai'n oer.

"Brophwyd?" meddwn, "Fod dinystriol!—prophwyd wyt, os
 bran, os diafol!
 Ai'r ystor'm a'th yrodd yma, ai y Temtiwr, nis gwn pwy,
 Unig wyt, ond nid crynedig, ar yr anial dir rheibiedig
 Hwn,—a'r cartref dychrynedig—O llefara, erfyn 'r wy'—
 A oes, a oes, yn Gilêad, falm i wella'm garw glwy?"—
 Y fran atebodd im' "Byth mwy."

"Brophwyd," meddwn, "Fod dinystriol—prophwyd wyt, os
 bran, os diafol!
 Yn enw'r Duw yr hwn addolwn, ac yn enw'r nefoedd fawr—
 D'wêd i'm henaidd cystuddiedig, gaiff ef yn y fendigedig
 Nef gofleidio mun seintiedig, 'rhon a elwir fry Lenore—
 Gofleidio meinwen ddysglaer anwyl, 'rhon a elwir fry Lenore"
 "Byth mwy," y fran atebai'n oer.

"Boed i'th air hwn ein gwahanu, fran neu ddiawl!" gan godi
 fyny—
 Llefais—"Dosyn ol i'r ddrychin a'r ddudew nos heb oedi'n hwy!
 Un o'th blu na ad yn arwydd i dy enaid draethu celwydd!
 Gad fi'n unig ac yn llonydd, gad y ddelw, erchi 'r wy'!
 Tyn dy big maes o fy nghalon, ymaith ffo, na ddychwel mwy!"
 Y fran atebai, "Byth, byth mwy."

A'r fran o hyd heb symud modfedd, sydd yn eistedd, sydd yn
 eistedd,
 Ar y welw ddelw Pallas, uwch ben dôr f' ystafell i ;
 Creulawn wedd ei lygaid ynddo, sydd fel elyll yn breuddwydio,
 Goleu'r lamp, gan ei orchuddio, daf i ei gysgod oddi fry
 Ar y llawr ; o'r cysgod yna ai ni ch'odir f'enaid i?
 Byth, byth mwy, fy enaid i?

PINDAR.

Mr. T. F. ROBERTS,

University College of Wales, Aberystwith.

THE LUNATIC ASYLUM.

(*Cyfeithiad o'r "Grallgofdy," gan TAFOLOG.*)

Light-hearted reader, did'st thou know
 That Reason's proud vocation
 A gift implies, for which should flow
 Thy thanks and adoration?
 If not, to yon asylum turn,
 That wretched home of madness,
 And, if thou fail'st the task to learn,
 Stay there to pine in sadness.

Afar its outward beauty glows,
 Its towers to heaven projecting,
 Its windows bright, in endless rows,
 Pure cleanliness reflecting.
 But ah! its outward form we find
 Is but deceit's attraction—
 A gilded cover, used to bind
 A volume of distraction.

How oft around the silent tomb
 Gay flowers are brightly twining,
 And daisies o'er Death's darkest gloom,
 Like beauteous stars are shining;
 And thus the hand of art in vain
 Its form without is gilding,
 For wretchedness and mis'ry reign
 Within that noble building.

Towards it flows the ceaseless tide
 Of sympathy so tender,
 While thankless eyes, in idiot pride,
 Say, "Vain the gifts you render;"
 Just as the waves the ocean strand
 Would kiss with gentle motion,
 While craggy heights before them stand
 To check their dumb devotion.

The lofty walls that guard it round
 Would mark it as a prison,
 If so, tis one, on mercy's ground,
 Philanthropy has risen ;
 Though rashness and restraint we find,
 The maniac's frenzy chiding,
 The hand of Pity stands behind,
 The whole arrangements guiding.

Ambition, like the billowy main,
 In many a breast was swelling,
 But disappointment rack'd the brain,
 Their visions wild dispelling ;
 Like ruin'd hope, each fretful heart,
 No peace or joy can borrow,
 They lie in solitude apart,
 To sleep away their sorrow.

A vacant smile the maniac wears,
 Whose mad conceit betrayed him—
 A king he is, and no one dares,
 Nor ever could dissuade him ;
 Though poverty surrounds him now,
 O! let him dream it over,
 And wear a brightness on his brow,
 His wretchedness to cover.

Each stone within those massive walls
 Records the heart's devotion,
 Though from the inmates never falls
 One symptom of emotion ;
 Humanity their claims must own,
 Though they with scorn regard us,
 And God will, from His righteous throne,
 A hundredfold reward us.

CYDYMDEIMLYDD.

Mr. J. CLARKE, Board Schools, Llangollen.

THE GRANDCHILD OF NED PUGH.

(*Cyfieithiad o "Wyses Fach Ned Pwr," gan MYNYDDOG.*)

A darling grandchild had Ned Pugh,
 Whose parents, ever mild,
 With eyes of love they watch'd so true,
 With ceaseless care, their child;
 But, ah! before ten years had gone,
 Fair Ellen could be seen,
 In spring-tide planting lilies on
 Her parents' grave, now green.

The tender rose blush'd on her cheek
 When twenty summers old,
 And like the mid-day sunbeam's streak,
 Its radiance did unfold.
 A traitor came! the rose no more
 Cast on her cheek its hue,
 For mid-day turn'd to mid-night o'er
 The grandchild of Ned Pugh.

In all her troubles sore she clung
 To her grandfather's heart—
 But when o'er him death's shadow hung,
 She knew that they must part:
 "Oh! do remember one," cried she,
 "Who longs for parents true,
 And pray that God remember me,
 The grandchild of Ned Pugh."

She saw the spring-time on the grave,
 In sunshine bright, and rain,
 An emblem, which our Father gave,
 Of bliss that knows no pain;
 She lived to hear a voice repeat
 (From Heaven it came, she knew,)
 That angels, with a crown, would greet
 The grandchild of Ned Pugh.

GWALLTER.

Mr. G. LLWYFO LEWIS, Rhyl.

[CYD-FUDDUGOL.]

Ned Pugh a sweet grand-daughter had,
 So gentle and so fair;
 Her parents watch'd her tenderly,
 She was their constant care:
 But ere ten summers o'er her pass'd,
 Sweet Ellen, pale and grave,
 Was noticed planting lilies white
 Upon her parents' grave.

When she had reach'd her twentieth year,
 The rose was on her cheek,
 As sunshine on the brow of noon,
 So lovely and so meek;
 But then a vile seducer came—
 The rose soon changed its hue,
 The noon was lost in midnight to
 The darling of Ned Pugh.

To her grandfather still she clung,
 While sorrow wrung her heart;
 But when he reach'd his lonely rest,
 They were compell'd to part.
 "Will you remember me," she cried,
 "To those I love so true?"
 For God and parents deeply longs
 The darling of Ned Pugh."

She saw the spring upon the grave,
 In sunshine and in rain,
 A picture-drawing of the world
 Beyond the reach of pain;
 She heard the loving voice of God
 Assuring her anew—
 "There is a crown in heaven for
 The darling of Ned Pugh."

ADAM JONES.

Rev. J. H. HUGHES (*Ieuan o Leyn*),
 Cefnmawr.

BEIRNIADAETHAU.

Gofidus genym nas gallwn, yn y gyfrol hon, roddi ond difyniadau byrion o'r beirniadaethau galluog a llafurfawr a barotöwd gan gynifer o brif enwogion ein cenedl gogyfer a'r Cystadleuaethau. Y mae y cyfryw, modd bynag, wedi ymddangos yn eu cyfanrwydd yn y newyddiaduron.

TESTYN Y GADAIR.—“RHAGLUNIAETH.”

Beirniaid :—HIRAETHOG, ELIS WYN O WYRFAI, AC ISLWYN.

DYMA fel y dywed HIRAETHOG:—Daeth deuddeg o ymgeiswyr i faes y gystadleuaeth am Gadair yr Eisteddfod hon, a dau Sais : ond nid oes a wnelo y beirniaid â'r estroniaid hyn, amgen na dywedyd wrthynt, yn eu tafodiaith briodol hwy eu hunain, “*No admittance except on business,*” and you, gentlemen, have no business here.

Enwau mabwysiedig yr ymgeiswyr Cymreig ydynt—*Luther, Sylllydd, Idwal (1af), Addolwr, Llywarch Hen, Tudur Aled, Mor-desai, Idwal (2il), Ydlanydd, Mara, Conper, a Dirvyd.* * * * *

Darllenais yr Awdlau drostynt, a rhai o honynt eilwaith a thrachefn ; ac nid gwaith bychan oedd hyny, a cheisio manwl farnu, clorianu, a chymharu y naill â'r llall. Ni cheisiais ddsbarthu a graddoli y cyfansoddiadau cyntaf, ac ail, &c., fel yr arfera beirniaid yn gyffredin wneyd ; ond cymerir hwynt dan sylw yn ol fel y digwyddai i mi ddodi eu henwau yn y rhestriad uchod o'u henwau.

Luther.—Pryddest, nid awdl, gawn gan Luther, felly y mae efe allan o gylch y gystadleuaeth ; a phryddest go ganolig yn wir ydyw.

Sylllydd.—Golwg syml a diaddurn sydd ar ddyn oddiallan (ysgrifenyddiaeth) yr awdl hon, ond y mae cryn yni awenol i'w deimlo weithiau yn ei dyn oddimewn, ond nid yw yn gallu dyfod i olwg y Gadair o gwbl.

Idwal 1af.—Awdl ystwyth, lithrig. Teimlem fel pe megys yn yfed llefrith wrth ei ddarllen. * * * Dadleu bod Duw yn Greawdwr, Cynhaliwr, a Llywodraethwr pob peth, a hyny oddiwrth bob peth—a hwtio amheuwr a gwadwyr y gwirioneddau hyny, a wna y bardd mewn cyfran helaeth o'i awdl, ac y mae yn gwneyd hyny yn bert a phwrpasol iawn ; teimlir fod yspryd crefyddol ac addoliadol yn cerdded drwy yr awdl, * * ond ni chymer olwg ddigon eang ar ei thestyn i hawlio iddi y flaenoriaeth.

Addolwr.—Awdl faith a da ar y cyfan, ond yn hytrach yn anwastad, ac ambell i frycheuyn yn ei hanurddo. Defnyddia Addolwr, fel Idwal, ran helaeth o'i awdl i gernodio amheuwr a gwadwyr Duw a'i lywodraeth ; ond nid yw yn rhedeg mor ystwyth a heinif ar ei yrfa ag Idwal.

Llywarch Hen.—Awdl hirfaith, yn chwech o ranau, a chynwysiad helaeth o flaen pob rhan. Y mae *Llywarch Hen* yn fwy o athronydd a duwinydd nac ydyw o fardd. Ychydig o dân awenyddol sydd ganddo.

Tudur Aled.—Awdl go weddol. Braidd na feddyliem y buasai yr hen Tudur Aled gwreiddiol yn hytrach yn anfoddlon i'w olynydd hwn am fenthyca'r enw i'w ddodi wrth ei awdl hon. Nid yw nerth awen yr hen Tudur hwnw i'w deimlo yn y Tudur sydd ger ein bron yn awr, ond dichon yr ymgryfha efe.

Mordecai.—Ni ellir anrhydeddu y Mordecai hwn yn Birkenhead, fel yr anrhydeddwyd y Mordecai gynt yn Susan. Awdl go wanaidd a musgrell yw ei awdl ar y cyfan, gydag ambell i lygeidyn gloew yn achlysurol.

Idwal 2il.—Awdl ragorol, yn dilyn ei thestyn yn dda, gan gymeryd golwg eang arno yn ei wahanol gangenau, ond y mae gradd o esgeulusdra a diofalwch i'w ganfod weithiau. Nid yw mor gyfangooth drwyddi ag y dymunasid, ac y gallasai y bardd hwn yn ddiau ei throï allan. Nid yw yn ddigon gofalus yn y cysylltiadau a'r symudiadau. Neidia'n ddirybudd unwaith o'r trydydd person i'r ail.
* * * Fodd bynag, y mae teilyngdod yr awdl hon o radd uchel.

Ydlanydd.—Pell ar ol.

Mara.—Awdl wech iawn, mor belled ag y mae hi yn myned.* * Ar yr ochr dywell i Ragluniaeth yr edrycha *Mara* gan mwyaf. "*Croes* ragluniaeth," ys dywedai yr hen bobl, ydyw baich ei awdl.* * Y mae yn cyffroi ac yn cario ein cydymdeimlad gydag ef o'i dechreu i'r diwedd. Da iawn *Mara*, ond rhy gyfyng ac unochrog ar y testyn i hawlio goruchafiaeth.

Cowper.—Awdl dra rhagorol drwyddi o ran ei threfniad, ei hysbryd, ei hathrawiaeth, a'i hawenyddiaeth.

Divyd.—Yr un peth sydd genym i'w ddyweyd am hon. Y mae i radd yn eangach ei chylch ar y testyn na'r eiddo *Cowper*, ac, fe allai, yn aros braidd yn rhy hir ar rai pethau, megys hanes Joseph a Moses, ond yn dda a gwir farddonol.

Pen ar y cwbl a ddywedwyd yw hyn, bod *Idwal yr Ail*, *Cowper*, a *Divyd* ar y blaen i'w cydymgeiswyr; ac o'r tri, daeth y tri beirniaid i gydolygu mai *Divyd* bioedd yr hawl flaenaf i'r Gadair.

Y mae ELIS WYN o WYRFAI yn dirwyn ei Feirniadaeth fanol a hirfaith i fyny fel y canlyn:—

Y mae y tair awdl a nodwyd olaf sef *Idwal (2il)*, *Cowper* a *Divyd*, yn sicr ragori ar y gweddill, ond gorchwyl anhawdd yw penderfynu i foddlonrwydd pa un sydd yn gwir hawlio y flaenoriaeth. Yn mherffeithrwydd ei chyfansoddiad, ac eneiniad awen, y mae *Idwal (2il)* yn diamheuol ragori; ac iddo ef y tueddid fi ar y cyntaf i rododi y flaenoriaeth, er nad yw ei awdl odid un ran o dair o hyd cyfansoddiad *Divyd*.

Arddengys *Cowper* athrylith gref, teimlad angerddol, a dyfnder meddwl gwreiddiol. Y mae rhanau o'r awdl yn wir fawreddus, ac yn dyferu o enaint awen; ond nid yw mor goeth a diwylliedig ag *Idwal (2il)* a *Divyd*. Y mae *Divyd* yn gryf, yn llawn, yn faith, ac yn aml yn aruchel; ond disgyna yn fynych hefyd i gyffredinedd is na'i ddau gydymgeisydd awengar. Os yw cyfansoddiad i'w bwysu yn ol ei faint, swm y farddoniaeth a geir ynddo, gan ddethol yr holl geinion a rhagorion, a'u gosod yn y glorian, heb adael i gyffredinedd isel mewn rhanau ereill o'r gwaith leihau y gwerth, hawlia *Divyd* y

flaenoriaeth. Y mae fy nau gyd-feirniaid yn cwbl gydweled mae y tri hyn yw y goreuon ; ac y maent yn mhellach yn llwyr benderfynol mai *Divyð* yw y goreu oll ; ac er fod fy chwaeth i yn tueddu i ddewis awdl fer, feistrolgar, gywrain, ond beiddgar *Idwal* (2il), tra yn condemnio rhai pethau ynddi, gwell genyf gymeradwyo rhoddi y Gadair i *Divyð* na sefyll, hwyrach yn ystyfnig, dros dueddiad fy chwaeth fy hun. Y mae y gwahaniaeth gwerth gwirioneddol mor fychan rhwng y tair, fel mai mater o chwaeth bersonol a dryddy fantol.

Rhodder felly y Gadair i *Divyð*, a gadawer i'r ymgeiswyr ereill wybod mor gyfyng a fu arno yn ei henill. Da fuasai genyf fi weled y tair awdl yn argraphedig mewn un llyfr, pe buasai modd. Y maent yn anrhydedd i'w hawdwyr ac i'r Eisteddfod."

Hefyd y diweddar ISLWYN a ysgrifennai at Ysgrifenydd Llenyddol yr Eisteddfod gan ddywedyd "Yr wyf yn danfon fy marn heddyw (Medi 3, 1878) at Dr. REES ac ELIS WYN." "Disgwyliaf y bydd y ffugenwau hyn, sef, *Comper*, *Idwal* (2il), a *Divyð*, ar fy nghôf mewn byd arall, gan faint y boen a gefais i wneyd i fyny fy marn ostyngedig ond gonest i cydryngynt. Wedi dyfal ddarllen penderfynais yn ddi-os, ddi-betrus, o blaid *Divyð*. Cydolygodd HIRAETHOG, ac ELIS WYN yn y diwedd. Awdl ardderchog yw yr hon sydd yn enill y gamp fawr."

YR ARWRGERDDI AR "JOSHUA."

Beirniaid.—DR. EDWARDS, CYNFAEN, A HWFA MON.

DYWED y blaenaf :—Wrth roddi fy rhesymau dros y farn y daethum iddi o barth teilyngdod yr Arwrgerddi ar Joshua, dymunaf grybwyll fy mod dan radd o anfantais, trwy i mi, rhag ofn gwneuthur cam â'm cydfeirniaid, anfon ymaith y cyfansoddiadau cyn i mi gael amser i ysgrifenu ond ychydig o nodiadau arnynt. Nid oes genyf, gan hyny, ond dyweyd yr argraph ar y cyfan a adawodd y darlleniad ohonynt ar fy meddwl. Er hyny ni fynwn i'r ymgeiswyr dybied mai wrth y safon hon yn unig yr oeddwn yn barnu, oblegid darllenis y goreuon yn fanwl, a rhanau ohonynt fwy nag unwaith. Bùm yn hir mewn petrusder rhwng dau ohonynt, sef *Othniel* a'r un a gymer yr arwyddair *Anadl ddaeth ar genedl ddyn*. Rhagora y ddau hyn mewn undod, yn yr hyn y mae amryw o'r lleill yn ddiffygiol, a'r hyn sydd yn ymddangos i mi yn hanfodol i arwrgerdd. Dylai hon fod, nid yn amrywiol ddarnau wedi ei gosod wrth ei gilydd, ond yn un cyfanwaith byw, yr hwn y mae pob rhan ohono yn gwasanaethu i'r oll, a'r oll i bob rhan. Os darlleni'r arwrgerddi Homer, neu Virgil, neu Milton, gwelir fod holl ranau y cyfansoddiad yn cydgyfarfod mewn un amcan. Pa beth a ddylai fod yn brif bwnc, fel canolbwnc i'r cwbl, mewn arwrgerdd i Joshua? Onid meddiannu gwlad Canaan? Teimlir hyn i raddau gan y goreuon o'r ymgeiswyr ; ond am y lleill, mae yn amlwg nad oeddynt wedi gweled y weithred hon, fel yr ydoedd mewn gwirionedd, yn un o'r rhai arbenicaf a phwysfawrocaf yn hanes y byd. Y mae rhyw esgus i'w roddi drostynt, am mai Joshua yn unig oedd y testyn. Er hyny y ffordd oreu i ddyrchafu Joshua

mewn arwrgerdd ydyw ei ddangos yn ei gysylltiad â'r gwaith neill-duol y galwyd ef i'w gyflawni.

Ond i ddychwelyd at *Othniel* ac *Anadl ddaeth ar genedl ddyn*. Y mae un neu ddau o'r lleill wedi cadw y prif amcan mewn golwg yn gystal â hwythau, er nad yn well. Ond yn ychwanegol at hyn, y maent hwy eu dau yn dangos mwy o ragoriaeth cyfansoddiad na'r un o'u cydymgeiswyr. Y prydfertaf ydyw *Anadl*—os goddefir i mi dal fyru ychydig ar ei enw. Dechreuau yn gampus, tra y mae *Othniel* yn dechreu braidd yn drwsogl; ond wrth fyned yn mlaen ymddengys fel yn gwanhau, ac yn ddiffygiol yn y gallu o ddyweyd llawer mewn ychydig. O'r tu arall, y mae *Othniel* yn rhagori mewn cryfder, ac yn adnewyddu ei nerth hyd y diwedd. Ar yr un pryd, nid wyf yn sier nad ellid pigo mwy o frychau yn ei gyfansoddiad ef na'r un o'r lleill; ac os bernir ef yn ol y rheol hawdd o rifo y beiau, bydd yn rhaid iddo fod yn rhywle tua'r gwaelod. Er enghraifft, y mae yn rhy hir yn dyfod at ei bwnc. Y mae hefyd yn rhy faith yn ei ddesgrifiad o uffern; a gwaeth na'r cwbl, y mae yn dyfod ar ol Milton; ac wrth gymharu y ddau ceir ef yn fwy ar ol mewn gallu nag mewn amser. Ond er nas gellir ei gystadlu â Milton, ceir ynddo llawer o'r cryfder hwnw oedd mor amlwg yn mardd "Coll Gwynfa." Y mae ynddo gryfder bywyd; ac y mae bywyd yn beth na ellir yn iawn ddywedyd pa beth ydyw. Y mae yn rhywbeth i'w deimlo, ac nid i'w dafoli. Oherwydd y rhesymau hyn yr wyf yn rhoddi *Othniel* yn gyntaf, ac *Anadl ddaeth ar genedl ddyn* yn ail.

Am y lleill, rhoddaf yma hyny o sylwadau sydd genyf wedi eu hysgrifenu am danynt, heb geisio eu gosod yn ol trefn eu teilyngdod.

Caleb.—Prydfertaf; ond diffygiol mewn nerth a darfelydd. Ymgyngoriad yr ysprydion drwg braidd yn dywyll. Dechreuau yn naturiol gyda marwolaeth Moses; ond nid mor naturiol yw ei feithder yn darlunio Josua yn dwyn i weithrediad drefniadau Moses.

Gwllith Hermon.—Naw golygfa yn hanes Joshua. Diffyg undeb; er fod yma gryn amrywiaeth a bywiogrwydd.

Hermon.—Diffyg bywyd. Dim llawer o drefn, ond darnau prydfertaf.

Un o blant y bryniau.—Gwaith gorchestol, yn cadw undeb trwy roddi rhan helaeth o'r gân yn ngenau hen fardd Hebraidd, i ailadrodd troion yr anial a'r paratoi fu ar y bobl cyn eu cael yn addfed i'r wlad, Gorphena gyda chymeryd Jericho.

Mervinia.—A beautiful poem in English. Deficient in strength and imagination.

Gwlladwr.—Diangodd hwn rhywfodd heb sylwadau. Ond yr wyf yn cofio i mi ei ddarllen gyda hyfrydwch; a phe buasai yn fwy gorphenedig, buaswn yn ei osod ef yn drydydd.

Simron Meron.—Dysgedig—yn rhoddi yr hanes yn dra chryno; ond diffygiol mewn nerth.

Philo-Hebraicus.—Y mwyaf dysgedig—yn dangos llawer o lafur; ond diffygiol mewn crebwyll.

Hermon.—Diffyg trefn—o leiaf, nid yw y drefn yn eglur i'r darllenydd.

Anorphenol.—Gwanaidd; ond gall ddyfod yn gryfach.

Cafwyd drwy y wasg hefyd nodiadau beirniadol gan y ddau Feirniad parchedig a thalentog ereill.

Drwg genym nad ydyw sylwadau HWFA MON wrth law genym. Fel y canlyn y terfyna CYNFAEN ei feirniadaeth ef, drwy sylwi ar *Othniel*. Y mae y cyfansoddiad hwn mewn cynllun, defnydd, athrylith, a chelfyddyd yn gwisgo gwir deithi arwrgerdd. Hwyrach pe buasai yr awdwr wedi talu mwy o sylw i gymesuredd wrth weithio rhai rhanau o'i gynllun allan, y buasai yn well, ond feallai fod hyn yn fwy o *mannerism* na dim arall. Un o'r darnau gwanaf yn y gwaith yw yr adran a briodola i Dduw pan yn llefaru wrth Joshua. Mae yn fath o efelychiad o'r Ysgrythyr, ond ei fod wedi ei gwanhau yn fawr. Teimlwn fod rhai o'r brawddegau yn ystyfnig yn eu gwaith, ac mewn rhai manau rhaid darllen yn gwbl mewn arddull ryddiaethol, gan faint y rhyddid a gymerodd yr awdwr gyda'i fesur. Gyda'r ychydig anfanteision hyn, ystyriwn fod y cyfansoddiad yn un o'r arwrgerddi goreu yn yr iaith. Saif yn enwog yn mhlith yr ychydig a feddwn yn y dosbarth uwchaf. Y mae ei chreadigaethau gan mwyaf yn feiddgar aruthrol; mae adnoddau cydmariaethau yr awdwr yn ymddangos yn ddi-hysbydd, a'r oll o nodwedd arbenig y gân. Hefyd, teimlwn fod ymdaith grymus yr ysprydiaeth arwrol yn cael ei gynal i fyny drwy yr holl gyfansoddiad, a swm nerth newydd yn parhau i godi megys yn mhob cam, ac weithiau y mae yn tori allan i angerddoldeb dychrynlyd, ac yn gwneuthur gwrhydri aruthrol. Nid ym yn dyweyd na feddwn ychydig arwrgerddi mwy dysglaer eu gorpheniad na hon, ond nemawr un mwy rhwysgfawr mewn beiddgarwch ehediadau, ac mwy grymus yn nerth eu hergydion.

PRYDDEST-GOFFA

AM

IEUAN GWYLLT, IOAN PEDR, MYNYDDOG A TREBOR MAI.

Beirniaid:—IOAN ARFON, GWALCHMAI, A CEIRIOG HUGHES.

DYWED IOAN ARFON, a'r hyn y cydolygai ei gydfeirniaid:—Er na dderbyniwyd ond pedwar ar y testyn uchod, yr wyf yn cyfrif fod yma gystadleuaeth bur dda. Gellir datgan yn ddibetrus nad oes yr un wael yn eu mysg; ac o'r ochr arall, dichon nad oes yr un wir gampus. Modd bynag, mae yn llawen genyf weled rhai mor deilwng. Y cyntaf ddaw dan sylw ydyw

John Blackwell.—Pryddest lithrog, o gynlluniad rhwydd a naturiol. Y mae ei awen yn fywiog a phert, ac yn gallu cynyrchu rhai darnau pur gymeradwy; ond nid ydyw ei hadnoddau yn eang na'i theimlad yn ddwys. Teimlwn nad ydyw desgrifiadau y bardd hwn yn ddigon manwl a chyflawn, a'i fod yn dwyn amryw bethau i'w gân y buasai yn well iddo eu gadael allan. Y mae ganddo rai darnau hefyd yn tueddu at fod yn rhigymol eu harddull. Ond ei ddiffyg penaf, yn fy marn i, ydyw diffyg teimlad dwys, gwresog, yr hyn

sydd mor hanfodol i Farwnad neu Gerdd-goffa. Ond er hyny y mae yn bryddest dda, ac y mae yn gwellhau at ei diwedd.

Brython.—Pryddest fer, gryno, a chynwysfawr sydd gan y bardd hwn. Mae y cynllun yn gymeradwy, a'r fydryddiaeth yn gywir a gofalus. Ychydig sydd genym yn ei herbyn, gan belled ag y mae'n myned, ond ei bod braidd yn ddôf ac undonol—dim digon o ysbryd ynddi. Ond y mae yn llawer rhy fer i wneyd rhith gyfiawnder â choffa yr enwogion—dim dros 100 llinell ar bob un ar wahan. O herwydd ei byrder, nid oedd bosibl i'r bardd osod allan nodweddion y gwrthddrychau yn ddigon manwl a chyflawn. Dyna yw diffyg mawr y farwnad hon.

Owain Gwynedd.—Pryddest faith a llafurfawr. Y mae'r bardd yn croniclo hanes a ffeithiau bywyd y gwrthddrychau yn bur fanwl—yn wir yn rhy fanwl—nes peri i'r gân ymddangos yn fwy o fywgraphiad nag o farwnad. Nid yw trefniad y gân yn bur dda chwaith. Dyg y bardd ormod o bethau anmherthynasol i fewn iddi; ac y mae yn troi a throsi gormod ar yr un pethau yn fynych, yn lle symud yn mlaen wrth reol a threfn. Cymerir ei ganiad ar Ieuan Gwyllt fel engraifft o hyn. Peth arall sydd yn ei erbyn ydyw, fod ei frawddegau yn amleiriog, a'i arddull yn rhy ryddieithol, megys—

Y genedl a addysgodd yn y gwaith
O ganu; tra yn fyw y byddo'r iaith
Gymraeg, rhwng creigiau Cymru y bydd clod
I Ieuan Gwyllt, a'i beraidd donau'n bod.

Ceir yn y gân hon hefyd amryw ffugyrau cowliog, megis—

Ein Hieuan a hunodd yn nghanol ei waith,
A'i gledd yn ei law yn disglaerio;
Ar ganol y grwn y terfynodd ei daith. &c.

Dyna ef yn filwr yn y dechreu, ond yn aradrwr yn y diwedd; ac nid yw hon ond un engraifft o lawer ellid nodi.

Anafau ereill ar y farwnad hon ydynt, berfau cynorthwyol, tor mesur, a chorfau anghywir a chloffion.

Modd bynag, mae'r bardd yn canu yn llawer gwell ar y ddau olaf, sef Mynyddog a Trebor Mai; a phe canasai yn gyfartal ar y ddau arall, nid gorchwyl hawdd fuasai rhagori arno.

Gray.—Canodd y bardd hwn yn gelfydd ac yn naturiol. Ymddengys fod cylch gwybodaeth *Gray* yn eangach, ac hefyd fod ganddo fwy o feistrolaeth ar iaith, na neb o'i gydymgeiswyr, yr hyn sy'n ei alluogi i ddilyn y gwrthddrychau drwy bob cylch, a'u desgrifio yn fanylach a chyflawnach. Nid yw yn ymdroi gormod gyda'r un peth chwaith, megys y gwna *Owain Gwynedd*, eithr symuda yn mlaen gyda'r delweddau yn rheolaidd a naturiol, a thrwy hyny y mae yn gallu cadw i fyny y dyddordeb. Y mae ganddo yntau amryw wallau, megys tor mesur, corfanau cloffion, twyll odlau, &c., ond nid ydynt luosog na phwysig iawn.

Ar ol tafoli manwl ac ystyriaeth ddyfal, yr wyf fi yn gogwyddo o blaid *Gray*. A chymeryd pobpeth gyda'u gilydd, credaf ei bod yn fwy galluog, a'i bod yn sicr o adael gwell a dyfnach argraph ar feddwl y darllenydd.

CYWYDD "GWROLDEB."

Beirniaid:—DAFYDD MORGANWG, IOAN ARFON A TAFOLOG.

DERBYNIWYD pedwar Cywydd i'r gystadleuaeth.

Undodwr.—Cywydd gwael yw hwn; mae fel math o gymysgfa o bobpeth ond yr hyn allesid ddysgwyl ar y testyn. * * *

Glan Aran.—Cywydd go gyffredin sydd gan hwn hefyd, y mae fel pe heb ddeall ei destyn. Cana i wroniaid yn hytrach nag i Wroldeb fel elfen neu allu yn y meddwl, cynwysa luaws o wallau hefyd. * *

Eryri.—Hyfrydwch yw genym gael dyfod i gymdeithas coethach ac aruchelach awen yn nghywydd *Eryri*. Mae ynddo luaws o syniadau barddonol aruchel, ac ambell i fflachiad meddyliol fel tywyniad mellten. Er hyny y mae yr awdwr wedi bod yn hynod esgeulus a diofal, oblegid y mae ganddo lawer iawn o feiau cerdd-dafod. * *

Mordaf.—Cywydd hynod o gywir a diwall, er nad yn berffaith felly. * * * Fel cyfansoddiad, y mae hwn o gynlluniad deheuig, a'r gweithiad allan yn gryno a boddhäol, fel y gellir ei gyfrif yn gywydd gorphenedig a gwych ar y testyn. Yr ydym ein tri yn hollol unfarn mai eiddo *Mordaf* yw y goreu.

BALAD "BODDIAD Y CERDDOR."

Beirniaid:—CEIRIOG, WATCYN WYN, A'R Parch. O. WALDO JAMES.

Derbynwyd 13 i'r gystadleuaeth hon. Am y buddugol dywedir: "Pum' pennill da o wýth llinell. Balad fechan dda iawn. Yr unig fai arni ydyw, ei bod ar yr un mesur. Y mae y llinellau yn ystwyth, perorol, ac mewn cywair y gellir canu arnynt. * * *

CYFIEITHIAD O'R "RAVEN."—E. A. POE.

Beirniaid:—Meistri CEIRIOG HUGHES, A TUDNO JONES.

Y MAE y blaenaf, ar ddiwedd beirniadaeth faith a chlasurol, yn sylwi:—"Ar ol ymbwylo cryn lawer efo'r cyfaill galluog a chadeiriog TUDNO, cawsom y rhai canlynol yn nofio ar y wyneb *Cybi*, *Seiriol*, a *Pindar*; a rhag dangos ystyfnigrwydd na ffafraeth, gofynwyd i'r Proffeswr Rowlands (DEWI MÔN), o Goleg Aberhonddu, actio fel canolwr. Penderfynodd ef yn ffafr *Pindar*."

CYFIEITHIAD O "VILLAGE BLACKSMITH."—LONGFELLOW.

Beirniaid:—Meistri CEIRIOG HUGHES A TUDNO JONES.

"YN mysg y goreuon gwelwn fod *Cymro*, *Llywarch Hen*, *Shertfellow*, *Gôf o arall gyfeiriad*, a *Vulcan (2il)*. Er nad yw gwaith *Vulcan* mor llythrenol a llawer a allem enwi, y mae ei gyfieithiad yn syml, naturiol, a pherorol; a defnyddia eiriau hawdd i'w deall a'u hamgyffred. A chymeryd pobpeth i ystyriaeth, y mae TUDNO a minau, medd yr ALLTWEN, yn hollol gyduno mai efe, sef yr olaf, yw y goreu."

FOULKES & EVANS, Argraffwyr, Tithebarn Street, Liverpool.

